Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 122/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2025

# Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: adolygiad o'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a'r defnydd a wneir o'r data hwnnw

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright ISBN 978-1-80633-757-6

Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o’r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a’r defnydd a wneir o’r data hwnnw

Awduron: Megan Clark, Oliver Allies, Huw Lloyd-Williams, Hilda Bernhardsson, Jakob Abekhon (Wavehill Research)

Adroddiad Ymchwil Llawn: Clark, M; Allies, O; Lloyd-Williams, H; Bernhardsson, H; Abekhon, J (2025). Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o’r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a’r defnydd a wneir o’r data hwnnw. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad, GSR 122/2025

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymhwystra-ar-gyfer-prydau-ysgol-am-ddim-efsm-mwy-adolygiad-data

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r canlynol:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 9247

Ebost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys


Rhestr tablau ........ 2

Rhestr ffigurau ........ 3

Geirfa ........ 4

1. Cyflwyniad ........ 7

  Cefndir ........ 7

  Cwestiynau ymchwil ........ 15

2. Methodoleg ........ 17

  Profforma ........ 17

  Cyfweliadau ........ 18

  Cyfyngiadau ........ 20

3. Canfyddiadau ........ 22

  3.1. Yr angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ........ 22

  3.2. Y defnydd ar ddata eFSM ar hyn o bryd ........ 26

  3.3. Cryfderau a chyfyngiadau data eFSM ........ 42

  3.4. Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM) ........ 57

  3.5. Gwelliannau ac atebion parhaus ........ 63

  3.6. Defnydd rhanddeiliaid o ffurfiau eraill o ddata economaidd-gymdeithasol ........ 67

  3.7. Gofynion rhanddeiliaid ac ystyriaethau eraill ........ 75

4. Prif ganfyddiadau a’r camau nesaf ........ 86

Atodiad ........ 95

# Rhestr tablau


Tabl 1: Ymatebion i'r profforma ....................................................................................17
Tabl 2: Y rhai a gyfwelwyd yn ôl math rhanddeiliad ..............................................................18
Tabl 3: Ymatebion i'r profformâu a chyfweliadau ar draws timau polisi a dadansoddi Llywodraeth Cymru ..............................................................................................19
Tabl 4: Ymatebwyr y profforma a chyfranogwyr cyfweliadau o awdurdodau lleol ................20
Tabl 5: Anghenion a dibenion rhanddeiliaid wrth ddefnyddio data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr..................................................................................26
Tabl 6: Cyfrif y dibenion y mae grwpiau rhanddeiliaid yn defnyddio data eFSM ar eu cyfer 27
Tabl 7: Defnyddio data eFSM yn fformiwla Cyllidebau Ysgolion Unigol (ymatebion wedi'u codio) ...............................................................................................................32
Tabl 8: Cymharu'r awdurdodau lleol hynny sydd â'r gyfran uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd incwm isel yn 2023 gyda safle eFSM ......................................................51
Tabl 9: Pwysigrwydd cymharol meysydd unigol yn safleoedd MALIC 2019.........................68

# Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Cyfran y disgyblion 5 i 15 oed sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim 2012/13 i 2024/25 ..... 14
Ffigur 2: Defnyddio data eFSM ar gyfer ystadegau a monitro gan awdurdodau lleol ..... 37
Ffigur 3: Y farn am effaith cyflwyno UPFSM ar gofrestriadau eFSM ..... 58

# Geirfa

**ACE**

Profiad niweidiol yn ystod plentyndod / adverse childhood experiences

**ADEW**

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru / Association of Directors of Education in Wales

**ADRU**

Uned Ymchwil Data Gweinyddol / Administrative Data Research Unit (corff Llywodraeth Cymru)

**ADY**

Anghenion dysgu ychwanegol (cyn i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg [Cymru] 2018 ddod i rym yn 2021, cyfeirid at y rhain fel Anghenion Addysgol Arbennig [AAA/SEN])

**AWCDS**

Set Ddata Graidd Cymru Gyfan / All-Wales Core Dataset

**CLILC / WLGA**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru / Welsh Local Government Association

**CThEF / HMRC**

Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi / HM Revenue and Customs

**CYBLD / PLASC**

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion / Pupil Level Annual School Census

**DWP**

Yr Adran Gwaith a Phensiynau / Department for Work and Pensions

**eFSM**

Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim / Eligibility for free school meals

**EHE**

Addysg ddewisol yn y cartref / Elective home education

**EOTAS**

Addysg Heblaw yn yr Ysgol / Educated other than at school

**FSM**

Prydau ysgol am ddim / free school meals

**HBAI**

Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog / Households Below Average Income

**ISB**

Cyllideb Ysgolion Unigol / Individual Schools Budget

**LAEG**

Grant Addysg Awdurdodau Lleol / Local Authority Education Grant

**LEO**

Set ddata Deilliannau Addysg Hydredol / Longitudinal Educational Outcomes dataset

**LLWR**

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru / Lifetime Learning Wales Record

**LSOA**

Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is / Lower Super Output Area

**MALIC / WIMD**

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru / Wales Index of Multiple Deprivation

**NEET**

Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant / Not in education, employment or training

**NRPF**

Heb hawl i gyllid cyhoeddus / No recourse to public funds

**NS-SEC**

Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol / National Statistics Socio-economic Classification

**PDG**

Y Grant Datblygu Disgyblion / Pupil Development Grant

**SAIL**

Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw / Secure Anonymised Information Linkage databank

**SEG**

Grant Hanfodion Ysgol / School Essentials Grant

**SED**

Anfantais economaidd-gymdeithasol / Socio-economic disadvantage

**TP**

Amddiffyn wrth Bontio / Transitional protection

**TP FSM**

Prydau bwyd am ddim sydd wedi'u hamddiffyn wrth bontio / Transitionally protected free school meals

**UCAS**

Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau / Universities and Colleges Admissions Service

**UPFSM**

Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd / Universal primary free school meals

**VAP**

Proffiliau Asesu Bregusrwydd / Vulnerability assessment profile

**WBFGA**

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Well-being of Future Generations Act (Wales) 2015

**YEPF**

Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid / Youth Engagement and Progression Framework

# 1. Cyflwyniad

Fel rhan o'i hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi'r rheiny sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i'w haddysg, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn deall ac yn mesur y berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol (SED) a chanlyniadau dysgwyr. Y mesur amlycaf a ddefnyddir ar hyn o bryd yw bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, bu rhywfaint o bryder bod cyfyngiadau i ddefnyddio data eFSM, gan gynnwys ei fod yn tanamcangyfrif lefelau tlodi, ac nad yw'n ystyried yn llawn natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol. Yn sgil hyn, mae dau adroddiad gan Lywodraeth Cymru, sef Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru a Datblygu ecosystem newydd ar gyfer data a gwybodaeth wedi argymell y dylid ystyried y ffyrdd y mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei fesur ymhlith dysgwyr drwy gynnal adolygiad o'r defnydd presennol ar y data ac archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio gwybodaeth gyd-destunol arall i edrych ar effeithiau cydraddoldeb a thargedu cymorth.

I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil, ac mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam cychwynnol yr ymchwil a gynhaliwyd gan Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd.

Prif amcanion cam cyntaf yr ymchwil hwn oedd pennu ystod yr anghenion data sydd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, sef data ar ddysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r dibenion y maent yn defnyddio'r data hwnnw, ynghyd â deall yn gynhwysfawr sut maent yn defnyddio data eFSM ar hyn o bryd. Mae'r ymchwil hefyd yn ceisio casglu safbwyntiau ar sut i oresgyn unrhyw gyfyngiadau sydd gan eFSM ac archwilio pa fathau eraill o ddata y mae rhanddeiliaid yn eu defnyddio neu'n teimlo yr hoffent gael mynediad atynt i ddiwallu eu hanghenion yn well. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn sail i gam(au) pellach y prosiect.

## Cefndir

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol i'w chael ledled Cymru ac yn aml ystyrir hyn i fod yn bennaf gysylltiedig ag incwm isel. Mae ymchwil diweddar yn awgrymu bod bron i draean (31%) o blant yn byw mewn tlodi cymharol o ran incwm ar ôl ystyried costau tai, ffigur sydd wedi amrywio mymryn dros y degawd diwethaf (Llywodraeth Cymru, 2025).

Mae cryn wahaniaeth daearyddol yn nifer yr achosion a difrifoldeb anfantais economaidd-gymdeithasol, ond fe'i ceir ym mhob man, o ardaloedd trefol sydd â phoblogaethau dwys i leoliadau gwledig. Mewn adroddiad diweddar, dywedodd Sefydliad Bevan "er bod rhywfaint o amrywio rhwng ardaloedd lleol, nid oes unman yng Nghymru yn dianc rhag realiti cyfraddau annerbyniol o dlodi plant" (Sefydliad Bevan, 2024).

Mae'n hysbys ers tro drwy'r corff helaeth o dystiolaeth bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau addysgol gwaeth mewn plant, gan gynnwys gwahaniaethau amlwg mewn cyfraddau cynnydd a lefelau cyrhaeddiad (gweler, e.e., Mills,

2021). Mae ymchwil wedi nodi ‘bwlch mewn cyrhaeddiad’ yn ôl lefel incwm rhieni ar draws pob cam o addysg, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae pandemig COVID-19 wedi ehangu’r bwlch hwn (Sefydliad Joseph Rowntree, 2023; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2023).

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol hefyd yn gysylltiedig â chanlyniadau eraill i ddysgwyr, wrth i blant sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fod wedi’u heithrio’n anghymesur o’r ysgol (e.e. Comisiynydd Plant Cymru, 2023) a bod eu cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol yn is. Ceir tystiolaeth hefyd bod canlyniadau addysgol yn rhagfynegyddion pwysig o gyfleoedd bywyd pobl, gan fod yn sail i ganlyniadau sy’n gysylltiedig â chyflogaeth, incwm, iechyd a lles, a throseddoldeb (gweler Deaton, 2024).

Felly mae’n hanfodol mesur anfantais economaidd-gymdeithasol yn gywir a phennu pwy y mae’r anfantais yn effeithio arnynt er mwyn darparu cefnogaeth a mynd i’r afael ag anghydraddoldeb. Mae hyn o gryn ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid eraill sy’n chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau addysg a sicrhau llesiant cenedlaethau’r dyfodol.

Mae ystod o ddata ar gael i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr. Fodd bynnag, yn hanesyddol y brif ffynhonnell ddata yw gwybodaeth am y plant sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a hwn yn brocsi am incwm ar lefel yr unigolyn neu’r aelwyd.

## Pryd ysgol am ddim

Sefydlwyd darpariaeth prydau ysgol am ddim (FSM) i blant cymwys sy’n mynychu ysgolion a gynhelir gan Ddeddf Addysg 1996. Caiff meini prawf pwy sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim eu gosod a’u hadolygu gan Lywodraeth Cymru. Fe’u diweddarwyd ddiwethaf yn 2019 ac ar hyn o bryd maent fel a ganlyn:

- Cymhwystra yn seiliedig ar incwm: mae teuluoedd sy’n derbyn rhai budd-daliadau lles fel Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, neu Gredyd Treth Plant, ac sydd ag incwm islaw £16,190.
- Credyd Cynhwysol: teuluoedd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol, cyn belled ag nad oes gan yr aelwyd incwm net blynyddol o ddim mwy na £7,400.
- Meini Prawf Ychwanegol: gall rhai meini prawf dewisol ychwanegol fod yn berthnasol, er enghraifft unrhyw blentyn nad yw’n gymwys yn awtomatig oherwydd statws mewnfudo ei rieni a theuluoedd heb hawl i arian cyhoeddus (NRPF).

Yr awdurdod lleol y mae dysgwr yn mynychu’r ysgol ynddo sy’n gyfrifol am asesu cymhwystra i gael pryd bwyd am ddim (FSM) ac am ddarparu’r pryd ei hun. Rhaid i rieni neu warcheidwaid dysgwyr sy’n gymwys wneud cais i gofrestru eu plentyn fel eFSM drwy eu hawdurdod lleol. Ar ôl iddynt wneud hynny, bydd eu hawdurdod lleol yn cofnodi eu hawliad. Felly, mae data ar eFSM yn cyfeirio at blant sy’n gymwys **yn ogystal ag** wedi cofrestru ar gyfer cael pryd ysgol am ddim.

Yr awdurdodau lleol unigol sy'n pennu'r union broses ar gyfer casglu a chofnodi data eFSM ac yn aml cynhelir y broses honno gan yr adran fudd-daliadau yn hytrach na'r adran addysg. Gall gynnwys ystod o systemau gwybodaeth reoli gwahanol, yn awtomataidd ac â llaw. Mae pa mor aml y mae'r awdurdodau yn adolygu ac yn dilysu data cymhwystra yn amrywio, a hynny'n pennu pa mor aml y mae'r data mwyaf cyfredol ar gael iddynt ac i'r ysgolion yn eu hardal.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data eFSM o ysgolion fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r CYBLD yn casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â disgyblion o'r cyfnod meithrin hyd at ddarpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar un diwrnod ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae ysgolion yn cyflwyno gwybodaeth i'r awdurdod lleol, sydd wedyn yn ei chasglu ac yn ei throsglwyddo i Lywodraeth Cymru. Dyma'r brif ffynhonnell data sydd ar gael i'r cyhoedd ar eFSM ac fe'i cyhoeddir trwy ddatganiadau ystadegol ar wefan y Llywodraeth ac mae hefyd ar gael ar StatsCymru.

Dylid nodi bod dau lwybr arall erbyn hyn i eFSM yn seiliedig ar brawf modd, i ddysgwyr gael pryd o fwyd am ddim yn eu hysgol (trafodir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn adran berthnasol yr adroddiad):

- Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM), sydd ar gael i bob disgybl yn yr ysgol gynradd, ac,
- Amddiffyn wrth Bontio (TP), i ddysgwyr a oedd yn arfer cael Credyd Cynhwysol.

Rhwng 2003/04 a 2018/19, roedd bron i un o bob pump o ddysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwy'r llwybr prawf modd. Arhosodd y cyfrannau oedd yn gymwys yn gymharol sefydlog drwy gydol y cyfnod hwn, gan amrywio o 17.0% yn 2008/2009 i 19.7% yn 2010/2011. Fodd bynnag, mae cyfartaledd Cymru wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf i chwarter o'r holl ddisgyblion 5-15 oed (23.3%) yn 2021/2022 (trafodir y tueddiadau mwyaf cyfredol ymhellach isod).

## Defnyddio data eFSM

Fel y nodwyd eisoes, mae defnyddio data eFSM fel procsi yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru. Fe'i defnyddir mewn sawl ffordd, wrth gefnogi mentrau polisi ehangach yn ogystal ag wrth liniaru effaith anfantais ar ddysgwyr wrth ddarparu gwasanaethau addysg.

Mae'r mewnwelediadau a geir drwy ddata eFSM ar anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu defnyddio i lywio mentrau polisi cyffredinol, gan gynnwys bodloni gofynion statudol a nodau strategol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Er enghraifft, mae'n chwarae rhan yn y dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at y nodau lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wrth weithredu ymrwymiadau cydraddoldeb, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Y prif ddefnydd ar ddata eFSM yw er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol drwy ddarparu gwasanaethau addysg. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi atgyfnerthu ei hymrwymiad i'r her hon drwy gyhoeddi Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb, sy'n gosod amcanion megis chwalu rhwystrau a darparu addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel i gefnogi llwyddiant dysgwyr.

Mae darparu cyllid yn rhan hanfodol o'r genhadaeth hon, a data eFSM yw'r brif ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cysylltiedig i gyhoeddi amrywiaeth o grantiau. Dyma rai o'r prif ffurfiau y mae data eFSM yn ymddangos ynddynt:

Y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) ar gyfer dysgwyr 3-15 oed yw prif ymyrraeth ariannol Llywodraeth Cymru i helpu ysgolion i wella cyrhaeddiad dysgwyr o aelwydydd incwm-isel.[1] Mae pedwar prif fath o gyllid yn y PDG, sef: y prif PDG, PDG y Blynyddoedd Cynnar (EYPDG), PDG Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a PDG ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG-CLA), a phob un o'r rhain wedi'u dyrannu yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac eithrio PDG-CLA. Dengys y dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion diweddaraf fod £114.53 m wedi'i ddosbarthu i ysgolion, meithrinfeydd a lleoliadau addysgol eraill ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Defnyddir data eFSM hefyd gan awdurdodau lleol fel rhan o'u fformwlâu cyllideb ysgolion unigol (ISB) eu hunain i ddyrannu cyllid ychwanegol i ysgolion sydd â dysgwyr dan anfantais. Defnyddir y cyllid hwn yn gyffredinol i leihau cymhareb disgyblion-athrawon mewn ysgolion cynradd ac i gynyddu nifer y cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Astudiwyd hyn yn yr Adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru a chanfuwyd amrywio sylweddol yn y gwariant ar draws awdurdodau lleol sydd â lefelau anfantais tebyg, a phriodolwyd hyn yn rhannol i'r gwahanol fformwlâu ariannu a ddefnyddiwyd gan bob awdurdod.

Yn ogystal â chyllid, defnyddir data eFSM hefyd i fonitro canlyniadau addysgol dysgwyr sydd dan anfantais o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol y dysgwyr. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn rheolaidd yn cynnal ac yn cyhoeddi dadansoddiadau ystadegol yn ymwneud ag agweddau ar addysg, gan gynnwys:

- cyrhaeddiad
- presenoldeb
- gwaharddiadau
- y cofnod addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn llunio ac yn sicrhau bod Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (AWCDS) ar gael i gefnogi gweithgarwch gwella ysgolion gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae eFSM wedi'i gynnwys yn hyn, ynghyd â gwybodaeth am agweddau eraill ar addysg.

[1] Dylid nodi bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi bod yn destun dau adolygiad yn ddiweddar, wedi'u cynnal gan Brifysgol Bangor a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd (Tiesteel et al, 2023; Tiesteel et al, 2024).

Mae consortia rhanbarthol,[2] awdurdodau lleol ac, yn bwysig, ysgolion yn cael mynediad at ddadansoddiadau o'r set ddata i fonitro anghydraddoldebau mewn canlyniadau rhwng disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a disgyblion sy'n cael, a hynny er mwyn meincnodi a chymharu eu canlyniadau, llywio ymyriadau a chefnogaeth, a gwerthuso eu cynnydd tuag at fynd i'r afael ag effeithiau anfantais. Yn ogystal, defnyddir data AWCDS gan Estyn i gefnogi gwaith arolygu ysgolion, yn enwedig i ddeall pa mor effeithiol y mae ysgolion yn defnyddio'r data sydd ar gael iddynt i werthuso a gwella darpariaeth gwasanaethau.

Mae cyflwyno dysgu yn y sector ôl-16 hefyd yn cynnwys defnyddio data ar statws eFSM dysgwyr pan oeddent o oedran ysgol statudol. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer cynllunio, cynnal a gwerthuso dysgu oedolion a chymunedol, prentisiaethau ac addysg uwch. O fis Awst 2024 ymlaen, mae gwaith sy'n gysylltiedig â hyrwyddo, ariannu a rheoleiddio addysg bellach ac uwch wedi'i drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i gorff cyhoeddus newydd, sef Medr (a elwid gynt yn Gomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, neu 'CTER'). Fel rhan o'u gwaith, mae Medr yn cynhyrchu ystadegau ar ganlyniadau mewn dysgu ôl-16, gan gynnwys mesurau rheolaidd perfformiad ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

Mae data am eFSM hefyd yn rhan o waith partneriaid Llywodraeth Cymru, megis Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS), sefydliadau polisi ac eiriolaeth gan gynnwys Plant yng Nghymru, Sefydliad Bevan a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Fe'i defnyddir hefyd mewn amrywiaeth o astudiaethau academaidd, er enghraifft, i ddeall effaith anfantais ar gyflawniad academaidd, ar gyfranogiad mewn addysg uwch, a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a chyfiawnder troseddol. Yn ogystal, mae wedi'i gynnwys trwy gofnod CYBLD yng nghronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), sy'n galluogi cysylltu setiau data ar raddfa fawr sydd wedi'u casglu'n rheolaidd er mwyn deall y boblogaeth, ei nodweddion, a darpariaeth ac effaith ar wasanaethau cyhoeddus.

Dengys y drafodaeth uchod y prif ffyrdd y defnyddir data eFSM gan randdeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus neu randdeiliaid sy'n gysylltiedig agos ag ef. Fodd bynnag, ni ddeellir yn llawn gwmpas ac ystod lawn y defnydd ar ddata eFSM, ac felly mae angen rhagor o fewnwelediadau fel rhan o'r adolygiad hwn.

## Cryfderau a chyfyngiadau

Gwyddys yn gyffredinol am gryfderau data eFSM, a hynny'n ei wneud yn fesur procsi gwerthfawr ar gyfer anfantais ar draws yr ystod o ddibenion y caiff ei ddefnyddio ar eu cyfer. Adlewyrchir hyn ym marn defnyddwyr a sawl adroddiad a chyhoeddiad academaidd.

Dyma'r unig ddangosydd o anfantais economaidd-gymdeithasol sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel y dysgwr unigol ac sy'n seiliedig yn uniongyrchol ar amgylchiadau cartref y disgybl. Felly mae'n darparu manylder heb ei ail. Mae'r dangosydd eFSM hefyd wedi'i ddiffinio'n glir ac yn cael ei ddeall yn dda, ac, fel mesur deuaidd, mae'n darparu rhywfaint o symlrwydd

[2] Mewn datganiad ysgrifenedig ar 31 Ionawr 2024, mynegodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd y bwriad i symud i ffwrdd o'r model rhanbarthol ehangach i un lle mae awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb llawn yn ôl am weithgarwch gwella ysgolion. Daw'r diwygiad hwn i rym o 2025 ymlaen.

wrth asesu a yw dysgwyr yn gymwys ai peidio. Yn ogystal, cesglir y data bob blwyddyn, gan olygu ei fod yn adlewyrchu amgylchiadau diweddar ac ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr.

Er gwaethaf ei fanteision, daeth hi'n fwyfwy amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf fod sawl cyfyngiad amlwg i ddata eFSM:

Nid yw'n cynnwys pob dysgwr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra. Mae'n rhaid i rieni wneud cais am i gael prydau ysgol am ddim er mwyn cofrestru eu plant i fod yn gymwys, ond nid yw llawer ohonynt yn gwneud hynny. Mae sawl rheswm dros hynny, gan gynnwys rhwystrau i wneud cais neu ddiffyg ymwybyddiaeth sut i wneud cais, stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, neu ddewisiadau bwyd sy'n golygu nad yw dysgwyr a'u teuluoedd yn dymuno cael y bwyd a ddarperir (gweler Sahota et al., 2013).

Mae'n bosibl nad yw'r meini prawf cymhwystra yn ddigon eang i gynnwys pob plentyn sy'n byw mewn tlodi. Mae sawl astudiaeth academaidd wedi archwilio hyn ledled y Deyrnas Unedig (e.e. Kounali, 2008; Ilie et al., 2017; Taylor, 2018), ac yn fwy diweddar, amcangyfrifodd y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant nad oedd dros hanner y plant sy'n byw o dan y llinell dlodi yng Nghymru (70,000) yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim (CPAG, 2020). Mater arwyddocaol yma yw bod y trothwy incwm/budd-daliadau ar gyfer eFSM wedi aros yn sefydlog ers mis Ebrill 2019, er bod cyflogau wedi cynyddu dros amser. Mae hyn yn golygu bod llai o deuluoedd wedi dod yn gymwys, er bod chwyddiant a chynnydd mewn costau byw yn golygu na chafwyd unrhyw welliannau mewn termau real yn incwm eu haelwydydd.

Nid yw'n cipio a chofnodi natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol yn llawn. Cafwyd nifer o astudiaethau mewn llenyddiaeth academaidd yn cymharu eFSM yn seiliedig ar incwm a dangosyddion eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol a'r rhain wedi dangos y gall ffactorau fel galwedigaeth rhieni ac addysg rhieni fod yr un mor allweddol, os nad yn bwysicach, wrth bennu canlyniadau dysgwyr (gweler Atodiad A i gael trosolwg o'r astudiaethau hyn).

Mae Llywodraeth Cymru a defnyddwyr data eraill yn gwybod am lawer o gyfyngiadau eFSM. Yn wir, mae sawl adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i feddwl y tu hwnt i ddibynnu ar ddangosydd eFSM yn unig. Er enghraifft, roedd yr Adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru yn 2020 ac ymchwil i ddatblygiad ecosystem newydd ar gyfer gwybodaeth a data yn 2023 wedi dangos adborth bod eFSM, gyda'i ffocws yn unig ar incwm, yn ddangosydd rhy gul i ddeall yn llawn effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol ar ddysgwyr ac ymateb i hynny.

## Heriau diweddar

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl datblygiad wedi codi risgiau pellach i ddata eFSM a gallent waethygu'r cyfyngiadau a drafodwyd uchod.

### Cyflwyno Credyd Cynhwysol ac Amddiffyn wrth Bontio

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol (UC) ac Amddiffyn wrth Bontio (*transitional protection*) wedi effeithio ar gasglu a chofnodi data eFSM. Roedd Credyd Cynhwysol, a gyflwynwyd yn

2013, wedi disodli chwe budd-dal etifeddol, gyda disgwyl i'r broses gyflwyno gael ei chwblhau'n raddol erbyn 2028.

O 1 Ebrill 2019, sefydlwyd trothwy incwm aelwydydd o £7,400 ar gyfer cymhwystra i gael pryd ysgol am ddim ar gyfer y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, roedd meini prawf cymhwystra gwahanol ar gyfer rhai aelwydydd a symudodd o fudd-daliadau etifeddol fel Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith, yn aml yn seiliedig ar dderbyn budd-daliadau penodol yn hytrach na throthwy incwm llym. O'r herwydd, roeddent mewn perygl o golli eu hawl er bod eu hincwm yn aros yr un fath.

Er mwyn sicrhau nad oedd dysgwyr a oedd gynt â hawl i gael pryd bwyd am ddim yn colli eu cymhwystra yn ystod y symud i Gredyd Cynhwysol, deddfwyd Gorchymyn Amddiffyn wrth Bontio. Yng Nghymru, roedd yr Amddiffyn wrth Bontio i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2023 neu ar ddiwedd cyfnod addysg y dysgwyr. Er iddo gael ei ymestyn yn Lloegr, yn dilyn asesiad ar effaith, cynigiodd Llywodraeth Cymru beidio â gwneud yr un peth ac i ddileu Amddiffyn wrth Bontio yn raddol fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

Awgryma tystiolaeth anecdotaidd gan awdurdodau lleol fod heriau wedi codi wrth gasglu a chofnodi disgyblion prydau ysgol am ddim a oedd wedi'u hamddiffyn wrth bontio oherwydd dryswch ac ansicrwydd mewn ysgolion, a allai fod wedi arwain at wallau ac anghysondebau yn y data.

Effeithiwyd ar gyfrifiadau ysgolion CYBLD rhwng 2020 a 2022 hefyd gan COVID-19, oherwydd cau ysgolion a chapasiti yn brin mewn awdurdodau lleol i ddilysu data eFSM. Ar ben hynny, cynhaliwyd cyfrifiadau 2021 a 2022 ym mis Ebrill a mis Chwefror, yn y drefn honno, yn hytrach nag ym mis Ionawr fel y gwnaed yn flaenorol. Efallai bod yr effeithiau hyn wedi cyfrannu at ddirywiad dros dro yn ansawdd y data ac wedi cyflwyno heriau wrth gymharu ffigurau eFSM dros amser. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn niweddariad y Prif Ystadegydd.

**Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM)**

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai hawl i brydau ysgol am ddim yn cael ei hymestyn i bob plentyn ysgol gynradd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Roedd polisi UPFSM yn rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru. Fe'i cyflwynwyd mewn ymateb i bwysau cynyddol costau byw ar deuluoedd ac i'r uchelgais i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd yn yr ysgol. Mae tystiolaeth yn dangos bod UPFSM wedi cael effaith gadarnhaol ar benderfynyddion iechyd ehangach ac yn lleihau anghydraddoldebau (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023).

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi cryn dipyn o gyllid dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi polisi UPFSM, a gyflwynwyd ym mis Medi 2024.


Mae cyflwyno UPFSM wedi codi pryderon na fydd rhieni bellach yn cofrestru eu plant ysgol gynradd fel rhai sy'n gymwys i gael pryd ysgol am ddim os nad oes gofyn iddynt wneud

hynny i dderbyn pryd bwyd am ddim. Pe bai cofrestriadau UPFSM yn gostwng fel hyn, mae risg na fydd data UPFSM yn llwyddo i gynnal cwmpas digonol ac efallai na fydd modd bellach dibynnu arno i fod yn ddangosydd cadarn a chynrychioliadol o anfantais economaidd-gymdeithasol.

I liniaru hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i rieni/gwarcheidwaid, gan eu hysbysu y gallai eu hysgol ofyn iddynt barhau i gofrestru eu plentyn fel y maent wedi'i wneud o'r blaen. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu hefyd o'r enw Hawliwch help gyda chostau ysgol i bwysleisio manteision gwneud hynny, megis derbyn taliadau bwyd dros wyliau ysgol a'r Grant Hanfodion Ysgol. Diweddarwyd hyn yn ystod tymor yr haf 2023 i gynnwys negeseuon ar sut y gallai cofrestru fod o fudd i ysgol y dysgwr o ran lefel y cyllid y maent yn ei dderbyn (h.y. y Grant Datblygu Disgyblion).

Nid yw'n amlwg eto a fydd rhieni'n parhau i gofrestru neu a fydd effaith ar niferoedd eFSM. Mae'r graff isod yn archwilio'r duedd yn nysgwyr eFSM o 2012/13 i'r data CYBLD diweddaraf ar adeg ysgrifennu (Ffigur 1). Dengys hwn gynnydd mewn cymhwystra yn 2020, 2021 a 2022, lle mae'n bosibl bod ansawdd y data wedi'i effeithio gan y materion y cyfeiriwyd atynt amlinellwyd uchod, ac yna gostyngiad rhwng 2023 a 2025 ond ar gyfradd sy'n dal yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Felly mae'r effaith a welwyd o'r data hwn yn aneglur, a byddai angen data pellach ar gyfer y blynyddoedd dilynol i roi syniad cliriach o unrhyw dueddiadau mewn cofrestru.

**Ffigur 1: Cyfran y disgyblion 5 i 15 oed sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim 2012/13 i 2024/25**




Ffynhonnell: StatsCymru, canrannau wedi'u cyfrifo gan y tîm ymchwil

Nodiadau am y data: sylwer ar yr heriau methodolegol ar gyfer data eFSM yn 2020, 2021, a 2022 fel yr amlinellwyd uchod.

Oherwydd yr ystod o ffactorau posibl a allai fod wedi dylanwadu ar newidiadau yn niferoedd eFSM dros amser, ni ellir esbonio unrhyw dueddiadau yn y data gan un achos. Mae'n bosibl

y gellid, trwy waith dilysu a mesurau lliniaru eraill, wedi mynd i'r afael â'r datblygiadau a'r heriau diweddar yn ymwneud ag Amddiffyn wrth Bontio, llai o gapasiti yn ystod COVID, a chyflwyno UPFSM. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch i ba raddau y mae hyn yn wir. Mae pryderon sylweddol ynghylch effeithiau peidio â chodi'r trothwy yn unol â chwyddiant a'r cynnydd mewn costau byw, sy'n golygu bod nifer y rhai sy'n gymwys yn debygol o fod yn lleihau er gwaethaf y ffaith bod tlodi cymharol yn aros yr un fath. Gall hyn atal swyddogion rhag deall tueddiadau dros amser yn gywir a chyfyngu ar eu gallu i fesur effaith a chynnydd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol.

## Cwestiynau ymchwil

Ar ôl ystyried cefndir y cam cyntaf hwn ym mhrosiect eFSM a Mwy a'r angen am yr ymchwil, datblygwyd y cwestiynau canlynol i fynd i'r afael â'i amcanion terfynol:

- Beth yw ystod yr anghenion tystiolaeth sydd gan randdeiliaid o gofio'r dibenion y defnyddiant ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ar eu cyfer?
- Ym mha ffyrdd y defnyddia'r grwpiau hyn o randdeiliaid ddata eFSM ar hyn o bryd?
- Beth mae rhanddeiliaid yn ei ystyried yw cryfderau a chyfyngiadau data eFSM?
- Pa dystiolaeth, os o gwbl, sydd gan y rhanddeiliaid hyn am effaith cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM) ar gofrestru dysgwyr cymwys? Beth allai fod y goblygiadau posibl yn y dyfodol?
- Ym mha ffyrdd y gellir gwella data eFSM?
- Pa ffurfiau ychwanegol o ran data a dangosyddion eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr y defnyddia rhanddeiliaid ochr yn ochr ag eFSM?
- Pa ffurfiau o ddata y mae rhanddeiliaid yn teimlo sydd eu hangen, os o gwbl, i oresgyn cyfyngiadau data eFSM ac i wella'r gwaith o fesur anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd sy'n diwallu eu hanghenion orau?
- Pa rwystrau a goblygiadau y mae rhanddeiliaid yn teimlo a fyddai'n dod i'r fei o fabwysiadu dulliau eraill i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae adrannau canlynol yr adroddiad yn ceisio ateb y cwestiynau uchod:

- Mae Adran 2 yn nodi'r fethodoleg ar gyfer cam cyntaf prosiect eFSM a Mwy, gan gynnwys y dulliau a'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd, y dull o ddadansoddi'r data a gasglwyd, a chyfyngiadau'r ymchwil.
- Mae Adran 3 yn crynhoi'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid a'r ystod o ddibenion y caiff y data hwnnw ei ddefnyddio ar eu cyfer.
- Mae Adran 4 yn disgrifio'r defnydd a wna rhanddeiliaid ar hyn o bryd o ddata eFSM.
- Yn Adran 5 manylir ar brif gryfderau a chyfyngiadau data eFSM.

- Mae Adran 6 yn archwilio'r farn am effaith cyflwyno UPFSM a'r goblygiadau posibl ar ddata eFSM.
- Mae Adran 7 yn ystyried y gweithgareddau y mae rhanddeiliaid yn eu gwneud ar hyn o bryd neu y credant y gallai wella data eFSM, ac yn cynnig atebion i'w gyfyngiadau.
- Amlinella Adran 8 y mathau eraill o ddata economaidd-gymdeithasol a ddefnyddir gan randdeiliaid, gan ganolbwyntio ar fesurau sy'n seiliedig ar ardal ac ar unigolion.
- Mae Adran 9 yn crynhoi barn rhanddeiliaid ar y data anfantais economaidd-gymdeithasol sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion/dibenion yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan ystyried rhwystrau a goblygiadau posibl dulliau amgen, ac yn archwilio sut y gellid hwyluso'r rhain orau.
- Mae Adran 10 yn nodi'r prif ganfyddiadau a'r camau nesaf.

# 2. Methodoleg

Roedd y dulliau ar gyfer yr ymchwil hwn yn cynnwys dwy elfen o gasglu data sylfaenol, sef ymarfer profforma ac ymchwil ansoddol drwy gyfweliadau. Dewiswyd y dulliau hyn, a'r ymatebwyr targed ar gyfer pob un, i adlewyrchu ymarferoldeb ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghyd â'r graddau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'u defnydd o ddata eFSM.

## Profforma

At ddiben yr ymchwil hwn, mae profforma yn cyfeirio at fath o arolwg a gynhyrchwyd yn Microsoft Excel. Roedd yn cynnwys cyfres o gwestiynau caeedig ac agored a oedd yn caniatáu i ymatebwyr roi ymatebion mwy manwl. Ceisiodd y cwestiynau hyn gasglu gwybodaeth ynghylch sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio data eFSM, eu barn ynghylch cyfyngiadau data eFSM, effaith UPFSM, y ffynonellau data eraill ar anfantais economaidd-gymdeithasol a ddefnyddiwyd ganddynt, a'u barn ar y data y byddai ei angen arnynt yn y dyfodol.

Cafodd dau brif fath o brofforma eu llunio a'u dosbarthu gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2024 i grwpiau y gwyddys eu bod yn gwneud defnydd mawr o ddata eFSM, sef timau polisi a dadansoddi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Cyflawnwyd hyn drwy sianeli mewnol Llywodraeth Cymru, ond o ran awdurdodau lleol, roedd y tîm ymchwil yn ymwybodol o gymhlethdod ac amrywio sylweddol yn eu strwythur sefydliadol a'r rhannu ar gyfrifoldebau adrannol. Felly, gwnaed penderfyniad i ddechrau arni drwy anfon y profforma at arweinwyr cyllid Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) ym mhob awdurdod lleol, gyda chyfarwyddiadau i rannu'r cais ag unigolion perthnasol eraill yn eu sefydliadau ac i gydlynu ymatebion.

Ar ôl i Lywodraeth Cymru gasglu'r profformas wedi'u llenwi, fe'u rhannwyd â Wavehill i'w dadansoddi. At ei gilydd, derbyniwyd 33 o ymatebion profforma, a'r rhain yn cynnwys 13 o ymatebion gan swyddogion Llywodraeth Cymru ac 19 awdurdod lleol gwahanol, a oedd yn golygu bod bron i bob un o 22 awdurdod lleol Cymru wedi rhoi rhyw fewnbwn. Derbyniwyd ymateb hefyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Mae Tabl 1 isod yn dangos nifer yr ymatebion gan bob rhanddeiliad.

**Tabl 1: Ymatebion i'r profforma**

| **Rhanddeiliad** | **Nifer ymatebion profforma** |
|---|---:|
| Llywodraeth Cymru | 13 |
| Awdurdod Lleol | 19 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 1 |
| **Cyfanswm** | **33** |

Casglwyd ymatebion y profforma i un set ddata i'w dadansoddi yn Excel. Dadansoddwyd pob cwestiwn oedd ag ateb caeedig yn feintiol, tra bod ymatebion testun agored wedi'u codio'n ansoddol. Roedd dwy ran i'r dull codio ansoddol: cafodd ymatebion testun agored a gynlluniwyd i gael gwybodaeth sylfaenol, fel teitl swydd ymatebydd neu enw ffrwd ariannu, eu codio'n ddisgrifiadol i labelu neu gategoreiddio'r data; cafodd ymatebion manylach eu codio'n thematig.

Gwahoddwyd ymatebwyr y profforma hefyd i gymryd rhan mewn cyfweliadau dilynol.

## Cyfweliadau

Er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o farn rhanddeiliaid ar gwestiynau'r ymchwil, cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein, a hynny'n bennaf rhwng mis Mai ac Awst 2024, gyda chyfweliadau ychwanegol wedi'u cynnal i fynd i'r afael â bylchau data yn y misoedd dilynol. Ceisiodd y cyfweliadau naill ai archwilio'n fanylach y canfyddiadau a gododd o'r dadansoddiad profforma neu gasglu mewnwelediadau gan grŵp ehangach o randdeiliaid nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr ymarfer profforma.

Defnyddiwyd dull iteraidd i gael sampl o bobl i'w cyfweld ar gyfer yr ymchwil. I ddechrau, dim ond y rhai a ymatebodd i ffurflenni'r profformâu oedd yn rhan o hyn, ond ehangwyd yn ddiweddarach i gynnwys eraill, a awgrymwyd naill ai gan y rhai a gyfwelwyd neu gan Lywodraeth Cymru.

Yn gyfan gwbl, cynhaliwyd 39 o gyfweliadau gyda 55 o gyfranogwyr, gan fod mwy nag un cynrychiolydd mewn rhai cyfweliadau. Mae Tabl 2 isod yn nodi nifer y cyfweliadau a'r cyfranogwyr yn ôl math o randdeiliaid.

**Tabl 2: Y rhai a gyfwelwyd yn ôl math rhanddeiliad**

| Math rhanddeiliad | Nifer y cyfweliadau | Nifer y rhai a gyfwelwyd |
|---|---:|---:|
| Llywodraeth Cymru | 14 | 17 |
| Consortia Rhanbarthol | 1 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 13 | 20 |
| Ysgolion | 6 | 6 |
| Rhanddeiliaid addysg eraill | 5 | 11 |
| **Cyfanswm** | **39** | **55** |

Ffynhonnell: data Wavehill o'r cyfweliadau (2024)

Yn Nhabl 3 isod, cyflwynir cyfraniad cyffredinol timau polisi Llywodraeth Cymru i'r ymchwil, gydag 13 ymateb i'r profforma a 17 o gyfranogwyr wedi'u cyfweld. Dengys hyn pa mor gyflawn yn gymharol yw'r sampl a'r mewnwelediadau a gasglwyd.

**Tabl 3: Ymatebion i'r profformâu a chyfweliadau ar draws timau polisi a dadansoddi Llywodraeth Cymru**

| Tîm polisi a dadansoddi | Ymateb(ion) i'r profforma | Nifer wedi'u cyfweld |
|---|---|---|
| Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU) | Do | 2 |
| Ysgolion Bro | Do | 2 |
| Y Cwricwlwm ac Asesu | Do | 1 |
| Bwyd mewn Ysgolion | Do | 2 |
| Cyllid Llywodraeth Leol | Do | 3 |
| Ystadegau Addysg Ôl-16 | Do | 1 |
| Cyllid Refeniw Ysgolion | Do | 1 |
| Gwybodaeth a Gwella Ysgolion | Do | -[3] |
| Ystadegau Ysgolion | Do | 1 |
| Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad | Do | 2 |
| Trechu Tlodi | Do | 1 |
| Ymgysylltu ag Ieuenctid | Do | 1 |

Ffynhonnell: Profformâu Llywodraeth Cymru (2024) a data cyfweliadau Wavehill (2024)

Cafwyd ymgysylltiad cryf yn gyffredinol hefyd gan awdurdodau lleol, gyda'r mwyafrif helaeth wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at yr ymchwil. Mae hyn yn arbennig o werthfawr, o ystyried ymreolaeth awdurdodau lleol i wneud penderfyniadau ar gyllid addysg a darparu gwasanaethau, a'r tebygolrwydd bod amrywio mewn arferion rhwng y gwahanol awdurdodau.

Roedd sampl yr awdurdodau lleol yn cynnwys swyddogion o wahanol adrannau a rolau swyddi, gan adlewyrchu'r modelau llywodraethu amrywiol ar draws awdurdodau. Mae Tabl 4 isod yn nodi'r math o ymatebydd yn y profformâu a'r cyfweliadau, wedi'u grwpio yn ôl rolau swyddi'r ymatebwyr.[4] Dengys hyn fod dros hanner profformâu'r awdurdodau lleol (11 o'r 19) wedi'u llenwi gan aelod o staff yr oedd ei rôl yn cynnwys cyllid a rheoli cyllidebau, tra bod ymatebwyr a oedd yn gweithio ym maes rheoli data neu wybodaeth yn ffurfio'r gyfran fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau (5 o'r 12).

[3] Mae'r tîm Gwybodaeth a Gwella Ysgolion wedi bod yn ymwneud yn helaeth â chydlynu'r prosiect ymchwil hwn drwyddo draw ac wedi sicrhau ei fod yn ymateb i'r anghenion gwybodaeth a data ar draws Addysg. Felly, nid oedd angen cyfweliadau lled-strwythuredig megis yr oedd ei angen ar gyfer cyfranogwyr eraill yr ymchwil.
[4] Cafodd y mathau o ymatebwyr eu grwpio yn seiliedig ar gategorïau eang a awgrymwyd gan Wavehill.

**Tabl 4: Ymatebwyr y profforma a chyfranogwyr cyfweliadau o awdurdodau lleol**

| | Arweinyddiaeth addysg a rheolaeth strategol | Cyllid a Rheoli Cyllidebau | Rheoli Data a Gwybodaeth | Gwasanaethau Gweithrediadau a Chymorth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Profforma | 5 | 11 | 2 | 1 | **19** |
| Cyfweliadau | 3 | 2 | 5 | 2 | **12** |

Ffynhonnell: profforma Llywodraeth Cymru a data Wavehill o'r cyfweliadau (2024)

Yn ogystal ag ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, sicrhawyd ymgysylltu da â rhanddeiliaid addysgol eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Plant (un cyfwelai), Gyrfa Cymru (dau gyfwelai), Estyn (pedwar cyfwelai), UCAS (tri chyfwelai) a Chymwysterau Cymru (un cyfwelai). Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â chwe arweinydd ysgol, y cafwyd afael arnynt drwy grŵp cyfeirio Penaethiaid Estyn. Mae hyn yn dangos ehangder cwmpas y cyfweliadau ar draws addysg orfodol ac ôl-orfodol, yn ogystal â'r rhanddeiliaid ehangach sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru.

Roedd y cyfweliadau'n lled-strwythuredig, a rhoddwyd canllaw trafod i'r cyfwelai ymlaen llaw er mwyn rhoi amser iddynt baratoi. Ar ôl cwblhau'r holl gyfweliadau, cafodd y data ei godio a'i ddadansoddi'n thematig i nodi themâu neu bynciau cyffredin a godwyd.

Yn ogystal â'r dulliau ffurfiol hyn o gasglu data, gwnaed cyfraniadau ysgrifenedig eraill i'r ymchwil trwy ohebu â rhanddeiliaid pan na fyddai cyfweliad llawn yn gymesur â'u defnydd o ddata eFSM, neu pan oedd angen gwybodaeth am ymholiad penodol.

## Cyfyngiadau

Mae sawl cyfyngiad i'r ymchwil hwn, yn bennaf yn gysylltiedig â'r sampl.

Er bod pob awdurdod lleol wedi cael gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwil a bod y gyfradd ymateb yn uchel, nid oedd rhai wedi llenwi profforma (N=3) na chymryd rhan mewn cyfweliad (N=10), sy'n golygu nad yw'r canfyddiadau'n cynnwys pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd sampl y cyfranogwyr o awdurdodau lleol a gyfrannodd yn cynnwys amrywiaeth o adrannau a rolau swyddi. Fodd bynnag, roedd y broses recriwtio yn heriol, ac ar draws yr awdurdodau a gymerodd ran mae'n bosibl y cafwyd anghydbwysedd o blaid rhai adrannau/sectorau swyddi sy'n defnyddio'r data o'i gymharu ag eraill. Yn ogystal, ni chyflwynodd unrhyw awdurdod lleol gasgliad o ymatebwyr a oedd yn cynrychioli pob defnyddiwr data posibl yn eu sefydliad, ac yn aml nid oedd y rhai a gymerodd ran yn gallu darparu gwybodaeth ynghylch sut y defnyddid y data gan adrannau/sectorau swyddi eraill. Mae'r materion hyn yn golygu na ellir bod yn sicr bod pob defnydd a barn wedi'u cynnwys.

Cynhaliwyd y gwaith maes a'r casglu data rhwng mis Mawrth ac Awst 2024. Bryd hynny, roedd cinio ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM) wedi'i gyflwyno i raddau helaeth ond nid yn llawn. Mae'n bosibl fod rhai newidiadau wedi digwydd ers hynny, gan

gynnwys ymdrechion awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chyfraddau hawlio eFSM a allai fod wedi'u heffeithio gan y polisi.

Er y gwyddys bod sefydliadau y tu allan i'r sector addysg gynradd ac uwchradd, megis sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn defnyddio data economaidd-gymdeithasol am ddysgwyr, roedd cynnwys y cyrff hyn y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon.

Yn olaf, roedd yr ymchwil hon yn ymdrin â phwnc cymhleth. Rhoddodd y cyfranogwyr wybodaeth fanwl am y gwahanol ffyrdd y maent yn defnyddio eFSM, gan fyfyrio ar ei fanteision a'i gyfyngiadau ac egluro eu defnydd o ddata arall pan fo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr yn gallu darparu gwybodaeth gynhwysfawr, fanwl am y mathau penodol o ddata sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion orau. O'r herwydd, daethpwyd i rai casgliadau ynghylch anghenion rhanddeiliaid yn y dyfodol yn seiliedig ar y data a gasglwyd yn ei gyfanrwydd.

Dylid darllen canfyddiadau'r adroddiad hwn wrth gadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof a'u gweld fel rhai sy'n cynnig arwydd da yn hytrach na darlun pendant o'r sefyllfa ledled Cymru. Aethpwyd ati'n ofalus a gochelgar wrth gyflwyno gwybodaeth a gasglwyd trwy brofformâu ac wrth drafod pa mor gyffredin yw'r defnydd o'r data yn ôl trafodaethau'r cyfweliadau.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1. Yr angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r ystod o anghenion tystiolaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a grwpiau rhanddeiliaid eraill ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr, yn ôl y diben y caiff ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Mae deall natur, lleoliad ac amlder anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr yn hanfodol ar gyfer cefnogi amrywiaeth o ymyriadau addysgol a gweithgareddau. Eto i gyd, mae sawl maes eang y gellir categoreiddio'r ystod o anghenion neu ddibenion y mae angen data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ar randdeiliaid ar eu cyfer:

- Llywio a datblygu polisi
- Cyfrifo a dosbarthu cyllid
- Darparu cymorth wedi'i dargedu
- Ystadegau a monitro canlyniadau
- Gwella ysgolion
- Rheoli arlwyo

Yn eu tro, mae'r adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid, gan gynnwys timau polisi yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus ac ysgolion.

### Llywodraeth Cymru

Mae gan wybodaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ran hanfodol wrth gyflawni ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru, megis Cenhadaeth ein Cenedl a gwahanol wasanaethau, gan gynnwys y rhai mewn llywodraeth leol, addysg, cyllid a thlodi. Mae'r anghenion tystiolaeth neu ddibenion ei ddefnyddio ymhlith swyddogion Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r categorïau a amlinellir uchod, ond mae'r union ddefnydd yn amrywio ar draws polisi a thimau dadansoddi. Isod cyflwynir anghenion swyddogion sy'n gweithio ar ddatblygu polisi mewn gwahanol feysydd, heb fod mewn unrhyw drefn benodol:

- Mae swyddogion **Trechu Tlodi** yn monitro effaith ymyriadau a gynlluniwyd i liniaru effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr yn helpu i lywio a datblygu polisi ac yn rhoi dealltwriaeth ar gyfer llunio, gweithredu a mesur llwyddiant cymharol ymyriadau polisi sydd wedi'u targedu at liniaru effeithiau posibl anfantais.

- Mae swyddogion **Ymgysylltu â Phobl Ifanc** angen nodi pobl ifanc sydd neu sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, er mwyn darparu cymorth priodol, wedi'i dargedu at y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl.

- Cylch gwaith swyddogion **Mynd i'r Afael â Rhwystrau i Gyrhaeddiad** yw lleihau effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol plant mewn aelwydydd sydd ag incwm isel. Mae angen tystiolaeth arnynt o anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr er mwyn cyfrifo a dosbarthu cyllid i awdurdodau lleol, ysgolion a theuluoedd i fynd i'r afael â hyn.

- Gweithia swyddogion **Ysgolion Bro** hefyd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad drwy ddulliau Ysgolion Bro, gan gynnwys defnyddio tystiolaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol i gyfrifo a dosbarthu cyllid, darparu adnoddau a chefnogaeth wedi'u targedu, a monitro canlyniadau ar lefel yr ysgol fel rhan o ymdrechion i asesu gweithredu'r polisi.[5]

- Mae swyddogion **Cyllid Llywodraeth Leol** angen data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr er mwyn cyfrifo a dosbarthu cyllid craidd i awdurdodau lleol mewn ffordd sy'n adlewyrchu proffil economaidd-gymdeithasol eu dysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod swm y cyllid a ddarperir yn adlewyrchu'r angen ac yn cael ei ddosbarthu'n deg.

- Mae angen tystiolaeth ar swyddogion **Cyllid Refeniw i Ysgolion** er mwyn cyfrifo a dosbarthu amrywiaeth o grantiau ariannu addysg.

- Mae angen i swyddogion **Bwyd mewn Ysgolion** ddeall maint y galw gan ddysgwyr am fwyd mewn ysgolion er mwyn cyfrifo a dosbarthu cyllid ar gyfer darpariaeth gyffredinol prydau ysgol am ddim i bawb. Yn ogystal, nhw sy'n gyfrifol am bolisi eFSM, gan gynnwys monitro faint o brydau sy'n cael eu darparu a'u heffaith.

- Cefnoga swyddogion y **Cwricwlwm ac Asesu** y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cwricwlwm Cymru, gan gynnwys trefniadau asesu. Mae angen tystiolaeth ar anfantais economaidd-gymdeithasol i fonitro canlyniadau dysgwyr a sut mae'r rhain yn amrywio yn seiliedig ar anfantais fel ffordd o asesu gweithredu'r Cwricwlwm newydd.

- Mae swyddogion **Gwybodaeth a Gwella Ysgolion** yn goruchwylio'r defnydd o ddata yn y system ysgolion ac felly, mae angen iddynt sicrhau bod data priodol ar gael i'r rhai sydd ag anghenion tystiolaeth. Mae'r adran hefyd yn gyfrifol am greu offer adrodd (AWCDS ac Fy Ysgol Leol) ar gyfer cefnogi gwelliant ysgolion a hunanwerthuso ac i gynnal tryloywder data. Mae hefyd yn llunio canllawiau sy'n gosod disgwyliadau ynghylch defnyddio data yn y system ysgolion.

- Mae swyddogion **Ystadegau Ysgolion** yn datblygu ymchwil ac ystadegau yn ymwneud â dysgwyr mewn lleoliadau a gynhelir, gan gynnwys casglu a chyhoeddi data CYBLD ac ystadegau cenedlaethol. Eu hanghenion tystiolaeth yw sicrhau bod data priodol ar gael i gynhyrchu ystadegau cadarn ar nifer y dysgwyr sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol a chynhyrchu gwybodaeth am eu canlyniadau addysgol i lywio gwaith Llywodraeth Cymru a phartneriaid ehangach.

[5] Ysgolion Bro

- Mae swyddogion **Ystadegau Addysg Ôl-16** hefyd yn datblygu ymchwil ac ystadegau ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau a gynhelir, ond ar gyfer y rheini y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol. Eu hangen yw llywio'r gwaith o olrhain a monitro canlyniadau ôl-16.[6]

- Mae swyddogion yr **Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU)** angen ystadegau ar swyddogion ar anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn sicrhau bod y data hwn ar gael i ymchwilwyr drwy fanc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), ac i ddefnyddio data gweinyddol ar gyfer ymchwil i lywio datblygu polisïau a thrafodaethau.

## Awdurdodau lleol

Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig yn y system addysg ac mae dyletswydd gyfreithiol arnynt i ddarparu digon o leoedd ysgol ac i sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial llawn. Mae eu rôl hefyd yn cynnwys darparu arweinyddiaeth leol, goruchwylio a darparu gwasanaethau i bobl ifanc, teuluoedd ac ysgolion, a dyrannu cyllid ar gyfer ysgolion yn eu hardal. Mae amryw o ddibenion y mae angen i awdurdodau lleol gael mynediad at ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr, gan gynnwys:

- Llywio a datblygu polisi, sef defnyddio data i lywio cynlluniau corfforaethol lleol a datblygu strategaethau, yn ogystal â pholisïau penodol megis presenoldeb a sut i gefnogi ysgolion gyda'r materion hyn. Fe'i defnyddir hefyd ar gyfer rhagamcanu cyllidebau mewn perthynas â chyllid.

- Cyfrifo a dosbarthu cyllid, sef defnyddio data i sicrhau bod gwahanol fathau o gyllid yn cael eu darparu i ysgolion a theuluoedd mewn ffordd sy'n deg ac yn adlewyrchu angen. Mae pob awdurdod lleol yn penderfynu ar yr union fformwlâu ar gyfer cyfrifo dyraniadau cyllid i ysgolion i'w dosbarthu mewn ymgynghoriad â'u fforymau ysgolion, ond nifer y dysgwyr o gefndir difreintiedig yw'r brif elfen.

- Ar gyfer dibenion ystadegol a monitro canlyniadau, pan fo angen data i olrhain canlyniadau ar lefel ysgol ac ar lefel yr unigolyn, megis presenoldeb neu gyrhaeddiad ac i'w meincnodi yn erbyn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

- Gwella ysgolion, lle defnyddir data i adnabod dysgwyr a chefnogi ymyriadau. Mae hyn yn helpu'r awdurdod lleol i ddeall sut mae ei ysgolion yn diwallu anghenion dysgwyr dan anfantais.

Yn ogystal, mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** (CLILC), fel corff cynrychioliadol ar gyfer pob cyngor lleol yng Nghymru, angen tystiolaeth am y data hwn i roi cefnogaeth ac adnoddau i awdurdodau lleol, gan gynnwys ar gyfer ymchwil neu i gynorthwyo wrth lunio a gweithredu rhaglenni bwyd.

---

[6] Sylwer, o 1 Awst 2024 ymlaen, rheolir Ystadegau Addysg Ôl-16 gan Medr, y corff newydd ar gyfer Addysg Drydyddol yng Nghymru. Casglwyd y data ar gyfer yr ymchwil hwn cyn y dyddiad hwn, ac felly ystyrir canfyddiadau sy'n ymwneud ag Ystadegau Addysg Ôl-16 fel rhan o Lywodraeth Cymru.

## Ysgolion

Mae angen data ar ysgolion i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer eu gweithgareddau gwella ysgolion, er mwyn nodi'r ystod o rwystrau y mae dysgwyr unigol yn eu hwynebu a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Yn fwy penodol, mae'n golygu:

- Monitro canlyniadau ar lefel yr ysgol neu unigolion ar gyfer dysgwyr dan anfantais a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynllunio gwelliannau.
- Meincnodi canlyniadau yn erbyn ysgolion tebyg eraill a elwir yn 'deuluoedd' fel y'u nodir yn set ddata'r AWCDS, er mwyn galluogi dealltwriaeth gyd-destun a rhannu arferion gydag ysgolion sy'n wynebu heriau tebyg.
- Adnabod dysgwyr sy'n fwy agored i effaith anfantais ac a allai fod angen cymorth ariannol neu anariannol ychwanegol arnynt, h.y. academaidd neu fugeiliol, er mwyn cynorthwyo eu cynnydd wrth oresgyn unrhyw rwystrau i'w dysgu, ac i gyfrannu at lunio a chyflwyno ymyriadau.

## Cyrff cyhoeddus

Mae amrywiaeth o gyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill sy'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n gysylltiedig â darparu addysg i blant a phobl ifanc. Isod trafodir anghenion detholiad o'r rhanddeiliaid hyn o ran tystiolaeth.

- Mae **Estyn**, y corff arolygu ysgolion yng Nghymru, angen data i ddarparu cyd-destun ar gyfer gwaith arolygu. Mewn arweiniad yn ymwneud â'r broses arolygu, mae'n amlinellu sut y gall data a ddefnyddir ar gyfer monitro canlyniadau dysgwyr gynorthwyo wrth asesu pa mor effeithiol y mae ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, presenoldeb a llesiant disgyblion. Maent hefyd yn defnyddio'r data i lywio eu hadolygiadau thematig, sydd wedyn yn bwydo i mewn i ddatblygiad polisi.
- Mae **Cymwysterau Cymru** yn rheoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Mae angen tystiolaeth arnynt ynghylch anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr i fonitro canlyniadau a llywio datblygu a gwerthuso cymwysterau.
- Mae **Comisiynydd Plant Cymru** yn diogelu ac yn cefnogi hawliau plant a phobl ifanc. Mae angen data arnynt fel rhan o'u gwaith polisi ac eirioli, gan ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif mewn perthynas â hawliau (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a lles plant.
- Mae **Gyrfa Cymru** yn darparu gwasanaeth sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad annibynnol a diduedd ar yrfaoedd. Mae angen iddynt ddeall anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr er mwyn nodi'r rhai a allai fod angen cymorth ychwanegol fel rhan o wasanaethau cymorth gyrfaoedd ysgolion.

## Rhanddeiliaid eraill

Mae **Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)** yn rheoli ceisiadau ar gyfer cyrsiau prifysgol ac addysg uwch ac yn defnyddio'r data fel rhan o'i rôl mewn addysg drydyddol. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar dargedu cymorth ychwanegol, fel cyngor ac arweiniad trwy'r Rhaglen Mynediad Teg neu waith allgymorth gydag ysgolion a cholegau. Mae'r data hefyd yn fodd i fesur cynnydd o ran ehangu cyfranogiad. Mae'r tabl isod yn crynhoi defnydd rhanddeiliaid o ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr, wedi'u grwpio yn ôl y categorïau bras a nodwyd yn yr ymchwil hwn.

**Tabl 5: Anghenion a dibenion rhanddeiliaid wrth ddefnyddio data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr**

| | Llywio a datblygu polisi | Cyfrifo a dosbarthu cyllid | Darparu cymorth wedi'i dargedu | Ystadegau a monitro canlyniadau | Gwella ysgolion | Rheoli arlwyo |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Awdurdodau Lleol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgolion | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Estyn | | | | ✓ | ✓ | |
| Cymwysterau Cymru | | | | ✓ | | |
| Comisiynydd Plant Cymru | ✓ | | | | | |
| Gyrfa Cymru | | | ✓ | ✓ | | |
| UCAS | | | ✓ | ✓ | | |

## 3.2. Y defnydd ar ddata eFSM ar hyn o bryd

Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae rhanddeiliaid yn defnyddio data eFSM ar hyn o bryd i ddiwallu'r ystod o anghenion a dibenion tystiolaeth a amlinellir uchod. Mae'n trafod sut maent yn defnyddio'r data a beth mae hyn yn ei olygu.

Pedwar categori yn unig o ran angen neu ddiben defnyddio a gynigai'r profforma cychwynnol i randdeiliaid, a hynny er mwyn i ymatebwyr allu trafod eu defnydd o ddata eFSM.

Mae Tabl 6 isod yn nodi ymatebion y profforma. Cyfeiria mwyafrif cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol at ddefnyddio'r data i lywio a datblygu polisi. Dywedodd llai na hanner ymatebwyr y Llywodraeth eu bod wedi defnyddio data ar gyfer cyfrifo a dosbarthu cyllid, o gymharu â'r holl awdurdodau lleol. Y tu hwnt i hyn, defnyddir y data fwyaf gan bob grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ystadegau a monitro canlyniadau, gyda 9 o 13 ymatebydd Llywodraeth Cymru a phob un o'r 19 ymatebydd awdurdod lleol yn rhoi'r ateb hwn.

**Tabl 6: Cyfrif y dibenion y mae grwpiau rhanddeiliaid yn defnyddio data eFSM ar eu cyfer**

| | Llywodraeth Cymru (n=13) | Awdurdodau Lleol (n=19) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (n=1) |
|---|---|---|---|
| Llywio a datblygu polisi | 8 | 13 | 1 |
| Cyfrifo a dosbarthu cyllid | 6 | 19 | 1 |
| Ystadegau a monitro canlyniadau | 9 | 19 | 1 |
| Rheoli arlwyo mewn ysgolion | amherthnasol | 17 | amherthnasol |
| Arall | 1 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 13 | 19 | 1 |

Ffynhonnell: ymatebion y profformâu

Ni chafodd darparu cymorth wedi'i dargedu a gwella ysgolion eu cynnwys yn y profforma. Yn seiliedig ar gyfweliadau, fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y grŵp rhanddeiliaid yn defnyddio data eFSM yn helaeth at y dibenion hyn.

Mae'r adran hon nawr yn bwrw ati i ystyried pob categori o angen neu ddiben defnyddio yn eu tro.

## Llywio a datblygu polisi

Canfu'r ymchwil fod llawer o randdeiliaid wedi defnyddio data eFSM i lywio a datblygu ystod o bolisïau, rhai yn fwy cyffredinol eu natur ac eraill yn ymwneud yn benodol ag addysg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ar lefel polisi cenedlaethol, defnyddir data eFSM mewn dangosyddion cenedlaethol i asesu cynnydd tuag at gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG). Mae Dangosydd Cenedlaethol 7 yn olrhain cyflawniad addysgol cyfartalog, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys. Mae hyn yn llywio cynnydd tuag at nodau llesiant Cymru lewyrchus, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae data eFSM hefyd yn sail i asesiadau'r Ddeddf gan yr awdurdodau lleol eu hunain, fel sy'n ofynnol ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Soniodd ymatebwyr y profforma a chyfweleion hefyd am ddefnyddio data eFSM i lywio cynlluniau strategol eang ar dlodi plant yn Llywodraeth Cymru a ledled awdurdodau lleol.

> "Caiff ei ddefnyddio'n bennaf mewn perthynas â thlodi ac yn benodol tlodi plant…[ac]... fe gaiff ei ddefnyddio sawl gwaith y flwyddyn i baratoi at gyfarfodydd yr is-grŵp tlodi ac ar gyfer unrhyw ymchwiliadau manwl sy'n edrych ar dlodi mewn ardaloedd penodol. Mae un ar hyn o bryd yn edrych ar ddetholiad o ardaloedd ysgol, felly bydd eFSM yn ymddangos yn hwnnw."
>
> Profforma Awdurdod Lleol

O ran addysg, mae data eFSM yn llywio datblygiad a monitro ystod o bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau i blant, i deuluoedd incwm

isel, ac i gyfrannu at amcanion Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb. Mae data eFSM, er enghraifft, wedi'i ddefnyddio i fonitro a mireinio'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG) a'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG).

Mae data ar eFSM wedi dylanwadu ar bolisi sy'n ymwneud ag Ysgolion Bro drwy lywio penderfyniadau ar ddarparu cefnogaeth ac fe'i defnyddiwyd i bennu'r buddsoddiad sy'n gysylltiedig â Gaeaf Llawn Lles a newidiadau i ddyrannu Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd. Mae hefyd wedi bwydo i wahanol agweddau ar bolisi Bwyd mewn Ysgolion.

Ar ben hynny, defnyddir y data i asesu a yw grantiau a rhaglenni'n diwallu anghenion dysgwyr o deuluoedd incwm isel. Er enghraifft, defnyddir eFSM fel procsi wrth adolygu'r nifer sy'n manteisio ar bolisïau Bwyd mewn Ysgolion i benderfynu a ydynt yn cefnogi grwpiau targed ai peidio. Mae Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu yn Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod unrhyw bolisi neu gefnogaeth ar gyfer cwricwlwm neu asesu yn cael ei brofi mewn ysgolion a lleoliadau sydd â chyfrannau uchel o ddysgwyr eFSM.

Yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid, rhoddwyd enghreifftiau o sut mae data eFSM yn llywio gwneud penderfyniadau ehangach yn y sector addysg. Er enghraifft, mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio data eFSM yn rheolaidd fel rhan o asesiadau effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried diwygio cymwysterau (er enghraifft, dyluniad arfaethedig y TGAU newydd a chymwysterau cysylltiedig) i asesu'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol a sut y gallai'r diwygiadau wella lles cenedlaethau'r dyfodol a chefnogi a hyrwyddo hawliau plant.

Yn yr un modd, mae Comisiynydd Plant Cymru yn aml yn defnyddio'r data fel rhan o'u gwaith i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a sut mae'r rhain yn effeithio ar hawliau plant. Defnyddir eFSM yn bennaf fel ffynhonnell gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y Comisiynydd Plant (er enghraifft, trwy ei ymchwil ar dlodi plant). Awgrymwyd bod rhanddeiliaid eraill yn y trydydd sector, megis Sefydliad Bevan a NESTA, hefyd yn defnyddio data eFSM fel rhan o'u gwaith polisi ac eiriolaeth ar dlodi plant.

## Cyfrifo a dosbarthu cyllid

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ill dau yn defnyddio data eFSM i asesu gofynion cyllidebol ar gyfer gweithredu polisïau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Mae'r data tueddiadau hwn hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud yr achos busnes dros gyflwyno, gwella neu gynnal polisi neu raglen benodol.

> "Mae [data eFSM] yn wirioneddol bwysig o ran … gwybod i ba raddau y mae angen adnoddau pellach, newidiadau yn y ffordd y mae'r cyllid yn cael ei weinyddu neu yn y canllawiau … o amgylch y cyllid hwnnw i wneud yn siŵr nad ydym yn cael canlyniadau anfwriadol."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Mae dau fath o gyllid y defnyddir y data i gyfrifo a dosbarthu ar eu cyfer, sef: cyllid neilltuedig (*hypothecated funding*), sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol, a chyllid heb ei

neilltuo (*unhypothecated funding*), lle gall y derbynnydd ddyrannu'r arian fel y mynnant. Dylid nodi bod yr adrannau canlynol yn canolbwyntio ar elfennau sy'n berthnasol i ddata o'r dangosydd eFSM yn unig, neu elfennau sy'n ddibynnol ar y data hwnnw, yn hytrach nag adolygiad llawn o holl gyllid addysg ac ysgolion.

**Cyllid neilltuedig**

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn defnyddio sawl ffrwd ariannu i gefnogi gweithredu polisïau penodol neu i dargedu adnoddau ychwanegol.

Mae'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG) yn grant cyfun a ddyfernir i awdurdodau lleol, a hwnnw wedyn yn dosrannu'r rhan fwyaf o'r cyllid i ysgolion a lleoliadau dysgu eraill. Mae'r grant hwn yn cyfuno'r cyllid grant blaenorol i addysg cyn-16 yn bedair elfen ariannu, ac mae tair o'r rhain yn defnyddio eFSM fel rhan o'r fformiwla ddyrannu.[7]

Dyma'r tair elfen sy'n defnyddio eFSM:

- Cyllid Tegwch, sy'n cefnogi tegwch mewn polisi addysg, gyda chanlyniadau i gefnogi amcanion polisi sy'n cynnwys rhai yn ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n dod o deuluoedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, a meysydd polisi eraill fel plant sydd wedi cael profiad o ofal, dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref, ac Ysgolion Bro.
- Mae Diwygio yn cynnwys cyllid a fydd yn cefnogi mentrau diwygio addysg. Mae'n cefnogi deilliannau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yr ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol a dysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol.
- Cymraeg 2050, sy'n cefnogi ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i gyflawni amcanion Cymraeg 2050 sy'n ymwneud â'r iaith.

Yn rhan o'r elfen Tegwch, mae'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) yn cael ei roi'n uniongyrchol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei ddosbarthu i ysgolion a lleoliadau addysgol. Mae'r grant hwn yn allweddol i weithredu Cenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â safonau a dyheadau uchel i bawb ac mae wedi'i gynllunio i leihau'r rhwystrau y mae plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel yn aml yn eu hwynebu i gyflawni eu potensial.

Mae swm cyllid y prif PDG, PDG y Blynyddoedd Cynnar, a PDG EOTAS a roddir i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau yn seiliedig ar niferoedd:

- nifer y plant a phobl ifanc rhwng 5 a 15 oed mewn ysgol neu leoliad amgen (e.e., uned cyfeirio disgyblion) sydd yn eFSM yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad ysgolion diweddaraf (CYBLD), a

[7] Mae pedwaredd elfen LAEG nad yw'n cael ei dyrannu ar sail eFSM yn ymwneud â Safonau Ysgolion. Mae'n uno cyllid y Grant Gwella Addysg (EIG), cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) a chyllid Addysg Gynnar (lleoliadau nas cynhelir). Mae'r pecyn ariannu cyfun hwn yn darparu cymorth i ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol.

- nifer y plant 3 i 4 oed mewn ysgol neu leoliadau nas cynhelir, fel meithrinfeydd, sydd yn eFSM yn seiliedig ar ddata'r cyfrifiad ysgolion diweddaraf (CYBLD).

Fel yr amlinellwyd uchod, mae elfen Tegwch y LAEG gan Lywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid i awdurdodau lleol gefnogi polisi Ysgolion Bro i ysgolion benodi Rheolwr Ysgolion Bro, gan roi'r un cyllid cyfartal ar draws awdurdodau lleol. Cyfeiriodd tri ymatebydd y profforma at hyn fel cyllid a ddosberthir yn seiliedig ar ddata eFSM.

Nododd dau awdurdod lleol hefyd fod y cyllid hwn yn darparu capasiti ychwanegol ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Swyddogion Lles Addysg mewn ysgolion, gyda 50% o'r cyllid yn cael ei bwysoli yn ôl cyfran y disgyblion sy'n eFSM.

Mae elfen Diwygio'r grant LAEG wedi'i rannu'n 13 o feysydd dyrannu gwahanol sydd â dulliau dosbarthu amrywiol. O'r rhain, mae pedwar ohonynt yn cynnwys ffactor eFSM:

- Diwygio'r Cwricwlwm, wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol i benderfynu sut y caiff ei ddosbarthu i ysgolion a lleoliadau.
- Dysgu proffesiynol dan arweiniad ysgolion i alluogi ysgolion a lleoliadau i wneud gwaith ymchwil, ymholi ac addysgeg.
- Capasiti llythrennedd a rhifedd, sy'n cefnogi ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn eu gwaith, gan sicrhau dilyniant a chynnydd dysgwyr ar draws y cwricwlwm mewn sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol.
- Cymorth â'r cwricwlwm, sef rhoi dyraniad sylfaenol i bob awdurdod lleol a chaiff y gweddill ei ddyrannu yn ôl niferoedd disgyblion ac ysgolion, gan gynnwys ffactor eFSM. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i sicrhau rhaglen hyblyg o ymyriadau wedi'u targedu i gefnogi diwygio'r cwricwlwm.

Ar gyfer cyflawni strategaeth Cymraeg 2050, mae pedwar maes dyrannu, ac mae un ohonynt yn cynnwys ffactor eFSM sy'n gysylltiedig â dysgu proffesiynol Cymraeg. Diben cyllid dysgu proffesiynol Cymraeg yw galluogi awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Saesneg i wella addysgu'r Gymraeg.

Heblaw am y Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LEAG), mae amrywiaeth o ffrydiau ariannu ychwanegol ar wahân sy'n cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ynghylch anghydraddoldeb addysgol, gan gynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a theuluoedd:

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r grant Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM) i awdurdodau lleol i gefnogi darparu UPFSM. Data ar ddisgyblion eFSM sy'n sail i'r dyraniadau grant hyn, gan gynnwys y rhai a oedd yn gymwys yn flaenorol ac sydd bellach wedi'u hamddiffyn dros y cyfnod pontio. Drwy nodi cyfanswm y disgyblion cymwys, gellir cyfrifo nifer y disgyblion anghymwys, sy'n helpu i amcangyfrif y galw tebygol a phennu graddfa cyllid UPFSM.

Darparodd awdurdodau lleol fanylion hefyd ynghylch sut y defnyddir eFSM i ddyrannu bwyd i ysgolion uwchradd. Er enghraifft, nododd dau awdurdod lleol eu bod yn darparu cyllid ar gyfer rhaglenni cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol a chlybiau brecwast. Soniodd un o'r awdurdodau lleol hyn hefyd am gyllid ar gyfer 'Bwyd a Hwyl', sef rhaglen addysg mewn ysgolion sy'n darparu addysg bwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru ond wedi'i gweinyddu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), sy'n rheoli cyfeiriad y cyllid ac yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i'w roi ar waith lle bo angen. Mae ysgolion sy'n bodloni'r trothwy gofynnol o 16% o ddisgyblion eFSM yn gymwys i gael mynediad at y cyllid hwn i gyflwyno'r rhaglen Bwyd a Hwyl.

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG) wedi'i gynllunio i gefnogi teuluoedd ag incwm isel i dalu costau diwrnod ysgol, gan gynnwys gwisg ysgol, offer, citiau chwaraeon, a chitiau gweithgareddau allgyrsiol. Nododd deuddeg awdurdod lleol (bron i ddeuparth ymatebwyr y profforma) eu bod yn defnyddio data eFSM wrth ddosbarthu'r grant hanfodion hwn. Dyrennir y cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, sydd wedyn yn ei ddosbarthu'n uniongyrchol i deuluoedd cymwys, sy'n derbyn £125 fesul dysgwr cymwys, a £200 i ddysgwyr sy'n dechrau Blwyddyn 7.

Er nad oes gofyniad swyddogol i wneud hynny, nododd un awdurdod lleol eu bod yn defnyddio data eFSM yn sail i gyflwyno cynllun Dechrau'n Deg, ac i nodi ardaloedd newydd i'w targedu ar gyfer ymestyn y cynllun yn yr awdurdod lleol. Dyma raglen ariannu sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol ac sy'n defnyddio data budd-daliadau incwm fel dangosydd procsi ar gyfer tlodi er mwyn targedu ardaloedd sydd â'r cyfrannau uchaf o blant 0-3 oed yn byw mewn aelwydydd budd-daliadau incwm.

Nododd un awdurdod lleol eu bod yn defnyddio eFSM i ddyrannu cyllid ar gyfer darpariaeth gerddoriaeth beripatetig am ddim i ddisgyblion o gartrefi incwm isel yn yr awdurdod lleol, tra bod sawl un wedi nodi bod data eFSM yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion wrth ystyried rhoi cymhorthdal i ddysgwyr ar gyfer tripiau ysgol neu weithgareddau allgyrsiol eraill.

**Cyllid heb ei neilltuo**

Mae'r Setliad Llywodraeth Leol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer awdurdodau lleol ac yn 2023/24 roedd yn cyfrif am 60% o'r hyn a dderbynient.[8] Caiff ei alw yn aml yn 'Y Setliad', nid yw wedi'i neilltuo, ac mae'n gadael i bob awdurdod lleol benderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael iddo i'r gwahanol wasanaethau y mae'n eu darparu, gan gynnwys addysg, ac o fewn hynny, faint o gyllid i'w roi i ysgolion.

Caiff y rhan fwyaf o elfennau'r setliad eu dosbarthu drwy ddefnyddio dangosyddion poblogaeth, prinder poblogaeth, ac anfantais. Defnyddir eFSM fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyfer rhai elfennau'r setliad, sef wrth asesu'r angen cymharol i ddyrannu cyllid ar gyfer addysgu a gwasanaethau eraill. Ar gyfer disgyblion cynradd a

[8] Mae ffynonellau ariannu eraill ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys trethi a grantiau penodol eraill.

meithrin, mae 8.7% o'r gyllideb wedi'i neilltuo yn seiliedig ar gyfran y disgyblion ysgol gynradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a 9.3% ar gyfer ysgolion uwchradd.

Gan ddefnyddio cyllid o'r Setliad Llywodraeth Leol a ffynonellau eraill, mae awdurdodau lleol wedyn yn gosod y gyllideb unigol ar gyfer pob ysgol y maent yn ei chynnal, a elwir yn Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB), trwy ei dosrannu yn ôl eu fformiwla eu hunain a bennir yn lleol.[9] Yn ôl rheoliadau ariannu ysgolion, rhaid dosbarthu 70% o gyllid y Gyllideb Ysgolion Unigol yn seiliedig ar nifer y disgyblion, gyda disgresiwn i ddosbarthu'r 30% sy'n weddill yn seiliedig ar ystod o ffactorau, gan gynnwys amddifadedd.

Wrth i awdurdodau lleol bennu cyfrannau cyllideb ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir ganddynt, mae rheoliadau ariannu ysgolion yn nodi bod yn rhaid iddynt ystyried, o fewn ei fformiwla ei hun, ffactor neu ffactorau yn seiliedig ar nifer yr achosion o amddifadedd cymdeithasol ymhlith disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol. Roedd amrywiad yn y ffordd y defnyddiwyd data eFSM o fewn yr ISB yn amlwg ar draws profforma'r awdurdodau lleol. Mae Tabl 7 isod yn dangos, o'r 19 awdurdod lleol a ymatebodd i'r profformâu, fod 15 wedi cadarnhau y defnyddid eFSM yn rhan o'u fformiwla ISB mewn rhyw ffordd; fodd bynnag, ni fanylodd pump o'r rhain ynghylch sut y defnyddir y data.

Ymhlith y deg awdurdod lleol a restrodd rôl eFSM, defnyddiai wyth ohonynt ef fel yr unig faen prawf ar gyfer pwysoli cyllid y Gyllideb Ysgolion Unigol i ystyried amddifadedd economaidd-gymdeithasol,[10] tra bod pedwar wedi'i ddefnyddio i gyfrannu at ddosbarthu cyllid ADY. Awgrymodd eraill eu bod yn defnyddio data eFSM yn y Gyllideb Ysgolion Unigol i lywio dosbarthiad cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim a lwfansau dillad, ond mae'r rhain wedi'u heithrio o'r fformiwla fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, a gallant adlewyrchu camddealltwriaeth ar ran yr awdurdod lleol. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar yr hyn a adroddwyd gan awdurdodau lleol mewn ymatebion testun rhydd i'r profforma, ond mewn gwirionedd, gall nifer yr awdurdodau lleol sy'n defnyddio data eFSM yn y ffyrdd a nodwyd fod yn uwch.

**Tabl 7: Defnyddio data eFSM yn fformiwla Cyllidebau Ysgolion Unigol (ymatebion wedi'u codio)**

| Is-fformiwla'r Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB) | Nifer yr awdurdodau lleol |
|---|---:|
| Amddifadedd | 8 |
| ADY | 4 |
| Prydau ysgol am ddim | 5 |
| Dillad | 1 |

Ffynhonnell: profforma'r awdurdodau lleol (n=10)

Sylwer bod hyn wedi'i godio o ymatebion testun rhydd; felly, efallai fod defnyddiau eraill nad ydynt wedi'u nodi gan randdeiliaid.

[9] Mae'r fformiwlâu hyn wedi'u gosod o fewn paramedrau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.

[10] Cyfeiriodd dau o'r awdurdodau lleol hyn at "anghenion cymdeithasol" i nodi amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Darparodd awdurdodau lleol wybodaeth am yr ystod o fformwlâu a ddefnyddir ganddynt i ddyrannu'r Gyllideb Ysgolion Unigol ar gyfer y dibenion a gyflwynir uchod, ac mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Mewn ffordd sy'n cael ei harwain gan y galw, sef bod maint y cyllid yn cael ei bennu'n uniongyrchol gan nifer penodol y disgyblion sy'n eFSM;
- Dulliau trothwy lle mae ysgolion sydd â chyfran eFSM dros ganran benodol yn derbyn cynnydd mewn cyllid yn ogystal â dyraniad craidd Cyllideb Ysgolion Unigol; a,
- Dulliau wedi'u pwysoli, lle mae cyllid yn cael ei ddyrannu'n gymesur yn seiliedig ar gyfraddau eFSM neu fandiau cyfraddau eFSM mewn poblogaethau ysgol.

## Darparu cymorth wedi'i dargedu

Adroddodd rhanddeiliaid eu bod yn defnyddio eFSM i nodi pobl ifanc a allai fod angen cymorth wedi'i dargedu y tu hwnt i'r hyn a ddarperir mewn lleoliadau ysgol. Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu'n ddigartref.

Mae tystiolaeth y gall tlodi yn ystod plentyndod gynyddu'r risg o NEET a'r risg o ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc.[11] Felly mae eFSM wedi'i gynnwys yn y canllawiau adnabod yn gynnar ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (YEPF), sef mecanwaith systematig i adnabod ac ymateb i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, sy'n NEET ac/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Felly, mae'r canllawiau adnabod yn gynnar yn canolbwyntio ar atal a rhoi cefnogaeth briodol i bobl ifanc sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi drwy gydol eu hoes.[12]

> "Mae [eFSM] yn ddefnyddiol fel rhan i ddeall yn gyffredinol beth sy'n digwydd ym mywyd person ifanc… os ydych chi'n cyfuno eFSM, bod gwasanaethau plant yn gwybod am y plentyn, a gwaharddiad o'r ysgol, mae gennych chi goctel eithaf pwerus wedyn ar gyfer rhoi plant ar lwybr nad yw'n dda iawn. Mae eFSM yn ddangosydd eithaf pwysig ar gyfer risg digartrefedd."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Roedd defnydd awdurdodau lleol o ddata eFSM fel procsi ar gyfer amddifadedd wrth adnabod yn gynnar bobl ifanc sydd mewn perygl o NEET yn amlwg yn ymatebion y profformâu, wrth i awdurdodau lleol nodi'r graddau y mae eFSM yn cyfrannu at broffiliau asesu bregusrwydd (VAP) ar lefel disgyblion. Fel dangosydd o anfantais economaidd-gymdeithasol, defnyddir eFSM fel arfer ochr yn ochr â dangosyddion atodol eraill i adnabod y rheiny sydd mewn perygl o ymddieithrio neu ddod yn ddigartref, ynghyd â'r prif ddangosyddion sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad. Gyda'i gilydd, mae'r fasged o ddangosyddion, gan gynnwys eFSM, yn cynhyrchu sgôr gyfansawdd i bennu lefel risg NEET. Cadarnhaodd pedwar awdurdod lleol eu bod yn gwneud hyn:

---

[11] Preventing Youth Homelessness: What Works, Centre Point, 2016.

[12] Mae cryfhau'r Fframwaith (YEPF) yn ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu.

> “Caiff ei ddefnyddio ochr yn ochr â MALIC fel mesur amddifadedd ar ein Proffiliau Asesu Bregusrwydd (VAP) ar lefel disgyblion. Rydym yn tueddu i ddefnyddio FSM6[13] yn hytrach na hawl y flwyddyn gyfredol yn unig, gan fod cynifer o ddisgyblion yn rheolaidd yn newid eu statws i gael pryd ysgol am ddim ai peidio.”
>
> Profforma Awdurdod Lleol

Yn ogystal â’r rhain, cyfeiriodd awdurdodau lleol hefyd at ddefnyddio eFSM i fesur amddifadedd mewn perthynas â datblygu darpariaeth gofal plant, yn benodol wrth dargedu’r Cynnig Gofal Plant[14] a gofal plant Dechrau’n Deg.

## Ystadegau a monitro canlyniadau

### Ystadegau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data disgyblion yn flynyddol o bob ysgol drwy’r CYBLD. Mae data CYBLD ar gael yn gyhoeddus ar StatsCymru bob haf, ac yno gellir lawrlwytho gwybodaeth am nifer a chyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl ysgol, awdurdod lleol, rhanbarth a blwyddyn. Mae rhywfaint o ddata etifeddol, nad yw’n cael ei ddiweddaru mwyach, hefyd yn cynnwys dadansoddiadau yn ôl rhyw, cyfnod allweddol a blwyddyn ysgol.

Yn aml, defnyddia Llywodraeth Cymru ddata eFSM wrth gynnal dadansoddiadau a chyhoeddi dadansoddiadau ystadegol sy’n archwilio’r berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a phresenoldeb,[15] cyflawniad academaidd,[16] a chanlyniadau arholiadau,[17] yn ogystal â chefnogi mwy o ddadansoddiadau ad hoc. Mae dadansoddiad ystadegol sy’n cymharu gwahanol ganlyniadau dysgwyr yn ôl statws eFSM a nodweddion eraill yn cael ei adrodd i weinidogion ac uwch arweinwyr a’i ddefnyddio i lywio’r broses polisi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys data eFSM wrth lunio ei Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (AWCDS), sy’n darparu dadansoddiadau a gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol (trafodir isod y defnydd ar y data hwn gan randdeiliaid eraill). Fe’i defnyddir hefyd fel rhan o wybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd drwy Fy Ysgol Leol, sy’n cyflwyno dadansoddiadau ar lefel ysgol i rieni a theuluoedd i gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd a thryloywder data ysgolion.

Yn ddiweddar hefyd, cwblhaodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddefnyddio data yn y system ysgolion ac ar ddangosyddion dysgwyr ar gyfer pobl 14-16 oed i helpu i lywio a chefnogi cynnydd dysgwyr unigol. Ers hynny mae’r Llywodraeth wedi cadarnhau cyfeiriad defnyddio data yn y dyfodol i gefnogi dysgu a gwelliant, gan fod â ffocws ar gael cyd-destun

---

[13] Mae FSM6 yn cyfeirio at ddisgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn y chwe blynedd diwethaf (Ever-6).
[14] Mae hwn yn rhoi 30 awr yr wythnos o ofal plant i rieni cymwys plant 3 i 4 oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
[15] Er enghraifft, Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 4 Medi 2023 i 19 Ionawr 2024.
[16] Er enghraifft, Cyflawniad academaidd disgyblion Cyfnod Allweddol 3: Medi 2022 i Awst 2023.
[17] Er enghraifft, Canlyniadau arholiadau: Medi 2022 i Awst 2023.

ac ar nodi a chefnogi anghenion unigol. Disgwylir i eFSM barhau i fod yn fesur procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol yn y dull hwn.

Bob tair blynedd, mae data eFSM yn cyfrannu at Raglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), sy’n asesu gwybodaeth a sgiliau mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth mewn sampl o ddysgwyr 15 oed mewn systemau addysg ledled y byd. Mae PISA yn galluogi monitro canlyniadau dros amser a chymharu ar draws gwledydd ac mae’n elfen bwysig ar wella ysgolion. eFSM yw’r data a ddefnyddir fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru yn y dadansoddiad hwn (gweler [Ingram et al., 2023] i weld yr un diweddaraf.[18]

Mae’r Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU) yn Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod microdata ar gael i ymchwilwyr achrededig drwy gronfa ddata SAIL (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw). Yn SAIL, gellir cysylltu’r data â setiau data eraill. Mae cyfran fawr o’r data yn SAIL yn ymwneud ag addysg ac yn hanesyddol mae wedi cynnwys data eFSM. Mae ymchwilwyr academaidd sy’n cyrchu data addysg yn SAIL wedi defnyddio data eFSM fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol mewn sawl astudiaeth.[19]

Y tu hwnt i addysg orfodol, mae data eFSM hefyd yn bwysig ar gyfer cynhyrchu ystadegau sy’n ymwneud â dysgwyr ôl-16, gan gynnwys y sector addysg bellach ac uwch, prentisiaethau, y sector dysgu oedolion a rhai agweddau ar ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion. O fis Awst 2024 ymlaen, mae gwaith sy’n ymwneud â hyrwyddo, ariannu a rheoleiddio addysg bellach ac uwch, gan gynnwys cynhyrchu ystadegau ôl-16, i’w gyflawni trwy’r corff cyhoeddus newydd, Medr (CTER gynt).

Mae canlyniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16, sy’n cwmpasu addysg gyffredinol a galwedigaethol mewn dosbarthiadau chwech ac mewn colegau. Mae’n edrych ar ddilyniant a chynnydd ar draws yr holl gymwysterau a wnaeth dysgwr ar y lefel hon, yn ogystal â chanlyniadau gradd. Defnyddir dau fath o ddangosyddion procsi ar gyfer anfantais:

- Defnyddir data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 i ganfod amddifadedd economaidd-gymdeithasol yr ardal y mae dysgwr yn byw ynddi.
- Mae mesur o eFSM ‘erioed’ (*ever*), h.y., a oedd dysgwr yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod mewn addysg uwchradd, yn darparu data ar lefel unigolyn.

Elfen bwysig o waith Medr yn cynhyrchu ystadegau ar ddysgwyr ôl-16 yw llunio set ddata addysg gyfatebol, gan gysylltu CYBLD, sy’n cynnwys data eFSM, â Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), y Cyfrifiad, a’r casglu ar ddata ôl-16 yn nosbarth chwech. Caiff hwn wedyn ei gysylltu â Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), sef y ffynhonnell ddata gweinyddol sy’n galluogi olrhain dysgwyr drwy’r system

[18] Bydd Cymru hefyd yn cymryd rhan yn yr offer asesu rhyngwladol ychwanegol TIMSS a PIRLS o 2027. Gellir cael rhagor o fanylion yn Datganiad Ysgrifenedig: Cymryd rhan yn astudiaethau PIRLS a TIMSS | LLYW.CYMRU.

[19]Er enghraifft, Huxley a Davies, 2023; Huxley a Davies, 2024; a Bandyopadhyay et al, 2021.

addysg, ac yn cefnogi cynllunio, ariannu, monitro a sicrhau ansawdd polisïau, darpariaeth ac ystadegau swyddogol ôl-16.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn defnyddio LLWR fel rhan o ddata Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO). Fel y nodir gan Hysbysiad Preifatrwydd LLWR:

> "Mae hyn yn cynnwys cysylltu cofnodion dysgwyr â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau a gedwir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEF, a hynny at ddiben nodi a dadansoddi i ba gyfeiriad y mae dysgwyr yn mynd o ran dysgu pellach ac/neu gyflogaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r data cysylltiedig hyn at ddibenion ystadegol. Bydd hyn yn cynnwys eu defnyddio i asesu effeithiolrwydd polisi ym maes addysg a hyfforddiant, er enghraifft, faint o bobl sydd â chymwysterau penodol sy'n mynd ymlaen i gael swyddi penodol, cymharu deilliannau pobl sy'n mynd at wahanol ddarparwyr addysg neu hyfforddiant, neu p'un a yw cynlluniau penodol wedi cyflawni'r hyn yr oeddent i fod i'w gyflawni."

Yn ogystal â defnyddiau sy'n ymwneud ag addysg bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio'n ddiweddar i addasrwydd hanes cael pryd ysgol am ddim fel dangosydd cyd-destunol ar gyfer rhagweld canlyniadau sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau a dysgu oedolion. Canfu ymchwil sy'n bodoli eisoes, er bod cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim yn ystod yr ysgol uwchradd yn rhagfynegydd ystyrlon o ganlyniadau prentisiaethau, nad yw'n fesur addas ar gyfer canlyniadau dysgu oedolion eraill ar hyn o bryd, oherwydd y gyfran isel o ddysgwyr hŷn y mae data ar gael ar eu cyfer (Llywodraeth Cymru, 2023).

> "Rydym hefyd wedi archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu mesurau eFSM ar gyfer y sector dysgu oedolion, ond nid yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd oherwydd cyfradd cyfateb gwael rhwng cofnodion dysgwyr oedolion a'u cofnodion CYBLD oherwydd proffil oedran hŷn dysgwyr yn y sector dysgu oedolion."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Yn olaf, mae Cymwysterau Cymru hefyd yn casglu data gan gyrff dyfarnu cymwysterau ac yn cyhoeddi ystadegau swyddogol ar wahanol agweddau ar y system gymwysterau i asesu patrymau a thueddiadau mewn cofrestru a chyflawniad.

> "Caiff ei ddefnyddio i gefnogi prosesau adolygu a diwygio ar gyfer dadansoddi data eilaidd. Deall pwy sy'n cymryd pa gymwysterau, sut olwg sydd ar y canlyniadau, sut mae hynny'n amrywio ar draws canolfannau..."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

## Gwella ysgolion


Mae awdurdodau lleol ac ysgolion hefyd yn defnyddio data eFSM fel elfen allweddol yn eu gwahanol weithgareddau i wella ysgolion. Gellir grwpio'r dibenion y defnyddir y data ar eu cyfer yn yr ystyr hwn yn fras o dan y meysydd canlynol:

- Monitro a meincnodi canlyniadau, gan gynnwys gwerthuso;

- Adnabod dysgwyr sy'n fregus i effaith anfantais;
- Cynllunio a chyflwyno ymyriadau lleol ac ar lefel yr ysgol.

Yn y lle cyntaf, defnyddir data ar eFSM gan y rhanddeiliaid hyn ar gyfer monitro canlyniadau addysgol. Ymhlith y 19 awdurdod lleol a gyfrannodd at yr ymchwil hwn, mae 18 yn defnyddio data eFSM yn y modd hwn. Fel y nodir yn Ffigur 2, mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol hyn (16/19; 89%) yn defnyddio data eFSM i fonitro presenoldeb; mae bron i dri chwarter yn ei ddefnyddio i fonitro cyrhaeddiad neu gynnydd (13/19; 72%) ac mae hanner yn defnyddio eFSM wrth fonitro gwaharddiadau (9; 50%). Defnyddia pedwar awdurdod lleol ddata eFSM i gymharu eu canlyniadau addysgol ag awdurdodau lleol eraill a chyfartaleddau cenedlaethol, ac i'w meincnodi trwy ystyried sut mae safle eu hawdurdod yn y rhestr gymharu yn gysylltiedig â'u safle ar restr eFSM. Mae ymatebion eraill a nodwyd yn cynnwys cefnogi'r nifer sy'n ymgeisio am grantiau, targedu cymorth ychwanegol, a monitro atgyfeiriadau at wasanaethau eraill.

**Ffigur 2: Defnyddio data eFSM ar gyfer ystadegau a monitro gan awdurdodau lleol**




Ffynhonnell: profforma'r awdurdodau lleol (n=19)

Mae ysgolion hefyd yn defnyddio data eFSM i fod yn ddangosydd allweddol ar gyfer monitro cynnydd cymharol disgyblion unigol. Yn y cyfweliadau ag athrawon cafwyd enghreifftiau o sut y defnyddir y data yn ymarferol at y diben hwn yn y lleoliadau hyn, yn ogystal ag i ddadansoddi data arolwg ehangach i ddeall amrywiaethau yn agweddau disgyblion.

> "Rydym yn dadansoddi data ar Fathemateg, llafaredd, Cymraeg, ac ati. Mae'r plant hynny sydd mewn tlodi yn gyson yn perfformio'n is na'r rhai nad ydynt yn cael pryd ysgol am ddim."
>
> Cyfweliad â staff ysgol

> "Cymharu data eFSM â data Agweddau Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol (PASS) i ddeall pa amrywiad, os o gwbl, a allai fod oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol."

Cyfweliad â staff ysgol

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ac yn darparu ystod o ddata i gefnogi gwella ysgolion drwy'r Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (AWCDS). Mae'r set ddata hon yn cynnwys dadansoddiadau ystadegol sy'n galluogi awdurdodau lleol, ysgolion (a, hyd yn ddiweddar, consortia rhanbarthol[20]), i archwilio canlyniadau addysgol ar draws sawl metrig cyd-destunol a demograffig allweddol, ac un ohonynt yw eFSM/ddim yn eFSM.

Un swyddogaeth allweddol AWCDS yw ei fod yn grwpio ysgolion yn 'deuluoedd' yn seiliedig ar debygrwydd, gan gynnwys lefel eFSM a chyfran y disgyblion sy'n byw mewn ardal a ddosberthir drwy ddefnyddio MALIC fel y 20% o wardiau mwyaf difreintiedig. Yna gall awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion gael mynediad at y wybodaeth hon i gymharu eu canlyniadau â chanlyniadau ysgolion eraill sy'n wynebu'r un math a lefelau o heriau tebyg. Yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon i weld lle mae angen gwella a hwyluso rhannu arferion. Esboniodd arweinydd awdurdod lleol:

> "Mae gennym ni ein holl adroddiadau ysgol [ar ganlyniadau dysgwyr] wedi'u dadansoddi yn ôl rhyw ac yn ôl eFSM o'i gymharu â pheidio bod yn eFSM. Rydym yn monitro hynny'n agos, ac yn adrodd arno'n fewnol, rydym [hefyd] yn rhoi adborth i ysgolion. Yna bydd swyddogion Gwella Ysgolion yn monitro'r bylchau hynny, yn ogystal â'r perfformiad crai gwirioneddol."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Crybwyllodd ysgolion hefyd eu bod hwythau'n defnyddio data grwpiau teulu AWCDS fel hyn.

Yn y cyfweliadau ag arweinwyr gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol, tynnwyd sylw at rôl data eFSM yn cefnogi ysgolion â'u proses hunanwerthuso, yn enwedig symud o ffocws culach ar ddata canlyniadau ar gyfer mesur perfformiad ysgolion i ddealltwriaeth fwy cyfannol o effeithiolrwydd ysgolion a chynnydd dysgwyr.

> "Rydym yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyn sy'n gweithio i'n disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim o ran yr hyn rydym wedi'i nodi trwy hunanwerthuso ac agweddau ar eu dysg eu hunain, boed yn faterion sy'n ymwneud ag addysgu, sgiliau trawsgwricwlaidd, llythrennedd, rhifedd ac agwedd at ddysgu…mae'n ymwneud â bod yn ymwybodol o'r effaith y mae tlodi yn ei chael ar hynny, ar allu plant i wneud cynnydd yn y meysydd hynny, yn hytrach na dadansoddi eich data yn oer."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Byddai hunanwerthuso mewn ysgol i ddechrau arni wedi ymwneud â dadansoddi data a pherfformiad [ond] mae gwerthuso ...nawr yn canolbwyntio ar holi a all ysgol sy'n adnabod ei hun yn dda weld beth mae'n gallu ei wneud yn dda, o ran y cynnydd

[20] Gweler datganiad ysgrifenedig.

> y mae plant yn ei wneud a sut y gall athrawon gefnogi hynny, ac yna cynllunio ar gyfer gwella'r pethau hynny a dangos y gallant gyflawni'r gwelliannau hynny."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Cymysg oedd yr ymatebion gan awdurdodau lleol ynghylch i ba raddau y defnyddir data eFSM i fod yn sail i dargedu cymorth ar lefel ysgolion. Soniodd rhai o'r rheiny a gyfwelwyd ei fod yn rhan o sgyrsiau am wella ysgolion, ond nad dyma'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y pen draw. Dylid nodi bod arweinwyr gwella ysgolion yn ofalus ynghylch dibynnu ar ddata eFSM ac yn hytrach yn canolbwyntio ar ddeall anghenion arweinwyr eu hysgolion lleol a'u dysgwyr.

> "Yn fras, dydyn ni ddim yn defnyddio [eFSM] fel cymharydd. Beth fyddai'r tîm gwella ysgolion yn ei wneud gyda'r wybodaeth honno? Nid llawer iawn mewn gwirionedd. Rydyn ni'n edrych ar yr hyn sydd o'n blaenau, sef plant a phobl ifanc. Dydyn ni ddim yn barnu llyfr wrth ei glawr, ond yn gweld beth maen nhw'n dda ynddo, ac rydyn ni'n gweithredu yn unol â hynny."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Dydyn ni ddim yn defnyddio'r dangosydd pryd ysgol am ddim i wahaniaethu'r cymorth a roddir i ysgol; rydyn ni'n gwahaniaethu ar lefel yr angen. Os oes lefel uchel o ddisgyblion eFSM, efallai y byddwn ni'n trafod yr ysgol honno o ran ei darpariaeth ar gyfer dysgwyr agored i niwed. Efallai y byddwn ni'n eu cyfeirio at gefnogaeth ychwanegol o ran anghenion ychwanegol, boed yn angen ymddygiadol neu rywbeth felly, ond o ran rhagolygon gwella ysgolion dydyn ni ddim yn ei ddefnyddio yn y ffordd honno i fod yn sail i lefel gyffredinol y cymorth a chefnogaeth."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Serch hynny, roedd ymatebion i brofforma'r awdurdodau lleol wedi tynnu sylw at y ffaith fod data eFSM a'r AWCDS yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad a dyluniad ymyriadau cymorth wedi'u targedu ac adnoddau ychwanegol ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â lefel uwch o gymorth i ddysgwyr neu deuluoedd trwy atgyfeiriadau, megis trwy swyddog ymgysylltu â theuluoedd.

> "Pan fydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a rheolwyr ysgolion bro, rydym yn penderfynu ar yr ysgolion a fyddai'n elwa orau o'r ymyriad ychwanegol hwnnw ar sail cyfuniad o niferoedd sy'n cael pryd ysgol am ddim, ond hefyd MALIC."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Defnyddir data ar eFSM hefyd i dargedu cefnogaeth drwy ystod o agweddau ar fywyd ysgol. Dywedwyd yn y profformâu gan awdurdodau lleol fod ysgolion yn eu hardal yn defnyddio'r data i adnabod a recriwtio dysgwyr dan anfantais i fforymau llais disgyblion fel cynghorau ysgol ac i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ar draws grwpiau gallu. Nododd un ymatebydd profforma awdurdod lleol fod data eFSM hefyd yn llywio ffocws arsylwadau gwersi, lle rhoddir ystyriaeth i gynnydd dysgwyr fel y rhain:

> “Rwy’n meddwl am lais y disgybl, yn ogystal â llais ar gynghorau ysgol. Mae cynrychiolaeth gyfrannol yn beth mawr; yn draddodiadol, nid yw dysgwyr eFSM yn cael eu cynrychioli’n arbennig o dda mewn clybiau ysgol, ar dimau ysgol. Ond mae wedi bod yn darged bwriadol i annog y dysgwyr hynny i gymryd rhan er mwyn cyfoethogi eu bywydau ysgol gymaint â phosibl.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

O ran arweinwyr ysgolion sy’n darparu cymorth wedi’i dargedu i ddysgwyr unigol, soniodd un cyfwelai am ddefnyddio data ar statws eFSM i ddarparu cymorthdaliadau a chael gwared ar rai o’r rhwystrau ariannol i ddysgwyr fynychu tripiau ysgol.

> “Ar gyfer tripiau preswyl, caiff [dysgwyr] … sy’n cael pryd ysgol am ddim eu sybsydeiddio i’w cymell i fynychu. Mae hynny’n tueddu i annog cofrestru, ond nid yn gyfan gwbl.”

Cyfweliad â staff ysgol

Yn ogystal, rhoddodd y rheiny a gyfwelwyd enghreifftiau lle defnyddiwyd data ar statws eFSM disgyblion unigol i bennu a darparu cefnogaeth i ddysgwyr wrth i anghenion ddod i’r amlwg, er enghraifft i brynu offer ychwanegol i hwyluso dysgu.

> “Rydym yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn dan anfantais mewn unrhyw agwedd ar eu bywyd ysgol oherwydd eu bod [yn gymwys] i gael prydau ysgol am ddim. Felly, os, er enghraifft, byddem yn gwneud cwrs adeiladu lle disgwylir i blant gael esgidiau arbennig, byddwn yn eu prynu, nid oes gennym unrhyw ddisgwyliad y byddai’n rhaid i blant eu darparu drostynt eu hunain, tegwch o ran darpariaeth yw hynny.”

Cyfweliad â staff ysgol

Soniodd rhai awdurdodau lleol ac ysgolion hefyd eu bod wedi cymryd rhan yn y rhaglen Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc dan Anfantais (RADY), sy’n canolbwyntio ar adnabod dysgwyr o dan anfantais economaidd-gymdeithasol mewn ysgolion a sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni yn debyg i’w cyfoedion nad ydynt o dan anfantais. Esboniodd arweinwyr gwella ysgolion yr amrywiaeth o ffyrdd y cafodd egwyddorion RADY eu cymhwyso yn ymarferol, a sut mae data eFSM yn cyfrannu at ddyrannu cymorth. Mewn un awdurdod lleol, defnyddiwyd eFSM i ddyrannu cymorth i ddysgwyr unigol, tra mewn awdurdod arall, defnyddiwyd nifer neu gyfran y dysgwyr eFSM ar lefel ysgol fel maen prawf i benderfynu pa ysgolion fyddai’n cael cymorth.

> “[Mae egwyddorion RADY yn ymwneud ag] adnabod dysgwyr sy’n agored i niwed am ba reswm bynnag. Y prif ddangosydd wedyn fyddai a yw’r dysgwyr [unigol] yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim ai peidio. Ond mater o ddod i wybod am anghenion y dysgwyr, rhoi’r anghenion hynny yng nghyd-destun y teulu, a gwneud yr hyn y gallwch chi mewn gwirionedd i gefnogi ar lefel yr unigolyn.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Yn ogystal â'r defnydd a amlinellwyd uchod o eFSM gan randdeiliaid, mae Estyn, y corff arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn defnyddio data eFSM yn bennaf mewn tair ffordd at ddiben gwella ysgolion ledled Cymru:

- Cael gwybodaeth am gyd-destun economaidd-gymdeithasol pob ysgol er mwyn llywio arolygiadau drwy ystyried effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion.
- Monitro canlyniadau ar gyfer disgyblion dan anfantais, yn enwedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, ac asesu pa mor effeithiol y mae ysgolion yn gwasanaethu disgyblion o gartrefi incwm isel.
- Cael meincnod o ganlyniadau mewn ysgol wedi'u plotio yn erbyn cyfraddau eFSM, sy'n rhoi modd i Estyn gymharu ysgolion yn deg yn seiliedig ar eu cyd-destun economaidd-gymdeithasol.

## Rheoli arlwyo

Darparu prydau bwyd am ddim yw prif bwrpas casglu data ar gymhwystra disgyblion. Fodd bynnag, defnyddir y data hefyd gan awdurdodau lleol i reoli arlwyo ysgolion, a'r rhan fwyaf ohono'n cael ei ddarparu gan wasanaethau arlwyo 'mewnol', er bod rhai yn defnyddio contractwyr preifat.[21] Mae'n sail i ystod o benderfyniadau yn ymwneud â'r galw a chyflenwi bwyd.

> "Mae'n hanfodol wrth gynllunio cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer gwasanaethau arlwyo er mwyn sicrhau bod y gyllideb flynyddol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ddigonol."
>
> Profforma Awdurdod Lleol

Ar gyfer gwasanaethau arlwyo a reolir gan yr awdurdod lleol, mae data eFSM yn helpu i bennu maint y darpariaethau arlwyo mewn ysgolion unigol ac yn rhoi gwybodaeth ynghylch nifer y staff arlwyo sydd eu hangen. Mae hyn yn sicrhau bod gan ysgolion adnoddau priodol, yn seiliedig ar nifer y disgyblion cymwys.

I'r rhai nad ydynt yn rheoli'r gwasanaethau yn fewnol, defnyddia awdurdodau lleol ddata eFSM i ddyrannu cyllid i ysgolion trwy gytundebau lefel gwasanaeth. Yna gall yr ysgolion hyn brynu gwasanaethau arlwyo gan ddarparwyr annibynnol.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn aml yn monitro faint o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn mesur y galw gwirioneddol o'i gymharu â chymhwystra. Mae hyn yn cynnwys adolygu data cyffredinol ar faint o brydau a fwyteir o ran prydau â thâl, prydau eFSM, a phrydau UPFSM er mwyn rheoli gweithrediadau'r gwasanaeth arlwyo. Nodwyd bod hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch cynigion ar y fwydlen, meintiau prydau bwyd, a digonolrwydd y cyflenwad bwyd.

[21] Bwyta'n Iach yn yr Ysgol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## 3.3. Cryfderau a chyfyngiadau data eFSM

Mae'r adran hon yn adeiladu o'r hyn a gasglwyd o'r llenyddiaeth ehangach drwy fynd ati i edrych ar farn rhanddeiliaid ar gryfderau a chyfyngiadau data eFSM fel procsi ar gyfer anfantais, mewn perthynas â'u hanghenion a'u defnydd o'r data. Mae hefyd yn ystyried ei hyfywedd yn y dyfodol.

### Cryfderau

#### Ar lefel unigolion

Yn bwysig, eFSM yw'r unig brocsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol sydd ar gael ar lefel y dysgwr unigol sy'n adlewyrchu amgylchiadau cartref disgybl yn uniongyrchol o ran incwm.

Credai rhanddeiliaid bod manylder data eFSM yn adlewyrchu amgylchiadau unigolion ar lefelau daearyddol is na mesurau eraill, sy'n fwy seiliedig ar ardal.

> "Mae'r [dangosydd eFSM] yn ein helpu i nodi unigolion a phocedi [daearyddol] o amddifadedd."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Felly'r prif fudd i ni yw ei fod yn mesur ar lefel y dysgwr. Mae ein mesur amddifadedd wedi bod yn seiliedig ar ardal erioed ... ond dyna amddifadedd yr ardal, nid amddifadedd yr unigolyn yn y data. Felly o leiaf mae'r eFSM fel mesur yn rhyw fath o brocsi ar gyfer y darlun anfantais economaidd-gymdeithasol ar lefel yr unigolyn hwnnw."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Ar ben hynny, oherwydd dewis rhieni a'r amrywiaeth o fathau o ysgolion mewn rhai ardaloedd, nododd rhanddeiliaid nad yw nodweddion demograffig cofrestr y disgyblion mewn ysgol o bosibl yn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol uniongyrchol y mae'r ysgol wedi'i lleoli ynddi, ac, o'r herwydd, roedd hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd cael mynediad at ddata ar lefel unigolion neu aelwydydd.

I Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn arbennig, mae gallu data i gysylltu'n uniongyrchol ag amgylchiadau plant yn ei wneud yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer llunio a gweithredu polisïau a phrosiectau sy'n ymwneud â'r system addysg ac ysgolion. Wedi dweud hynny, nododd rhai o'r rheiny a gafodd eu cyfweld nad yw pob polisi yn gofyn am ddata ar lefel unigolion ar anfantais economaidd-gymdeithasol, ac y gallai gwybodaeth sy'n seiliedig ar ardal fod yn ddigonol mewn rhai achosion.

Awgrymodd adborth o brofformâu Llywodraeth Cymru fod data ar lefel dysgwyr yn ddefnyddiol ar gyfer targedu cyllid pan fo cyllidebau'n gyfyngedig drwy sicrhau ei fod yn cael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y boblogaeth dysgwyr:

> "Mae data ar lefel dysgwyr unigol yn ein galluogi i dargedu adnoddau cyfyngedig at...ysgolion/lleoliadau sy'n darparu addysg iddynt."

Profforma Llywodraeth Cymru

Pan fo dyhead i ddarparu cefnogaeth dargedig i ddysgwyr, rhaid defnyddio eFSM fel mesur ar lefel unigolyn, er enghraifft, ar gyfer ymyrraeth gynnar mewn perthynas â'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (YEPF) neu broffiliau asesu bregusrwydd (VAP). Ar ben hynny, ymhlith awdurdodau lleol, nodwyd bod dangosydd ar lefel mor fanwl yn helpu i nodi unigolion a phocedi o amddifadedd mewn ardaloedd sydd fel arall yn gyfoethog.

> "Mae'n bwysig sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda iawn o'r her sy'n effeithio ar rai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Mae hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gywir ar gael i'r plant hynny sydd eu hangen yn ardaloedd cywir yr awdurdod."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Mae data ar lefel dysgwr hefyd yn hanfodol i randdeiliaid sy'n casglu ystadegau a monitro amrywiol ganlyniadau addysgol ar gyfer dysgwyr dan anfantais.

Mae'n galluogi dadansoddi sawl ffactor drwy ystod o newidynnau a all gydberthyn â chanlyniadau dysgwyr, neu sydd angen eu monitro ochr yn ochr â hwy, gan gynnwys gwybodaeth am absenoldebau, gwaharddiadau, gofal cymdeithasol, a newidynnau demograffig. Mae data ar lefel dysgwyr hefyd yn angenrheidiol ar gyfer cysylltu data – er enghraifft, i fonitro canlyniadau dysgwyr unigol gan ysgolion neu awdurdodau lleol – trwy'r set ddata addysg gyfatebol ar gyfer ystadegau ôl-16 neu set ddata Deilliannau Addysg Hydredol (LEO).

> "[Mantais yw]… ei fod ar lefel y disgybl, gan alluogi mwy o ddadansoddi i ddigwydd, a dadansoddi aml-ffactor. Mae'n ein galluogi i gysylltu ar draws sawl set ddata wahanol."

Profforma Llywodraeth Cymru

Yn ogystal, mae data ar lefel dysgwr hefyd yn bwysig ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â gwella ysgolion, ac Estyn yn defnyddio data ar ganlyniadau dysgwyr i nodi i ba raddau y mae ysgolion yn diwallu anghenion plant o deuluoedd incwm isel.

**Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth**

Mae eFSM wedi'i ddiffinio'n glir ac mae'n ddealladwy, ac fe'i defnyddir yn helaeth ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig, gyda chydnabyddiaeth eang a dealltwriaeth gref ymhlith cyrff cyhoeddus, ysgolion a'r cyhoedd.

Tynnodd awdurdodau lleol sylw at y ffaith, fel cysyniad sydd wedi'i hen sefydlu, fod eFSM yn arbennig o werthfawr ar draws eu gwaith gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, boed yn cefnogi rhieni yn ystod y broses ymgeisio am brydau ysgol am ddim, yn dyrannu grantiau i ysgolion a lleoliadau, neu'n rheoli arlwyo ysgolion. Roedd cael un dangosydd cyson ar

draws eu portffolio o waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol yn helpu i leihau cymhlethdod.

> "Mae'n rhwydd iawn ei esbonio i gynulleidfa eang o ran beth mae'n ei olygu a pham ei fod yn cael ei ddefnyddio."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Dyma'r marciwr i droi ato. Mae'n un pwysig gan ei fod yn cael ei ddeall gan bawb…o lefel cwnselydd, lefel ysgol, lefel rhiant."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

**Hygyrchedd**

Mae data eFSM ar gael yn gyhoeddus ar lefel ysgol, er ei fod wedi'i dalgrynnu i osgoi datgelu data, ac yn hygyrch i ddefnyddwyr. Awgrymodd un awdurdod lleol mai un o brif fuddion eFSM yw mai awdurdodau lleol yw 'perchnogion y data' (gan mai nhw sy'n casglu'r data), a bod hynny'n beth da ar gyfer rhannu data rhwng adrannau a chyda rhanddeiliaid allanol. Mae hyn hefyd yn golygu bod ganddynt ddealltwriaeth dda fel arfer ynghylch pa mor gynhwysfawr yw'r data, a all lywio sut mae'n cael ei ddefnyddio.

> "Rydyn ni'n hoffi'r ffaith mai ni oedd perchnogion y data, ond o ran data iechyd neu ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae'n her cael mynediad iddo. Pan mae'n eiddo i ni, gallwn ei wirio a'i adolygu a gweld y broses lawn a gweld ble mae'r bylchau."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

**Amlder**

Cesglir data eFSM yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru drwy CYBLD. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn cymryd camau i wirio bod cofnodion yn gyfredol:

> "Caiff ei adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei dderbyn yn gymharol brydlon wedyn o'i gymharu â data a geir yn allanol/cysylltiedig."

Profforma Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amserlenni hir sy'n gysylltiedig â datblygu a monitro ymyriadau polisi ar lefel genedlaethol, mae cael data blynyddol yn ddefnyddiol ac yn ddigonol.

I Lywodraeth Cymru, mae cael y data hwn yn flynyddol yn llywio'r gwaith o gyfrifo dyraniadau cyllid a grantiau, a thybir bod yr amlder hwn yn ddigonol ar gyfer eu hanghenion. Mae eFSM a gesglir ar y sail hon yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer grantiau a arweinir gan alw, megis Grant Hanfodion Ysgol, lle gall dysgwr sy'n dod yn gymwys o fewn blwyddyn ysgol wneud cais i'w gyrchu ar unrhyw adeg yn yr un flwyddyn.

Er bod data blynyddol yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer rhai grantiau, dylid nodi bod rhai problemau yn codi yn sgil oedi o dros flwyddyn oherwydd amseriad CYBLD a dyraniad cyllid ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ym mis Medi, e.e. mae dyraniad y Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar ddata a gasglwyd 18 mis ynghynt.

Gall awdurdodau lleol, ar y cyd ag ysgolion, ddiweddaru data eFSM yn amlach na'r ymarfer CYBLD blynyddol. Nododd eu cynrychiolwyr eu bod fel arfer yn adolygu ac yn gwirio data cymhwystra yn fisol, er bod yr amlder yn amrywio rhwng awdurdodau. Nododd un awdurdod lleol, gan y gall dysgwyr symud i mewn ac allan o fod yn gymwys yn aml oherwydd amrywiadau mewn incwm, fod cyfle i gael diweddariadau amlach i sicrhau bod y data'n adlewyrchu'n gywir y niferoedd sy'n gymwys ac amgylchiadau'r dysgwyr.

Mae diweddariadau amlach hefyd yn caniatáu i asesiadau Proffil Asesu Bregusrwydd (VAP) eu diweddaru, ac i gefnogaeth gael ei thargedu at bobl ifanc pryd bynnag y bydd eu sefyllfaoedd yn newid.

**Sefydlogrwydd dros amser**

Mae'r meini prawf ar gyfer cymhwystra a'r dull o gasglu data hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd, sydd, mewn theori, yn golygu bod modd cymharu cyfraddau eFSM dros amser (gweler y drafodaeth isod ar effeithiau newidiadau mewn incwm a ffactorau eraill wrth gymharu data eFSM).

I Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, mae'r tueddiadau hyn yn galluogi cynllunio ariannol mwy effeithiol, dyrannu cyllidebau ac adnoddau yn fwy effeithiol, a darparu ystadegau cadarn dros amser.

Yn ogystal, mae Cymwysterau Cymru yn mynnu ei bod hi'n werthfawr cael dangosydd sefydlog sy'n gynhwysfawr wrth gwmpasu'r holl ysgolion gwladol er mwyn gallu dadansoddi cysylltiadau ystadegol dros amser ar gyfer llywio cymwysterau neu ddiwygio'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys deall pwy sy'n sefyll pa gymwysterau, sut olwg sydd ar y canlyniadau, a sut mae'r rhain yn amrywio ledled Cymru. Yna mae'r wybodaeth yn rhan o asesiadau effaith cydraddoldeb, sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau hirdymor.

> "Mae wedi bod o gwmpas ers tro, felly mae yna ddata dros gyfnod o amser y gallwch ei ddeall. Felly gallwch edrych ar dueddiadau…[a]… gweld cysylltiadau ystadegol sy'n gymharol sefydlog dros amser."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

Dylid nodi, fodd bynnag, fod y gwerth y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar sefydlogrwydd yn cael ei fesur o flwyddyn i flwyddyn yn hytrach nag yn fisol. Ar ben hynny, cafwyd heriau wrth gasglu data oherwydd pandemig COVID-19 a hynny'n golygu bod anghysondebau yn y ffordd y cafodd y data ei gasglu a'i reoli, ac ynghyd â phroblemau yn ymwneud â llusgiad cyllidol a charfan newidiol o ddysgwyr cymwys, a gall hyn fod wedi cyfyngu ar gadernid y dadansoddiad hydredol dros y cyfnod diweddar.

**Methodoleg gyson**

Mae casglu data eFSM hefyd yn fras gyson â'r dull a ddefnyddir yng ngwledydd eraill y DU, gan roi modd cymharu'n gyffredinol â Lloegr ac, i raddau cyfyngedig, â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae cael dull cyson o ran eFSM yng Nghymru a Lloegr yn galluogi cymariaethau ynghylch pa mor gyffredin yn gymharol yw eFSM. Mae hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer meincnodi cyrhaeddiad addysgol cymharol â gwledydd eraill, er enghraifft, trwy ei

ddefnyddio yn PISA. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhai rhanddeiliaid yn ofalus ynghylch gwneud cymariaethau o'r fath.

> "Mae [Cymru] yn cyfateb i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ond ni chredaf fod hynny o reidrwydd yn feincnod gwych. Yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, mae'r trothwy yn llawer, llawer uwch, ac mae hynny'n cyfateb i fesur tlodi canolrifol a chymharol."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

O ran awdurdodau lleol sy'n ffinio â Lloegr, cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at werth dadansoddi i gymharu canlyniadau dysgwyr ag awdurdodau cyfagos yn Lloegr, neu oherwydd bod rhai o'u disgyblion yn byw yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r meini prawf cymhwystra a'r trothwyon incwm cysylltiedig yn amrywio rhwng pedair gwlad y DU, felly dylid bod yn ofalus (i ddarllen rhagor, gweler CPAG, 2022).

Wrth fyfyrio ar gryfderau data eFSM drwyddi draw, mae'n amlwg ei fod yn diwallu llawer o'r ystod o anghenion a dibenion grwpiau rhanddeiliaid a chredir ei fod yn darparu tystiolaeth addas at y diben ar gyfer deall anfantais.

## Cyfyngiadau

Er gwaethaf y buddion clir a amlinellwyd uchod, mae nifer o gyfyngiadau hefyd i ddata eFSM, a chyffyrddwyd â rhai ohonynt yn gynharach yn yr adroddiad. Adfyfyriodd rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn ar hyn gan roi adborth ar oblygiadau defnyddio'r data i ddiwallu eu hanghenion tystiolaeth.

### Heriau technegol wrth gasglu a chofnodi data eFSM

Mae sawl her yn gysylltiedig â chasglu a chofnodi data eFSM, a allai fod wedi effeithio ar gadernid a chywirdeb y data.

Cyfrifoldeb pob awdurdod lleol yw sefydlu dulliau ar gyfer casglu a chynnal data eFSM. Felly, mae sicrhau cywirdeb data yn dibynnu ar awdurdodau lleol yn gweithredu prosesau i wirio neu ddilysu data ac i sicrhau bod data a gedwir gan ysgolion yn gyfredol.

Yn y broses hon rhaid i'r adran sy'n gyfrifol am gofnodi cofrestru data roi manylion am eu dysgwyr cymwys i ysgolion yn eu hawdurdodaeth. Yna cyfrifoldeb yr ysgolion yw diweddaru eu systemau yn unol â hynny.

Amrywio y mae'r amlder y mae awdurdodau lleol yn cynnal y gwiriadau dilysu hyn ar gyfer teuluoedd nad ydynt bellach yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim, oherwydd, er enghraifft, newidiadau mewn cymhwystra budd-daliadau neu gynnydd mewn incwm uwchlaw'r trothwy cymhwystra. I rai, mae'r gwiriadau yn cael eu hysgogi gan ddyraniadau grant cyfnodol ac i eraill, fe'i gwneir yn fisol. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod ond yn cwblhau'r ymarfer hwn yn flynyddol fel rhan o ffurflen CYBLD. Nid yn unig y mae hyn yn golygu oedi amser, ond gall yr anghysondeb ar draws awdurdodau lleol hefyd olygu amrywiadau o ran cywirdeb.

"Ar bwynt penodol, efallai na fyddant yn gymwys mwyach, ond efallai na fydd y gwiriad i benderfynu a ydynt yn anghymwys ai peidio yn cael ei wneud mor amserol â hynny, felly efallai y bydd oedi amser."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Er bod rhai awdurdodau lleol wedi awtomeiddio'r broses hon, ar y cyfan, roedd cryn ddibyniaeth ar fewnbwn â llaw mewn sawl cam. Mae hyn fel arfer yn ofynnol pan fydd dysgwyr yn symud ysgol i awdurdod newydd a chais newydd yn cael ei wneud. Nid yn unig mae hyn yn gryn faich ar adnoddau i bob rhanddeiliad, ond mae hefyd yn cyflwyno'r potensial ar gyfer gwallau dynol.

"Mae'n rhaid i ni fewnbynnu'r hawl i gael prydau ysgol am ddim â llaw i'n system gwybodaeth reoli oherwydd nad oes rhyngwyneb rhwng y system fudd-daliadau a'r system wybodaeth sy'n monitro addysg."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

"Mae gennym ni 14 ffin [ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill], mae camddealltwriaeth ar y lefel uwchradd lle maen nhw'n defnyddio system wybodaeth fonitro wahanol sydd â chaniatâd gwahanol. Os yw dysgwr yn cael [statws eFSM] mewn sir [arall], mae'n rhaid iddyn nhw ailymgeisio yma, felly yn aml byddwn ni'n ei wrth-wneud [â llaw] ar y system."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Fodd bynnag, yr her fwyaf wrth gasglu data eFSM yw'r llwybrau lluosog y mae dysgwr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim drwyddynt ac i gofnodi'r data hwn yn gywir. Yn benodol, mae statws Amddiffyn wrth Bontio (TP), a gyflwynwyd yn 2019, wedi cyflwyno dwy her allweddol:

Yn gyntaf, soniodd nifer o randdeiliaid am ddryswch mewn ysgolion yn y ffordd yr adroddwyd am gael prydau bwyd am ddim wedi'i amddiffyn wrth bontio, gan y byddai eFSM ac FSM wedi'i amddiffyn yn cael eu cyfuno â'i gilydd mewn camgymeriad. Roeddent yn tybio bod hyn oherwydd camddealltwriaeth ynghylch beth yw Amddiffyn wrth Bontio, a pham ei fod yno, yn ogystal â diffyg cyfathrebu rhwng timau budd-daliadau awdurdodau lleol a'r ysgolion pan fo person ifanc wedi symud o statws eFSM i statws Amddiffyn wrth Bontio. Arweiniodd hyn at amrywiadau mawr rhwng ysgolion unigol ac awdurdodau lleol yn y cydbwysedd rhwng dysgwyr eFSM ac FSM wedi'i amddiffyn wrth bontio, a hynny wedi gallu arwain at anomaleddau mewn ffurflenni CYBLD blaenorol a goblygiadau ar gyfer cymharu tueddiadau. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn niweddariad y Prif Ystadegydd.

"Mae statws Amddiffyn wrth Bontio, gan gynnwys ei dynnu i ffwrdd, yn aml yn ddryslyd i ysgolion a gwasanaethau wrth ystyried cymhwystra."

Profforma Awdurdod Lleol

> “Mae dryswch mawr wedi bod ynghylch amddiffyn wrth bontio ac nid yw rhieni/gwarcheidwaid yn deall y gwahaniaeth rhwng pob categori a’u goblygiadau gwahanol.”

Profforma Awdurdod Lleol

Yn ail, roedd llawer o ysgolion yn canfod y codwyd tâl am bryd ysgol ar ddisgyblion a oedd i fod i gael prydau bwyd am ddim drwy’r amddiffyniad wrth bontio (TP). I fynd i’r afael â hyn, addasodd rhai ysgolion ddata cymhwystra â llaw i sicrhau nad oedd teuluoedd yn talu trwy gamgymeriad, a diwygiwyd y niferoedd ar eFSM/ FSM TP i fod yn gywir ar ddiwrnod bob blwyddyn y cynhaliwyd y CYBLD. Roedd yr ateb dros dro hwn yn faich mawr ar yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt ac roedd yn cyflwyno risgiau pellach i gywirdeb yn gysylltiedig â gwallau dynol wrth fewnbynnu â llaw:

> “Os oedd plentyn dan amddiffyniad wrth bontio a ddim bellach yn FSM, byddai [darparwr y til nad yw’n cymryd arian parod] yn codi tâl ar blant. Y datrysiad oedd [bod yr ysgol] yn eu cadw ar y system SIMs fel FSM er mwyn iddynt beidio codi tâl. Yna fe wnaethon ni ei addasu [niferoedd eFSM] trwy broses â llaw ar ddiwrnod CYBLD iddo fod yn gywir. Felly roedden ni’n adrodd i’n llywodraeth fod gennym ni’r swm cywir, ond yna am weddill y flwyddyn, pan oedden ni’n gwneud ein hadroddiadau mewnol ein hunain, roedden ni allan ohoni’n fawr iawn yn y bôn.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Er nad yw’n effeithio ar y dangosydd eFSM ar hyn o bryd, mae risg mawr i gywirdeb hefyd yn gysylltiedig â dibynnu ar y System Gwirio Cymhwystra (ECS), sef y porth ar-lein a reolir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy’n caniatáu i awdurdodau lleol wirio data a gedwir a sicrhau cymhwystra. Pe bai gwahaniaeth yn y meini prawf cymhwystra ar gyfer cael pryd ysgol am ddim rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, byddai hyn yn effeithio ar y broses bresennol o gofnodi a chasglu data eFSM yng Nghymru, sy’n dibynnu ar system yr ECS.

> “Mae’n eiddo i Adran Addysg Lywodraeth y DU ac rydym yn talu i gael mynediad. Mae’n gweithio oherwydd bod ein trothwy yr un fath â nhw, ond os ydyn nhw’n cynyddu eu trothwy, yna mae pryder a fyddai hwn yn dal i weithio [i Gymru].”

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Dylid nodi bod y meini prawf cymhwystra newydd ar gyfer eFSM yn Lloegr yn dod i rym ym mis Medi 2026, gan ei ehangu i gynnwys pob aelwyd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol. Ar hyn o bryd nid yw’n glir sut, os o gwbl, y bydd hyn yn effeithio ar ddefnydd Cymru o’r ECS.

**Peidio cynnwys dysgwyr cymwys**

Yn ogystal â’r problemau cywirdeb a drafodwyd uchod, cyfyngiad allweddol arall ar eFSM fel dangosydd yw i ba raddau y mae’n cynnwys pob dysgwr sy’n bodloni’r meini prawf cymhwystra. Rhaid i rieni wneud cais i gael pryd ysgol am ddim drwy eu hawdurdod lleol, ond mae cydnabyddiaeth eang nad yw pob rhiant cymwys yn gwneud hynny.

> “Oni bai bod pobl eisiau ei hawlio, yna ni fydd y plant i’w gweld â [statws eFSM]. Yr elfen hunanddewis, felly mae [rhai] plant yn llithro drwy’r rhwyd.”

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Mae sawl rheswm pam efallai na fyddai rhieni’n cofrestru eu plentyn i fod yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim, fel yr awgrymir gan y llenyddiaeth ac yr ymhelaethir arnynt gan randdeiliaid:

- Mae’n bosibl nad yw rhieni’n ymwybodol eu bod yn gymwys neu’n gwybod sut i gofrestru eu plentyn fel eFSM. Nododd rhanddeiliaid y gallai hyn fod yn wir am rieni sydd fwyaf angen cymorth. Soniodd rhai awdurdodau lleol am gyflwyno amrywiol fesurau neu ymgyrchoedd i hyrwyddo gwneud cais. Er y gallai hyn gynyddu ymwybyddiaeth, gall hefyd arwain at amrywio ledled awdurdodau lleol yng nghymarebau’r dysgwyr sydd wedi cofrestru (ar gyfer prydau ysgol am ddim) a’r dysgwyr hynny sy’n gymwys (ar gyfer pryd am ddim).

- Soniodd rhanddeiliaid am ystod o rwystrau yn y broses gofrestru, gan gynnwys rhwystrau llythrennedd neu iaith, pryderon ynghylch y manylion sy’n ofynnol yn y ffurflenni a ystyrir i fod yn fusneslyd, a diffyg ymddiried o bosibl mewn awdurdod. Nododd awdurdodau lleol fod llythrennedd digidol ac anghydraddoldeb yn rhwystrau y mae rhai teuluoedd yn eu hwynebu, gydag un yn tynnu sylw at y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar deuluoedd mewn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn yr un modd, ni chedwir statws eFSM os yw plentyn yn symud i ysgol mewn awdurdod lleol gwahanol, ac yn yr achosion hyn, rhaid i rieni ailymgeisio.

  > “Mae’r broses mor anodd i wneud cais amdani, mae angen cymaint o ddogfennau, ac mae ganddyn nhw rwystrau llythrennedd, rhwystrau digidol, maen nhw’n brin o amser.”

  Cyfweliad â staff ysgol

  > “Rydyn ni’n mynd allan at ein rhieni ac yn eu cefnogi i wneud cais oherwydd…mae gennym ni nifer o rieni na allant ddarllen na ysgrifennu, felly dydyn nhw ddim yn gallu cael mynediad at y cyllid mewn gwirionedd, a byddai’n well ganddynt osgoi gwneud cais na gorfod cyfaddef hynny.”

  Cyfweliad â staff ysgol

- Mae cysylltiad annatod rhwng eFSM a chael dewis bwyd mewn ysgolion. Felly, os nad yw rhiant neu warcheidwad, neu eu plentyn, yn dymuno bwyta’r bwyd sydd ar gael yn yr ysgol oherwydd dewisiadau personol, rhesymau crefyddol, neu fel arall, efallai na fyddant yn teimlo’r angen i gofrestru eu plentyn fel rhywun sy’n gymwys i gael prydau bwyd am ddim.

  > “Y broblem wedyn yw eu bod yn mynd i’r ysgol uwchradd ac efallai ar yr adeg honno… dydyn nhw ddim o reidrwydd eisiau eistedd i lawr a chael pryd maethlon.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

- Efallai fod dyhead posibl hefyd ymhlith rhieni, gwarcheidwaid, a'r dysgwyr eu hunain i osgoi'r stigma sydd weithiau'n gysylltiedig â thlodi. Gall y stigma hwn ei ystyried yn wahanol ar draws ardaloedd a chymunedau yng Nghymru. Yn aml, gall groestorri ag anghydraddoldebau presennol sy'n gysylltiedig â dosbarth, anabledd, hil ac ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb neu statws dinasyddiaeth. Yn yr un modd, canfu ymchwil o Brifysgol Bangor fod rhieni balch o ardaloedd gwledig yng Nghymru yn amharod i gofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim (Ap Gruffudd et al., 2017).

> "Rydym yn ymwybodol o'r stigma sy'n gysylltiedig â gwneud cais i fod yn gymwys neu ba mor anhygyrch yw'r broses ymgeisio i rai, ac felly nid ydym yn cynnwys rhan o gymdeithas sy'n debygol o fod yn hynod agored i effaith tlodi."

Profforma Llywodraeth Cymru

> "Gwyddom fod gan lawer o ysgolion…ddysgwyr sy'n byw mewn tlodi ond na fyddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sy'n credu ei bod yn amhriodol yn ddiwylliannol i hawlio'r gefnogaeth y mae'n ei darparu."

Profforma Llywodraeth Cymru

> "Hefyd, tlodi gwledig, dwi ddim yn meddwl ei fod yn adlewyrchu hynny mewn ardaloedd gwledig, yn eithaf aml, mae'r teuluoedd hynny yn bobl falch iawn ac na fyddent yn gwneud cais amdano."

Cyfweliad ag Estyn

Ymhellach, nid yw eFSM ond yn cyfrif dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion sy'n destun y CYBLD a'r disgyblion hynny sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Nid yw hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (EHE) a phlant sydd ar goll o addysg. Amcangyfrifir nad oedd tua 6.4% o blant (27,000) wedi'u cynnwys yn nata CYBLD nac EOTAS yn 2021, a byddai cyfran sylweddol ohonynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra (Llywodraeth Cymru, 2024). Er bod y dysgwyr hyn y tu allan i ystod y defnydd ar y data, maent yn grŵp pwysig ac mae angen eu hystyried yn y nod ehangach o fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Un o brif oblygiadau'r cyfyngiad hwn yw ei effaith ar ddosbarthiad teg a chyfartal cyllid neilltuedig a chyllid heb ei neilltuo. Pan fo dyrannu cyllid sy'n seiliedig ar eFSM yn cael ei arwain gan y galw (h.y. pennir maint y gyllideb gan nifer y dysgwyr cymwys), bydd peidio â chofnodi plentyn yn eFSM yn arwain at dan-ddyrannu cyllid ar y lefel genedlaethol drwy'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a hefyd ar y lefel leol drwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol (ISB) o'i gymharu â niferoedd gwirioneddol y disgyblion sydd dan anfantais a gwir raddfa'r angen.

**Tanamcangyfrif nifer y dysgwyr sydd mewn tlodi**

Methiant cysylltiedig, sydd wedi'i ddogfennu'n dda yn y llenyddiaeth academaidd, yw nad yw eFSM yn ffordd effeithiol o gofnodi pob plentyn sy'n byw mewn tlodi incwm a'i fod felly yn tanamcangyfrif nifer y dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae modd diffinio tlodi incwm ei hun mewn amrywiaeth o ffyrdd. Y dull mwyaf cyffredin yw mesur tlodi cymharol, sy'n cyfrif aelwydydd ag incwm sydd islaw 60% o'r incwm cyfartalog (canolrif) ar ôl costau tai. Fodd bynnag, mae anghysondeb rhwng cyfran y disgyblion sy'n derbyn eFSM ledled Cymru (22.9%, cyfartaledd tair blynedd 2023/24) a chyfran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol (29% yn 2023) (gweler Stats Cymru a Llywodraeth Cymru, 2024).

Awgrymodd awdurdodau lleol ac ysgolion yn aml hefyd nad yw'r meini prawf cymhwystra yn ddigon eang i fesur pob dysgwr sy'n byw mewn tlodi, ac, o ganlyniad, nid yw data eFSM yn cael ei ystyried yn brocsi cwbl ddibynadwy ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol. Nododd un awdurdod lleol ostyngiad sydyn yng nghyfraddau eFSM yn eu hardal, ochr yn ochr â chynnydd mewn tlodi cymharol a mwy o ddefnydd o wasanaethau cymorth, gan awgrymu nad yw'r dangosydd eFSM yn adlewyrchiad cywir o brofiad byw eu trigolion.

> "Mae ein ffigurau [cyfraddau] eFSM wedi gostwng, maen nhw nawr yn unol â ffigurau [cyfraddau] 2019. Ond rydyn ni'n gwybod bod amgylchiadau ein teuluoedd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf…felly dylai ein ffigurau fod wedi codi."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Mae Tabl 8 isod yn dangos y pum awdurdod lleol sydd â'r gyfran uchaf o blant sy'n byw mewn aelwydydd isel eu hincwm, ochr yn ochr â'u safleoedd ar gyfer cyfran y dysgwyr eFSM (lle mae 1 yn cynrychioli'r gyfran uchaf o blant eFSM a 23 yw'r isaf). Awgryma hyn ddosbarthiad cymhleth o ran sut mae cofrestriadau eFSM yn cymharu ag incwm isel ar draws awdurdodau lleol. Mae'r awdurdodau lleol sydd â'r trydydd, y pedwerydd a'r pumed cyfradd uchaf o blant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yn yr hanner isaf o awdurdodau lleol o ran plant eFSM.

**Tabl 8: Cymharu'r awdurdodau lleol hynny sydd â'r gyfran uchaf o blant yn byw mewn aelwydydd incwm isel yn 2023 gyda safle eFSM**

| Awdurdod lleol | % y plant sy'n byw mewn teuluoedd ag incwm cymharol isel | Safle eFSM |
|---|---:|---:|
| Blaenau Gwent | 28.1 | 1 |
| Merthyr Tudful | 25.5 | 8 |
| Casnewydd | 23.8 | 12 |
| Ynys Môn | 24.3 | 19 |
| Ceredigion | 25.4 | 21 |

Ffynhonnell: CYBLD, Llywodraeth Cymru a DWP (2023)

Tynnodd llawer o randdeiliaid sylw at y ffaith bod mesur deuaidd, sy'n seiliedig ar drothwy, yn agored i'r problemau hyn. Awgrymodd sawl rhanddeiliad o awdurdodau lleol y gallai llawer o deuluoedd sy'n gweithio fod yn ei chael hi'n anodd ychydig uwchlaw'r trothwy cymhwystra, eu bod yn byw mewn dyled neu ansicrwydd tai, ond nad ydynt yn gymwys i gael cymorth wedi'i dargedu i'r rheiny sydd ar yr incwm isaf. Mae hyn yn peri pryder, gan fod y niferoedd sydd mewn tlodi er eu bod mewn gwaith wedi bod yn cynyddu yn ystod y degawdau diwethaf (Bourquin et al., 2019):

> "Rydyn ni'n gwybod am deuluoedd lle mae'r ddau riant yn gweithio, felly dydyn nhw ddim yn cyrraedd y trothwy i gael budd-daliadau, ond dydy hynny ddim yn golygu bod ganddyn nhw arian parod… [nid yw eFSM] yn cofnodi'r bobl dlawd sy'n gweithio."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Mae hefyd yn fesur moel a syml oherwydd dim ond dau gategori sydd ganddo, ac wrth gwrs, bydd gwall dosbarthu yno hefyd. Felly dydych chi ddim yn cael y wybodaeth honno am raddau anfantais economaidd [neu anfantais yn seiliedig ar incwm] wrth i statws economaidd-gymdeithasol newid mewn ffordd fwy parhaol yn y boblogaeth."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

Adleisiwyd y pryder hwn gan nifer o randdeiliaid eraill hefyd, a'r rhanddeiliaid hynny yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Estyn.

Mae hyn wedi'i waethygu gan y ffaith nad yw'r trothwy incwm ar gyfer eFSM, a sefydlwyd yn 2019 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, wedi cynyddu ers hynny. Pe bai wedi cynyddu gyda chwyddiant, byddai wedi codi o'i £7,400 presennol i tua £9,500 ym mis Ebrill 2025.[22] Awgrymodd rhanddeiliaid fod gwerth y trothwy fel amod bod yn gymwys ar gyfer eFSM wedi'i erydu gan y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r gofynion enillion isaf ar gyfer Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn golygu y gallai llai o deuluoedd fod yn gymwys, er gwaethaf chwyddiant a phwysau costau byw sy'n golygu, mewn termau real, nad yw incwm aelwydydd wedi gwella, ac maent yn parhau i fod mewn tlodi cymharol. Soniodd rhanddeiliaid am hyn a chyfeirio at broblemau i deuluoedd y mae eu hincwm ar ffin y trothwy incwm:

> "Cydnabyddir bod y trothwy incwm ar gyfer cael pryd ysgol am ddim yn isel ac felly nid yw'n cynnwys llawer o deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau na rhieni sy'n gweithio sy'n dal i fyw mewn tlodi cymharol."

Profforma Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

> "Mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol iawn nad yw rhywun o bosibl ar eFSM, ond mae effaith yr incwm isel hwnnw'n parhau, ac mae £7,400 mor isel fel trothwy. Ond y gwir amdani yw, os oes ganddyn nhw ychydig bach yn ychwanegol, efallai eu bod nhw wedi colli budd-daliadau eraill."

[22] Cyfrifwyd hyn drwy ddefnyddio Cyfrifiannell Chwyddiant Banc Lloegr.

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Soniodd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru am bryderon bod y garfan eFSM bresennol wedi'i lleihau'n fawr o'i gymharu â'r garfan eFSM a fyddai wedi bodoli pe bai'r system fudd-daliadau etifeddol wedi parhau. Roedd y trothwy cymhwystra yn cadw i fyny â datblygiadau economaidd ehangach, gydag un yn nodi bod "diffyg [ystyried] chwyddiant yn golygu eich bod yn delio â charfan sy'n lleihau'n barhaus o ran hawl i brydau ysgol am ddim".

Os nad yw'r data'n adlewyrchu gwir raddfa'r anfantais economaidd-gymdeithasol, mae'n codi cwestiwn sylfaenol i bob rhanddeiliad sy'n ymwneud â mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Mae'r ffaith y bydd y data bellach yn cipio/cofnodi gwahanol grwpiau o ddysgwyr hefyd yn her i'r rheiny sy'n ei ddefnyddio i fonitro canlyniadau a sicrhau bod gan ddysgwyr y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

> "O ran datblygu polisïau, ystyriaethau tegwch a monitro canlyniadau, mae'n bosibl nad yw'r polisi pryd ysgol am ddim bellach yn cefnogi'r union grŵp o ddysgwyr yr oedd wedi'i fwriadu i'w cefnogi. Wrth gymharu dysgwyr eFSM â dysgwyr nad ydynt yn eFSM, mae'n bosibl y bydd y gwahaniaeth yn y grwpiau hyn yn cael ei gamliwio gan y bydd y grŵp o ddysgwyr nad ydynt yn eFSM bellach yn cynnwys dysgwyr a fyddai'n hanesyddol wedi'u cynnwys yn y garfan eFSM."

Profforma Llywodraeth Cymru

Mater arall sy'n gysylltiedig â throthwy deuaidd isel a amlygwyd gan randdeiliaid yw'r heriau sy'n ymwneud â'r ffaith mai dim ond 'ciplun o amgylchiadau' ar unrhyw adeg benodol yw eFSM. Gall fod amrywiad sylweddol mewn incwm aelwydydd yn ystod un flwyddyn, wedi'i ddylanwadu gan batrymau cyflogaeth dymhorol, cyflogaeth ansicr, contractau dim oriau, a gweithio oriau goramser. Awgrymodd un awdurdod lleol fod eu ffigurau cymhwystra eFSM yn gyson yn gostwng tua chwarter ym mis Ionawr, a gallai hynny fod oherwydd fod cyflogwyr lleol mawr yn cynnig gwaith tymhorol neu oramser yn ystod cyfnod y Nadolig, gan gyfrannu at becynnau cyflog uwch ym mis Ionawr. Mae hyn yn peri pryder arbennig, gan fod data CYBLD yn seiliedig ar statws cymhwystra ym mis Ionawr, felly efallai na fydd y ffigurau eFSM blynyddol yn adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol yn gywir drwy gydol y flwyddyn.

> "Yn aml, mae gennym ni ddisgyblion sy'n dod oddi ar brydau ysgol am ddim ym mis Rhagfyr neu fis Ionawr oherwydd bod eu rhieni wedi cael gwaith tymhorol. Mae hynny'n cael effaith fawr ar niferoedd ein prydau ysgol am ddim oherwydd bydd y disgyblion hynny wedyn yn mynd yn ôl i brydau ysgol am ddim yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae'n niferoedd dros dro o ran sut maen nhw'n cael eu mesur."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Mae bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn amrywio mewn cyfnod o chwe wythnos, felly gall plentyn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn un hanner tymor ac yna mae mam a dad yn cael bonws oherwydd eu bod wedi gweithio goramser, ac yna gallant fod allan. Gall amrywio llawer mewn lleoliad ysgol, yn dibynnu ar yr economi leol."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Pan fo cyllido adnoddau cymorth yn seiliedig ar statws eFSM dysgwyr, awgrymodd un awdurdod lleol ei bod hi'n anodd darparu cymorth a sicrhau ymyrraeth hirdymor i'r plant hynny sy'n ymuno ac yn gadael y gofrestr eFSM o'r naill dymor neu wythnos i'r llall:

> "Gellir ei gymharu mewn ffordd debyg â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, lle mae'r ysgol yn derbyn cyllid ac yna pan maen nhw'n cael eu maethu, mae'n disgyn oddi ar glogwyn. Gallai'r plentyn hwnnw fod wedi cael y pedair blynedd gwaethaf erioed yn eu bywyd yn tyfu i fyny, ac maen nhw'n mynd i gael rhai problemau difrifol iawn, iawn oherwydd hynny ac i ddweud nad yw'r gefnogaeth yno mwyach, mae'r un peth yn wir am brydau ysgol am ddim, mae'n cyfyngu ar y safbwynt hirdymor."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Pan fo cyllidebau ar gyfer cyllid fel y Grant Datblygu Disgyblion wedi'u pennu ymlaen llaw a'u dyrannu'n gymesur drwy ddefnyddio cofnod data eFSM yn CYBLD, gall unrhyw amrywiad yn y niferoedd gael goblygiadau negyddol, gan nad yw'r cyllid a ddarperir o bosibl yn adlewyrchu neu'n diwallu lefel anghenion y dysgwr yn ddigonol ar adegau eraill yn y flwyddyn galendr. Ar ben hynny, mae amrywiadau yn niferoedd eFSM yn fwy tebygol mewn rhai economïau lleol nag eraill oherwydd amodau gwahanol y farchnad lafur, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â chyflogwyr mawr fel Amazon, a allai gael eu heffeithio gan alw tymhorol. Mae hyn yn peri'r risg y gallai rhai awdurdodau lleol, a thrwy estyniad eu hysgolion, fod dan anfantais o ran dyraniadau cyllid o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

At ddibenion monitro canlyniadau dysgwyr, nododd rhanddeiliaid fod byrhoedledd y garfan o ddysgwyr eFSM yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn, gan gydnabod profiadau gwahanol y dysgwyr hyn o'i gymharu â'r rheiny sydd wedi bod yn byw mewn tlodi parhaus.

> "Efallai fod disgyblion sydd wedi bod yn cael pryd ysgol am ddim drwy gydol eu hoes ysgol, ond mae gennych chi ddisgyblion sydd efallai wedi bod yn ei gael am y mis y cynhaliwyd CYBLD yn unig, ac yna rydych chi'n cymharu eu perfformiad ar yr un sail, ac nid yw'r sail hwnnw o reidrwydd yr un fath."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Er bod cydnabyddiaeth o gyfyngiadau data eFSM o ran tanamcangyfrif dysgwyr dan anfantais, ar y pwynt hwn mae'n werth nodi bod rhai awdurdodau lleol wedi cydnabod mai dyma yn dal yw'r ffynhonnell ddata fwyaf effeithiol ar gyfer diwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd y gred nad oes opsiynau amgen:

> "Mae'n dal yn ddefnyddiol oherwydd dydw i ddim yn gwybod beth arall y byddem ni'n ei ddefnyddio, yn eich meddwl chi mae yna 10% arall ar ben hynny sydd hefyd wedi profi amddifadedd neu'n deuluoedd incwm isel. Mae'n faromedr."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Rwy'n bod yn sinigaidd yma, ond dyma'r gorau sydd gennym ni. A does jest dim digon o arian i'w newid mewn awdurdodau lleol."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

**Natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol**

Cyfyngiad mawr arall yw nad yw eFSM, fel mesur sy'n seiliedig ar incwm, yn dal natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol yn llawn. Mae nifer o astudiaethau yn y llenyddiaeth academaidd wedi archwilio'r berthynas rhwng eFSM a marcwyr eraill anfantais economaidd-gymdeithasol, megis mynediad at wasanaethau, tai/llety ansicr, a chymwysterau a galwedigaeth rhieni ac wedi dangos y gallant fod yr un mor allweddol, os nad yn fwy, wrth esgor ar anghydraddoldebau mewn canlyniadau addysgol. Ymhellach, roedd ymchwil wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn yr Adolygiad o Wariant Ysgolion ac ymchwil i ddatblygiad ecosystem newydd ar gyfer gwybodaeth a data ill dau wedi nodi bod y ffocws ar incwm yn rhy gul, gan argymell defnyddio data cyd-destunol ychwanegol.

> "Mae yna lawer o resymau eraill pam y gallai teulu fod o dan anfantais economaidd-gymdeithasol nad ydynt yn cael eu gweld gan ddangosyddion FSM, e.e., eu llety/tai."

Profforma Llywodraeth Cymru

> "Nid yw'r ffaith fod rhywun yn ennill digon o arian yn golygu nad ydyn nhw'n dioddef amddifadedd mewn llawer o ffyrdd. Mae'n methu rhai o'r lefelau cymdeithasol eraill."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Mae'n ddigon gwir ei fod yn offeryn sydd heb fin iddo braidd, gan nad yw'n cynnwys pob person ifanc sydd dan anfantais, oherwydd ar deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau penodol [yn unig] y mae eFSM yn dibynnu arno."

Profforma Llywodraeth Cymru

> "Mae yna lawer o wahanol ffyrdd y mae pobl yn byw mewn tlodi. Rydyn ni wedi defnyddio ein ffigurau eFSM fel un dangosydd yn unig, ond nid yw [eFSM] yn ddangosydd dilys o brofiad byw ein teuluoedd nawr."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Yn benodol, nododd ysgolion ar draws y sampl fod ffactorau cymdeithasol ehangach a allai ddylanwadu ar allu dysgwyr i ymgysylltu â'u haddysg a ffynnu ynddi. Soniwyd nad yw cyfraddau eFSM yn ystyried sefyllfaoedd byw eu dysgwyr a'u teuluoedd.

> "Nid [yw'r ffigurau eFSM] yn gynrychioliadol. Mae staff yn byw yn y gymuned ac yn gwybod nad yw'n cynrychioli ble mae'r disgyblion yn byw, a dyma'r prif ddull sy'n cael ei ddefnyddio ond nid yw'n dangos y cyd-destun cywir… nid ydym yn credu ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn unol â Mynegeion Amddifadedd Lluosog ac ati… [mae gennym rai o'r] prydau ysgol am ddim isaf ond [un o'r] cyfraddau Mynegai Amddifadedd uchaf. Rydyn ni wedi cael ein nodi i fod yn un o'r trefi tlotaf yn y DU, ond nid yw'n cael ei adlewyrchu yn yr hawl i brydau ysgol am ddim."

Cyfweliad â staff ysgol

Mae'r llenyddiaeth ehangach yn dangos nad yw deinameg benodol anfantais mewn ardaloedd gwledig yn cael ei chynnwys yn llawn mewn mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm. Yn aml mae trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau, a phatrymau heriau tai yn gwaethygu natur gudd tlodi gwledig, sy'n golygu mai dim ond hyd at ryw raddau y gall mesurau syml adnabod y rheiny sydd mewn angen (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru [Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru bryd hynny], 2016). Yn y cyfweliadau ag awdurdodau lleol ar wella ysgolion nodwyd nad yw'r dangosydd eFSM yn cael ei ystyried yn un sy'n cofnodi anfantais yn ystyrlon yn y rhannau hyn o'r wlad.

> "Mae [eFSM] i'w weld yn gweithio'n dda mewn amgylchiadau dinesig, ond yn llai defnyddiol yn yr ardaloedd gwledig."

Profforma Awdurdod Lleol

> "Mae'n bosibl ei fod yn ddangosydd gwell mewn ardal drefol, ac nid dyma'r un dangosydd wrth edrych ar gefn gwlad. Hefyd, elfen waharddol arall sydd gennym yw byw wrth ymyl y môr. Mae hynny'n golygu nad oes gyda ni siroedd eraill o'n cwmpas i roi mynediad at wasanaethau. Felly mae'n debyg bod elfennau o gwmpas amddifadedd nad yw'r dangosydd hwnnw'n ei godi."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Soniodd un rhanddeiliad am yr angen i ystyried sut y caiff anfantais economaidd-gymdeithasol yn aml ei dwysáu gan ffactorau eraill sy'n llai adnabyddus ac a all arwain at anghydraddoldeb mewn canlyniadau. Ar yr un pryd, awgrymodd rhanddeiliad arall fod y data yn 'annigonol i gynrychioli croestoriad anfantais economaidd-gymdeithasol'. Adleisia hyn ganfyddiadau adroddiad ymchwil blaenorol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael, a'r adroddiad hwnnw yn trafod yr ystod o ffactorau sy'n gysylltiedig â'r 'bwlch cyrhaeddiad' ac yn dangos nad dim ond y rhai sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol, ond hefyd anghydraddoldebau iechyd, a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a hil ac AAA (Mills, 2021).

Nododd cyfweliad ag awdurdod lleol y gallai gorsymleiddio sy'n deillio o anwybyddu ffactorau eraill arwain at gymariaethau rhwng teuluoedd nad oes ganddynt o reidrwydd brofiadau neu sefyllfaoedd tebyg ac a allai fod ag anghenion cymorth sy'n wahanol.

Mae'r risg o orsymleiddio sy'n gysylltiedig ag eFSM hefyd wedi codi pryderon ymhlith rhanddeiliaid eraill, sy'n ofalus ynghylch gorddibynnu ar eFSM fel dangosydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Siaradodd y rhai a gafodd eu cyfweld ynghylch sut y defnyddiwyd eFSM nid yn unig fel procsi ar gyfer anfantais ond hefyd fel mesur pendant o anfantais ei hun. Gall dibynnu gormod ar brocsi fel eFSM ar ei ben ei hun ar wahân i ddangosyddion eraill anfantais economaidd-gymdeithasol, heb graffu ar ragfarn neu gyfyngiadau posibl, arwain at gamddarlunio anfantais economaidd-gymdeithasol.

> "Os nad ydych chi'n ofalus i gadw mewn cof yn gyson yr hyn y mae cael pryd ysgol am ddim yn ei olygu, gallwch chi gamarwain eich hun ynglŷn â'i ystyr. [O'm safbwynt

i] mae'n fesur uniongyrchol o anfantais addysgol, ac nid yw'n fesur o bwy sy'n agored i niwed a phwy sydd ddim yn agored i niwed… Os nad ydych chi'n ymwybodol o'r hyn y mae mesur yn ei olygu a beth yw ei gyfyngiadau, gallai arwain at rai sgil-effeithiau anffodus iawn [ynghylch] y ffordd y mae pobl yn ei ddefnyddio."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau ymchwil ar ddatblygu ecosystem data a gwybodaeth newydd a amlygodd y risg gynhenid o fesur drwy unrhyw ddangosydd cryno, gan argymell "y dylai rhanddeiliaid fod yn ofalus ynghylch rhoi gormod o bwys ar unrhyw ddangosydd unigol, eu hystyried yn eu cyd-destun priodol, a sicrhau eu bod yn brocsi digon agos i'r peth y maent yn ceisio'i ddeall."

Un o oblygiadau'r orddibyniaeth hon ar eFSM, o ystyried ei wendidau yn dwyn ynghyd agweddau perthnasol eraill ar anfantais, yw y gallai cyllid neu ddarpariaeth arall yn anfwriadol dargedu nifer annigonol, neu hyd yn oed yr unigolion anghywir, sydd fwyaf angen y gefnogaeth.

Mae goblygiad arall yn ymwneud â'r ymddygiad anfwriadol y gallai hyn ei greu mewn perthynas â gweithgarwch gwella ysgolion. Yn y cyfweliadau ag arweinwyr gwella ysgolion mewn awdurdodau lleol trafodwyd sut y gallai trin eFSM fel mesur pendant o anfantais yn hytrach na phrocsi ar gyfer incwm arwain rhanddeiliaid i ganolbwyntio ar wella perfformiad data yn hytrach na chanlyniadau a chynnydd dysgwyr.

"Mi gredaf mai neges bwysig i mi yw bod cael pryd ysgol am ddim yn fesuriad procsi o anfantais, ac yn aml mae'n cael ei ddehongli'n rhy llythrennol. Yn anffodus, rydyn ni'n gweld arfer gwael o'i gwmpas, a all orfodi ymddygiad anfwriadol hefyd mewn ysgolion lle maen nhw'n meddwl, y grŵp hwn o ddisgyblion, mae'n rhaid i ni wneud i'w data saethu i fyny."

Cyfweliad ag awdurdod lleol


## 3.4. Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd (UPFSM)

Edrychodd yr adran flaenorol ar farn rhanddeiliaid ynghylch cyfyngiadau eFSM, a bydd adran hon yr adroddiad yn rhoi ffocws mwy penodol ar ganfyddiadau ynghylch a yw cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd (UPFSM) yn effeithio ar gofrestru eFSM ac argaeledd data eFSM, yn ogystal ag unrhyw oblygiadau.

### Barn am effaith UPFSM

Ymhlith y 19 awdurdod lleol a ymatebodd i'r profforma, dywedodd 16 ohonynt eu bod wedi gweld effaith cyflwyno UPFSM ar gofrestriadau eFSM. Pan ofynnwyd iddynt am fanylion pellach am yr effaith, awgrymodd 10 eu bod wedi derbyn llai o geisiadau gan rieni nag y disgwylid, ac roeddynt yn priodoli hyn i gyflwyno UPFSM.

**Ffigur 3: Y farn am effaith cyflwyno UPFSM ar gofrestriadau eFSM**




Ffynhonnell: Profforma'r awdurdodau lleol (n=19)

Tynnodd rhai awdurdodau lleol sylw at bryderon ynghylch UPFSM, gan ei fod wedi achosi oedi mewn ceisiadau oherwydd bod pryd bwyd am ddim yn cael ei ddarparu i bob disgybl ysgol gynradd waeth beth fo'u cymhwystra, ac felly nid oes cymhelliant i rieni wneud cais. Roedd rhywfaint o bryder hefyd, oherwydd bod eu plant wedi derbyn pryd bwyd am ddim yn yr ysgol gynradd waeth beth fo'u statws, efallai na fydd rhai rhieni'n teimlo'r angen i wneud cais pan fydd eu plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd neu y byddant ond yn gwneud cais pan fydd gofyn iddynt wneud hynny i fod yn gymwys i gael grant, megis y Grant Hanfodion Ysgol.

> "Ar adegau mae rhieni'n gwneud cais dim ond ar ôl sylweddoli bod angen iddynt fod yn eFSM i gael hawl i'r Grant Hanfodion Ysgol ar gyfer gwisg ysgol ac offer."

Profforma Awdurdod Lleol

Cyflwynodd awdurdodau lleol dystiolaeth amrywiol yn ymwneud ag effaith UPFSM ar ffigurau eFSM. Cyfeiriodd un awdurdod lleol at enghreifftiau anecdotaidd o frodyr a chwiorydd o'r un aelwyd yn cael pryd ysgol am ddim trwy wahanol ffyrdd er bod y ddau yn yr ysgol gynradd (un trwy gyfrwng eFSM, y llall trwy UPFSM), gan ddangos anghysondebau a fydd yn arwain at dan-gyfrif. Ar ben hynny, tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith bod eu ffigurau wedi gostwng yn sylweddol mewn ffordd nad oedd yn adlewyrchu tueddiadau mewn amddifadedd yn eu hardal yn gywir.

> "Wrth gwblhau'r [CYBLD], rydym wedi sylwi y gallai rhieni sydd â mwy nag un plentyn fod ag un plentyn sydd wedi'i nodi yn ein system fudd-daliadau [fel eFSM]; fodd bynnag, nid yw'r brawd neu chwaer arall yn [eFSM] gan nad yw'r gwaith papur cywir wedi'i lenwi, gan fod plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim trwy UPFSM."

Profforma Awdurdod Lleol

> "Rydym wedi gweithio â'r tîm budd-daliadau, sydd wedi nodi nifer o deuluoedd sydd â hawl ond nad ydynt yn gwneud cais [ac] rydym yn credu mai'r rheswm nad ydynt yn gwneud cais yw oherwydd UPFSM. Mae ein eFSM wedi gostwng yn sylweddol o 2019, sy'n awgrymu bod ein lefelau o amddifadedd cymdeithasol hefyd wedi gostwng, ond rydym yn gwybod o ddangosyddion eraill amddifadedd nad yw hyn yn wir."

Profforma Awdurdod Lleol

Awgrymodd un ymatebydd ei bod hi'n bosibl fod ffigurau eFSM ar gyfer awdurdodau lleol a oedd wedi gorffen cyflwyno UPFSM yn llawn wedi gostwng yn gyflymach na ffigurau awdurdodau lleol eraill nad oeddent eto wedi cyflwyno UPFSM yn llawn. Fodd bynnag, roedd hyn yn anecdotaidd ac ni chafodd ei gadarnhau gan awdurdodau lleol a ymatebodd i'r profforma. Soniodd awdurdod lleol arall am ymdeimlad o fwy o effaith ar gofrestriadau eFSM mewn perthynas â dysgwyr yn y blynyddoedd cynnar a oedd wedi derbyn UPFSM mewn camau cynharach o gyflwyno UPFSM nag ym mlynyddoedd 3-6 neu ysgol uwchradd, pan nad oedd y polisi'n berthnasol.

> "Fe gredaf fod niferodd [yr awdurdod lleol] sy'n cael pryd ysgol am ddim wedi gostwng yn gyflymach nag awdurdodau lleol eraill, oherwydd bod yr UPFSM eisoes wedi'i gyflwyno i'r holl ysgolion cynradd, o'i gymharu ag eraill sy'n anelu at ei gyflwyno'n llawn ym mis Medi 24."

Profforma Awdurdod Lleol

> "Mae'n bosibl ei bod hi'n dal yn rhy gynnar i gadarnhau ag unrhyw sicrwydd yr effaith ar gofrestriadau eFSM yn sgil cyflwyno UPFSM; fodd bynnag, mae'r data rydym yn dechrau arsylwi arno yn awgrymu effaith negyddol... mae nifer y cofrestriadau eFSM newydd yn ystod y flwyddyn wedi lleihau'n sylweddol o ystyried data CYBLD mis Ionawr... mae'r gostyngiad yn llai yn yr ysgol uwchradd (dim UPFSM) a Blynyddoedd 3-6 (a gyflwynodd UPFSM yn ddiweddarach) nag yn y Meithrin i Flwyddyn 2, sydd wedi cael UPFSM am hirach."

Profforma Awdurdod Lleol

Er bod pryderon bod UPFSM yn cael effaith, gallai sawl ffactor arall a godwyd gan ymatebwyr fod wedi dylanwadu ar ffigurau eFSM hefyd.

Mae cryn bryder ymhlith awdurdodau lleol ynghylch effaith y canllawiau sy'n gysylltiedig ag Amddiffyn wrth Bontio (TP). Fel y nodwyd uchod, soniodd awdurdodau lleol am fwy o ddryswch ymhlith teuluoedd a gwarcheidwaid yn sgil Amddiffyn wrth Bontio.

> "Bu dryswch mawr mewn perthynas ag Amddiffyn wrth Bontio a phrydau ysgol am ddim i bawb, nid yw rhieni/gwarcheidwaid yn deall y gwahaniaeth rhwng pob categori a'r goblygiadau gwahanol."

Profforma Awdurdod Lleol

> "Gydag UPFSM, yn gymwys i FSM ac amddiffyniad wrth bontio FSM, mae'n ddryslyd iawn i ysgolion ac i lawer o fewn yr Awdurdod Lleol. Gan nad yw disgyblion o 1/1/24 bellach yn cael eu hamddiffyn wrth bontio, mae hyn yn ychwanegu at y dryswch."

Profforma Awdurdod Lleol

Roedd llawer o awdurdodau lleol hefyd yn priodoli mwy o ansicrwydd yn ffigurau eFSM yn sgil dryswch ynghylch sut y casglwyd ac y cofnodwyd y data ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael pryd ysgol am ddim drwy Amddiffyn wrth Bontio.

> "Mae effaith y canllawiau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn wrth bontio (TP) yn cael effaith fwy o bosibl na chyflwyno UPFSM o ran cyllid i deuluoedd, ysgolion ac awdurdod lleol [oherwydd newidiadau yn y niferoedd sydd wedi'u cofrestru]."

Profforma Awdurdod Lleol

Mae ffactorau dryslyd eraill a godwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys y canlynol:

- Dim diweddariad na diwygiad i'r meini prawf cymhwystra ers 2019, er gwaethaf newidiadau sylweddol yn amodau'r farchnad lafur a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, a allai fod wedi arwain at ostyngiad yn nifer y dysgwyr cymwys.
- Mae'n bosibl fod newidiadau mewn agweddau a stigma yn dilyn pandemig Covid-19 (ac yn benodol rhaglenni cymorth cenedlaethol fel y cynllun ffyrlo) wedi helpu i normaleiddio derbyn cymorth gan y llywodraeth, a thrwy hynny o bosibl gynyddu nifer y rhieni sy'n gwneud cais.
- Gall effeithiau posibl ymgyrchoedd ysgolion neu awdurdodau lleol i hyrwyddo ymgeisio am y Grant Hanfodion Ysgol a chofrestru fel eFSM arwain at dueddiadau gwahanol ledled awdurdodau lleol, yn dibynnu ar amseriad a llwyddiant yr ymgyrchoedd.

> "Mae gennym ni rai awdurdodau lleol sy'n dda iawn am gael pobl i wneud cais. Mae gennym ni awdurdodau lleol eraill lle nad ydyn nhw cystal, ac ar bapur, wedyn mae'n edrych fel petai'r amddifadedd yn symud [neu'n cynyddu] ac nid oes ganddo ddim i'w wneud ag amddifadedd."

Cyfweliad â chonsortia rhanbarthol

Dylid nodi nad oedd unrhyw awdurdod lleol wedi datgan eu bod wedi cynnal unrhyw ymchwil ffurfiol i effaith bosibl cyflwyno UPFSM na sut mae hyn yn ymwneud â ffactorau dryslyd posibl eraill. Felly, ni ellir priodoli yn hyderus unrhyw ostyngiad mewn cofrestru eFSM yn uniongyrchol i'r newid polisi hwn.

Ymhlith rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, yr ymdeimlad oedd un o bryder gofalus, gyda llawer yn adfyfyrio ar y pryderon a godwyd gan randdeiliaid eraill ac ar y dystiolaeth brin am yr effaith mewn ffigurau swyddogol. Fel y dangosir yn Adran 1 yr adroddiad, bu gostyngiad cyffredinol ymylol yng nghyfradd yr eFSM o 23.3% yn 2021/22 i 20.3% yn 2025.

## Goblygiadau

Roedd pryderon gan Lywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau hirdymor UPFSM ar gyfer olrhain canlyniadau dysgwyr, yn enwedig ar gyfer monitro'r Strategaeth Tlodi Plant.

> "Y peth sy'n ein poeni fwyaf yw'r gallu i adrodd ar y bwlch cyrhaeddiad…Gallwn [adrodd] am yr ysgol uwchradd, y dangosydd cenedlaethol TGAU, oherwydd ei fod yn dal i fodoli. Ond rwy'n credu ein bod yn edrych ar yr un ysgol gynradd, ac ni allwn ei ddefnyddio oherwydd nad yw'n bodoli mwyach."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau uniongyrchol eraill gan Lywodraeth Cymru, ac nid oedd rhai swyddogion yn rhagweld unrhyw oblygiadau i'w defnydd o ddata eFSM gan eu bod yn gweithio'n bennaf y tu allan i'r sector addysg gynradd. Er enghraifft, ni ddefnyddiai'r rhai a weithiai yn y maes ystadegau ôl-16 yn Llywodraeth Cymru nac yn Cymwysterau Cymru ddata yn ymwneud ag eFSM ar gyfer disgyblion oedran cynradd. Yn yr un modd, awgrymodd Cymwysterau Cymru fod problemau yn ymwneud ag Amddiffyn wrth Bontio wedi cael mwy o effaith ar eu gwaith, gan eu bod yn effeithio ar leoliadau cynradd ac uwchradd.

O ran awdurdodau lleol, cymysg oedd safbwyntiau ar oblygiadau effaith UPFSM ar eu defnydd o ddata eFSM. Awgrymodd rhai awdurdodau lleol nad oedd wedi effeithio ar eu defnydd o'r data, yn rhannol oherwydd eu bod yn meddwl ei bod hi'n rhy gynnar i nodi'r effaith neu eu bod yn teimlo mai dyma'n dal y ffynhonnell ddata orau.

> "Ar hyn o bryd, nid oes oblygiadau [i UPFSM] ar ddefnydd yr awdurdod lleol o ddata eFSM ar hyn o bryd gan mai dyma'r set ddata fwyaf dibynadwy o hyd ar gyfer nodi anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr."

Profforma Awdurdod Lleol

Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod effeithiau posibl cyflwyno UPFSM wedi'u cysylltu â phroblemau eraill, gan danseilio ei ddefnydd, yn enwedig yng nghyd-destun anfantais economaidd-gymdeithasol.

> "Credwn na fydd eFSM bellach yn gynrychiolaeth gywir o anfantais economaidd-gymdeithasol oherwydd colli achosion i UPFSM ac oherwydd nad yw trothwyon enillion wedi symud gyda'r oes."

Profforma Awdurdod Lleol

Awgrymodd sawl awdurdod lleol ei fod wedi effeithio ar eu hyder yn y data fel procsi dilys a dibynadwy. Nododd un awdurdod lleol fod hyn yn berthnasol i'w defnydd o'r data ar gyfer monitro canlyniadau dysgwyr, tra bod un arall wedi nodi y byddai annibynadwyedd y data yn effeithio ar sut y gellid ei ddefnyddio at ddibenion gwella ysgolion a monitro canlyniadau dysgwyr.

> “Mae’n codi cwestiwn ynghylch dilysrwydd dadansoddi data fel presenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad gan ddisgyblion FSM/rhai nad ydynt yn FSM.”

Profforma Awdurdod Lleol

> “Os gwelwn ostyngiad yng nghyfraddau ceisiadau am brydau ysgol am ddim, bydd hynny’n cael effaith ar ddibynadwyedd eu data o ran sut y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer [mesur] perfformiad, ond ar hyn o bryd, mae’n anodd dweud.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> “Fe gredaf ar hyn o bryd mai cymysg yw’r ymdeimlad o ran ei ddefnyddioldeb, ond hyd yn oed ar lefel uwchradd lle nad yw UPFSM mewn grym, prin yw’r defnydd lleol arno os ydych am fapio o’r sector cynradd i’r sector uwchradd, unrhyw gyrhaeddiad yn erbyn amddifadedd a phethau fel ’na.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Y pryder pennaf i awdurdodau lleol ynghylch gostyngiad yn y niferoedd oherwydd UPFSM, neu ffactorau dryslyd eraill yn wir, yw’r effaith bosibl y gallai ei chael ar wahanol fathau o gyllid i awdurdodau lleol ac ysgolion. Disgwylid i hyn ddod i’r amlwg trwy gamddyrannu posibl o gyllid i ysgolion ac awdurdodau lleol, yn ogystal â theuluoedd nad ydynt yn derbyn cyllid y maent yn gymwys i’w gael.

> “Mae’r gostyngiad yn ein ffigurau eFSM wedi cael effaith ddramatig ar y cyllid y mae [ysgolion] wedi’i dderbyn eleni, a bydd hynny’n cael effaith enfawr ar y gwasanaethau y byddant yn gallu eu darparu i bobl ifanc, yn enwedig o ran cymorth lles.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> “Os bydd UPFSM hirdymor yn cael effaith negyddol ar gofrestriadau eFSM, byddai hyn yn lleihau dibynadwyedd y set ddata hon ac yn cael effaith negyddol ar y cyllid y mae ysgolion a’r [awdurdod lleol] yn ei dderbyn o grant a’r [setliad llywodraeth leol]. Bydd yr effaith yn amrywio rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol.”

Profforma Awdurdod Lleol

I grynhoi, adroddodd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod yn credu bod gostyngiad wedi bod yn y niferoedd oherwydd cyflwyno UPFSM a rhoesant sawl rheswm i gefnogi’r farn hon. Fodd bynnag, awgrymwyd ganddynt hefyd na ellir gwahanu unrhyw effeithiau posibl oddi wrth ffactorau dryslyd eraill, ac nad yw ffigurau swyddogol wedi dangos unrhyw newid nodedig eto yng nghyfradd gofrestru gyffredinol yr eFSM. Mae rhai arwyddion ei fod wedi effeithio ar hyder defnyddwyr yn sgil pryderon ynghylch ei gywirdeb a’r goblygiadau hirdymor posibl ar gyllid a gwasanaethau i ddysgwyr. Mae’n rhy gynnar i wybod a yw wedi lleihau hyfywedd yr eFSM fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol, ac efallai y bydd angen ymchwil bellach.

## 3.5. Gwelliannau ac atebion parhaus

Mae'r adran hon yn ystyried y gweithgareddau y mae rhanddeiliaid yn eu gwneud ar hyn o bryd i wella data eFSM drwy ddarparu atebion i'r cyfyngiadau a drafodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad a lliniaru eu heffaith.

### Datrys heriau technegol wrth gasglu a chofnodi data

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, un o'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â'r heriau wrth gasglu data fu'r graddau o ddryswch ynghylch cofnodi statws amddiffyn wrth bontio a statws eFSM. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gamau ychwanegol yn rhan o broses ffurflenni CYBLD. Mae hyn yn cynnwys caniatáu mwy o amser i awdurdodau lleol gasglu a gwirio eu data cyn ei gyflwyno a datblygu dilysiadau ychwanegol i'r ffurflen ddata i nodi unrhyw anomaleddau neu allanolion posibl ar gyfer craffu ychwanegol yn awtomatig.

> "Mae ffenestr o chwe mis i gael pethau'n iawn, gyda llawer o wiriadau a chydbwyso. Mae hi'n broses ailadroddus. Rydym bob amser yn cymryd adborth [awdurdod lleol] ynghylch beth arall y gallwn ei wneud fel llywodraeth i sicrhau bod y data'n gywir."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Dull arall o oresgyn goblygiadau cofnodi data anghywir yw 'llyfnhau' y data drwy ddefnyddio cyfartaleddau sawl blwyddyn. Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull hwn i gyfrannu at Setliad Llywodraeth Leol.

### Mynd i'r afael â'r ffaith nad yw pob dysgwr cymwys wedi'i gynnwys

Disgrifiodd adrannau blaenorol yr adroddiad sut yr oedd amrywiol randdeiliaid wedi codi pryderon ynghylch peidio â chynnwys dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim. Rhoddodd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil sylwadau ar sut y gellid gwella'r dangosydd eFSM i fynd i'r afael â'r broblem hon, problem sydd o bosibl wedi'i dwysáu yn sgil cyflwyno UPFSM.

Trafododd nifer o randdeiliaid Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y potensial i gael mynediad at ddata budd-daliadau yn uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Pe baent yn gwneud hynny, byddent yn cael data ar bob dysgwr eFSM, nid dim ond y rhai y mae eu rhieni wedi gwneud cais am eFSM, a byddent yn osgoi problemau sy'n dibynnu ar fewnbwn â llaw yn y broses gasglu a chofnodi. Cydnabuwyd y gallai hyn olygu bod angen newid deddfwriaethol i roi'r pwerau i Lywodraeth Cymru roi'r broses ar waith, a bod angen trafodaeth ynghylch sut y gellid cyflawni hyn.

> "[Gwybodaeth uniongyrchol] o'r system fudd-daliadau yw'r allwedd i ddatgloi darlun mwy cywir. Mae angen i ni agor sgyrsiau ynghylch ble mae rhwystrau [i gael mynediad at y data] ac mae angen chwalu'r rhwystrau hynny."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Byddai'n system fwy cadarn pe gallem baru disgyblion ag incwm a budd-daliadau eu rhieni, er mwyn i ni allu ei ddefnyddio i ba bynnag drothwy yr hoffem ei gael ar gyfer Cymru. Byddai hynny'n tynnu llawer o risg allan o'r system ac yn ein gwneud yn llai dibynnol ar Loegr."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Byddai cael mynediad at ddata DWP yn galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio dull 'cofrestru awtomatig', gan osgoi'r heriau sy'n gysylltiedig â chael rhieni i ymgeisio. Mae math o gofrestru awtomatig yn cael ei dreialu mewn rhai ardaloedd yn Lloegr drwy ddefnyddio gwybodaeth am hawliadau Cymorth Treth y Cyngor (Cymdeithas Llywodraeth Leol 2025). Mae awdurdodau lleol yn defnyddio enw'r rhieni, eu rhif Yswiriant Gwladol a'u dyddiad geni i wirio a ydynt yn gymwys ar gyfer eFSM drwy ddefnyddio'r System Gwirio Cymhwystra ar-lein. Mae'r dull yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni eu gofynion o dan y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, ond hefyd yn osgoi'r heriau o ddibynnu ar rieni i wneud cais. Yna caiff y data cymhwystra hwn ei rannu ag ysgolion i sicrhau bod teuluoedd yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Fe'i defnyddir fel rhan o ffurflen ddata Cyfrifiad Ysgolion, er mwyn i ysgolion gael mynediad at gyllid sy'n adlewyrchu eu poblogaeth eFSM wirioneddol yn fwy cywir.

Mewn cyfweliadau ag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, nodwyd mai'r ddibyniaeth bresennol ar rieni yn gwneud cais yw un o'r prif ffactorau sy'n achosi peidio cynnwys dysgwyr. Pe bai'r dull hwn yn cael ei gadw, yna gallai adnoddau i gefnogi hyrwyddo ceisiadau eFSM ymhlith rhieni a chanllawiau cryfach a chliriach ar werth cofrestru eu plant fynd yn bell i liniaru'r effaith hon. Fodd bynnag, nid oedd y rhanddeiliaid yn ystyried bod hyn yn fawr o ateb i'r hirdymor.

## Mynd i'r afael â thanamcangyfrif tlodi

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos y problemau yn y ffordd y gall eFSM, fel mesur deuaidd syml sydd â throthwy cymhwystra isel y gellid dadlau nad yw wedi'i ddiweddaru ers rhai blynyddoedd, arwain at danamcangyfrif cyfraddau'r dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

Soniodd rhanddeiliaid am sawl ffordd o wella a mynd i'r afael â'r broblem hon o ddata nad yw'n cipio nifer sylweddol o ddysgwyr mewn angen, ac amrywiadau a all ddigwydd wrth i deuluoedd symud i mewn ac allan o fod yn gymwys. Roedd mynediad at ddata budd-daliadau DWP unwaith eto wedi'i godi gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion fel dull mwy cynhwysfawr, er y byddai hyn yn gofyn am waith dadansoddi ac ymdrech sylweddol i benderfynu'n union sut y gellid ei ddefnyddio ar lefel genedlaethol ac/neu leol:

> "Byddai cael mynediad at ddata unigol gan DWP a CThEF a chysylltu'r data hwnnw â CYBLD yn golygu y gallem gael diffiniad ehangach o anfantais gymdeithasol."

Profforma Llywodraeth Cymru

> "Rwy'n meddwl bod rhywbeth a allai fesur credydau treth gwaith i edrych ar gartrefi incwm isel iawn [lle mae'r preswylwyr] mewn gwaith â chyflog isel ... Sut ydyn ni'n

> cofnodi'r plant hynny sy'n byw mewn tlodi? Oherwydd ar hyn o bryd, maen nhw'n cael eu hanwybyddu."

Cyfweliad â staff ysgol

Un ateb i fynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn fyddai cynyddu trothwy incwm Credyd Cynhwysol ar gyfer cymhwystra i gael pryd ysgol am ddim er mwyn iddo gyd-fynd â datblygiadau economaidd ehangach a chwyddiant cyflogau, gan mai yn 2019 y cyflwynwyd CC. Byddai hyn yn sicrhau nad yw dysgwyr sy'n dal i fyw mewn tlodi cymharol yn mynd yn anghymwys er nad oes gwelliant yn incwm yr aelwyd. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar ei bod yn ymestyn cymhwystra yn Lloegr, a allai fynd i'r afael â'r broblem hon. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y bydd cwmpas uwch yn arwain at fwy o gefnogaeth ar ffurf cyllid.[23]

Dull arall a nodwyd gan randdeiliaid oedd addasu'r mesur eFSM fel nad yw'n ymwneud ag un pwynt mewn amser. Yn lle hynny, byddai'n cynnwys newidynnau cyfansawdd, megis eFSM 'Ever 6', sef bod dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cadw eu statws am 6 blynedd hyd yn oed os ydynt yn colli cymhwystra. Mae'r dull hwn yn ystyried tlodi hirdymor a chyfnodau symud i mewn ac allan o gymhwystra i'r teuluoedd hynny sydd ar y trothwy incwm:

> "Rydym wedi cael rhai sgyrsiau am ddefnyddio mesurau fel Ever-FSM neu wastad wedi bod yn eFSM fel dulliau amgen yn hytrach na dweud eu bod yn eFSM ar hyn o bryd."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

Rhoddodd sawl rhanddeiliad enghreifftiau o waith ganddynt yn profi effeithiolrwydd newidynnau cyfansawdd neu ychwanegol gan ddefnyddio data eFSM. Er enghraifft, canfu ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru fod defnyddio eFSM 'wastad wedi bod' (*ever*) ac 'erioed wedi bod' (*never*) yn rhagfynegyddion gwell o ganlyniadau yn ymwneud ag addysg bellach (na statws eFSM ym mlwyddyn 11 yn unig).

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch anghywirdebau posibl wrth gasglu data, defnyddiodd Llywodraeth Cymru, yn y fformiwla Setliad Llywodraeth Leol ddiweddaraf, ddata eFSM cyfartalog pedair blynedd a chynnwys y rheiny sy'n gymwys ar gyfer Amddiffyn wrth Bontio, tra yn flaenorol dim ond cyfartaledd tair blynedd o ddysgwyr eFSM prawf modd a ddefnyddiwyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio cyfartaleddau tair blynedd mewn rhai amgylchiadau at ddibenion ystadegol, megis data AWCDS neu Fy Ysgol Leol, tra bod Estyn hefyd yn defnyddio data tair blynedd wedi'i lyfnhau, gyda'r bwriad nid yn unig o liniaru effaith problemau gyda'r data yn ystod COVID-19 ond hefyd i ddarparu darlun mwy cyson i ysgolion. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw cyfartaleddau tair blynedd bob amser yn addas ym mhob achos, er enghraifft, wrth gysylltu'r data ar lefel disgyblion i edrych ar fylchau mewn cyrhaeddiad, gall cyfartaledd guddio newidiadau sydyn a phryderus mewn bylchau.

[23] Over half a million more children to get free school meals | GOV.UK

Roedd awgrymiadau eraill ynghylch y broses o gasglu gwybodaeth am eFSM yn cynnwys dyhead i gasglu gwybodaeth am eFSM ar lefel genedlaethol yn barhaus neu'n amlach, gan y byddai hynny'n galluogi cyfartaledd dros gyfnod o flwyddyn, yn hytrach nag un ciplun ar ddiwrnod CYBLD. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â phryderon ynghylch natur dymhorol incwm mewn gwahanol ardaloedd a byddai hefyd yn werthfawr ar gyfer dyrannu grantiau'n brydlon.

> "Mae angen i gasglu data fod yn ddata byw [wedi'i gasglu a chynhyrchu cyfartaledd yn rheolaidd]. Nid yw ei gael unwaith y flwyddyn yn syniad da."

Cyfweliad â staff ysgol

Yn ogystal, pan fo hyder wedi gostwng mewn data eFSM a diffyg data mwy soffistigedig ar gael, awgrymodd sawl arweinydd ysgol fod ysgolion yn gynyddol ddibynnol ar farn ymarferwyr wrth dargedu'r plant sydd fwyaf mewn angen. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod ysgolion fel arfer yn adnabod eu dalgylch lleol a'u teuluoedd yn dda, a bod athrawon yn brofiadol iawn o ran nodi tlodi ymhlith eu dysgwyr. Fodd bynnag, dim ond wrth fynd i'r afael â chyfyngiadau i'r data ar lefel ysgol yr oedd hyn yn effeithiol, yn benodol wrth nodi dysgwyr a rhoi cymorth wedi'i dargedu iddynt.

> "Rydym yn edrych ar ein carfan ac yn defnyddio'r 'wybodaeth' sydd gan ein staff am y teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw. Ni all [eFSM] fod yn siop un stop. Mae gwybodaeth ehangach y mae'n rhaid i ni ei defnyddio fel ysgol i gael golwg fwy cyfannol ar ein sefyllfa."

Cyfweliad â staff ysgol

## Lliniaru effeithiau canfyddedig UPFSM

Pan adroddai rhanddeiliaid am effeithiau yn codi yn sgil cyflwyno UPFSM, nodwyd sawl dull i liniaru'r effeithiau canfyddedig. Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau yn hysbysu rhieni y gall eu hysgol ofyn iddynt barhau i gofrestru eu plentyn i fod yn gymwys a'i bod wedi datblygu ymgyrch gyfathrebu 'Hawliwch Help gyda Chostau Ysgol' i'w hannog i wirio a ydynt yn gymwys fel ffordd o gael mynediad at gymorth grant fel y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r Grant Hanfodion Ysgol (SEG).

Yn ogystal â hyn, soniodd cynrychiolydd sawl awdurdod lleol ac ysgol am fuddsoddi mewn gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, annog teuluoedd i gofrestru a gwneud cais am statws pryd ysgol am ddim trwy hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, datblygu llythyrau templed i ysgolion eu dosbarthu i deuluoedd, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd i helpu i hybu ceisiadau am brydau ysgol am ddim:

> "Mae'r tîm budd-daliadau yn cysylltu â theuluoedd pan fyddant yn gwybod eu bod yn gymwys ac yn egluro iddynt, 'efallai na welwch chi fudd yn eich poced, ond bydd yn dod â mwy o arian i'r ysgol [trwy'r] Grant Datblygu Disgyblion. Mae gennych hefyd hawl i wneud cais am gymorth gyda gwisg ysgol ac offer ysgol'."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> “…annog pob rhiant, mewn diwrnodau pontio, nosweithiau rhieni ac ati [ond] yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio. Ei gwneud hi’n glir iddynt nad yw Credyd Cynhwysol yn eu gwneud yn gymwys, ac yna esbonio’r broses iddynt. Byddwn yn siarad ag awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod gennym y ffyrdd mwyaf cyfredol o wneud cais a’u cael i ddod i’r ysgol i’w helpu. Rydym yn cydnabod eu hawl i urddas ac yn rhoi opsiynau iddynt yn y gymuned i wneud [cais am eFSM], nid yn yr ysgol yn unig.”
>
> Cyfweliad â staff ysgol

Mae’r elusen a’r asiantaeth ymchwil NESTA hefyd wedi bod yn cynnal prosiect ochr yn ochr ag awdurdodau lleol Caerdydd, Caerffili a Thorfaen i dreialu dulliau o annog pobl i wneud cais am brydau bwyd am ddim yn dilyn cyflwyno’r ddarpariaeth i bawb (Beloe a Bone, 2023).

Mae rhanddeiliaid yn parhau i fod yn gadarnhaol, ond i raddau yn ansicr ynghylch pa mor llwyddiannus yw’r camau gweithredu hyn, yn rhannol oherwydd eu bod yn gyfyngedig yn y meincnodau y gallant eu defnyddio i asesu cyfran eu dysgwyr sydd mewn gwirionedd yn bodloni’r meini prawf ar gyfer cymhwystra i gael prydau bwyd am ddim.

## 3.6. Defnydd rhanddeiliaid o ffurfiau eraill o ddata economaidd-gymdeithasol

Mae’r atebion y mae rhanddeiliaid naill ai’n eu rhoi ar waith neu’n eu hawgrymu ynghylch data eFSM yn cynnig amrywiaeth o opsiynau defnyddiol, ond efallai mai dim ond hyd at ryw raddau y maent yn mynd i’r afael â’r cyfyngiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Felly, gofynnwyd i randdeiliaid hefyd pa ddata arall, os o gwbl, yr oeddent yn ei ddefnyddio i wella eu dealltwriaeth o anfantais economaidd-gymdeithasol. Dangosodd yr ymatebion eu bod yn defnyddio cymysgedd o ddangosyddion yn seiliedig ar ardal ac yn seiliedig ar unigolion ac aelwydydd.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros hyn oedd mynd i’r afael â chyfyngiadau yn anallu eFSM i ddal natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol a darparu gwybodaeth gyd-destunol sy’n fwy nag incwm yn unig. Teimlai’r rhan fwyaf o randdeiliaid hyn, ond roedd ysgolion yn arbennig o ofalus ynghylch dibynnu ar ddata eFSM ar ei ben ei hun, gan awgrymu y dylai fod yn un elfen mewn cyfres o ddulliau.

### Mesurau yn seiliedig ar ardal

#### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC/WIMD)

Ymhlith y rhanddeiliaid a nododd fesurau eraill yn seiliedig ar ardal, y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a enwyd amlaf. Cafodd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2019, ac mae’n rhestru ardaloedd bach (Ardaloedd Gynnyrch Ehangach Is neu LSOA) yn ôl lefelau

cymharol eu hamddifadedd lluosog. Ar gyfer MALIC 2019, roedd 1,909 LSOA[24] yng Nghymru gyda phoblogaeth breswyl o 1,600 ar gyfartaledd.

Mae'r mynegai yn fesur sy'n cymharu, gan restru ardaloedd o'r lleiaf difreintiedig i'r mwyaf difreintiedig. Nid yw'n mesur lefel yr amddifadedd o fewn ardal ond yn hytrach a yw ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'r data hwn ar gael yn gyhoeddus ar StatsCymru.

Mae safle ardal yn MALIC yn deillio o wyth math neu faes gwahanol o ran amddifadedd, ac mae'r mynegai wedi'i lunio o swm wedi'i bwysoli yn seiliedig ar sgôr amddifadedd pob un. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pa mor bwysig yw'r maes fel agwedd ar amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Dangosir y categorïau maes a'r pwysoliad cysylltiedig ar gyfer MALIC 2019 isod.

**Tabl 9: Pwysigrwydd cymharol meysydd unigol yn safleoedd MALIC 2019**

| Maes | Pwysoliad maes MALIC 2019 |
|---|---|
| Incwm | 22% |
| Cyflogaeth | 22% |
| Iechyd | 15% |
| Addysg | 14% |
| Mynediad i wasanaethau | 10% |
| Tai | 7% |
| Diogelwch cymunedol | 5% |
| Amgylchedd ffisegol | 5% |

Pan soniai rhanddeiliaid am ddefnyddio MALIC, defnyddir y safle/rancio cyffredinol a'r meysydd penodol. Mae'r pwysoli cymharol ar gyfer y maes incwm yn dangos y gred am bwysigrwydd ac ansawdd y dangosyddion cysylltiedig sy'n sail i'r rancio ar gyfer y maes hwnnw. Caiff ei gyfrifo o'r elfennau canlynol, gyda data yn deillio o DWP a CThEF:

- Hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm[25]
- Derbynwyr credyd treth[26]
- Pobl sy'n derbyn cymorth ceiswyr lloches
- Pobl ar Gredyd Cynhwysol

Dywedodd rhanddeiliaid eu bod yn defnyddio MALIC naill ai yn ogystal ag eFSM neu ar wahân iddo, gan eu bod yn teimlo ei fod yn cynnig set fwy cynhwysfawr o ddangosyddion

[24] Mae nifer yr LSOAs wedi cynyddu i 1917 o ganlyniad i ddiwygiadau i ddaearyddiaethau Ardaloedd Cynnyrch o ganlyniad i Gyfrifiad 2021.
[25] Mae hyn yn cynnwys nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n cynnwys Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn, a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.
[26] Nifer y plant ac oedolion mewn teuluoedd sy'n derbyn Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant sydd ag incwm sy'n llai na 60% o incwm canolrifol Cymru (Cyn Costau Tai).

am anfantais economaidd-gymdeithasol ac yn darparu mwy o wybodaeth gyd-destunol i ddiwallu eu hanghenion gwahanol.

Defnyddir MALIC gan Lywodraeth Cymru at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys:

- I gyfrannu at weithredu polisïau, megis mapio'r nifer sy'n defnyddio UPFSM yn erbyn data MALIC neu lywio targedu ymyriadau polisi.
- Ar gyfer ystadegau a monitro canlyniadau fel un o sawl ffactor wrth grwpio ysgolion yn deuluoedd fel rhan o'r AWCDS.
- Ar gyfer ystadegau a monitro canlyniadau, er ei fod wedi'i gynnwys yn y LLWR ac Ystadegau Addysg Ôl-16 eraill cysylltiedig.

Soniodd un cyfwelai yn Llywodraeth Cymru am sgyrsiau ynghylch dulliau seiliedig ar le i ymdrin â thlodi wrth ragweld y data MALIC nesaf sydd ar gael.

> "Rydyn ni'n cael mwy a mwy o sgyrsiau ynghylch [MALIC] sydd wedi ysgogi sgyrsiau diddorol iawn ynghylch sut rydyn ni'n cefnogi ardaloedd lleol yn hytrach na [thargedu] ysgolion a theuluoedd, sut rydyn ni mewn gwirionedd yn mynd i'r afael â thlodi… fel dull sy'n seiliedig ar le. Mae'n ddarlun ehangach ac nid yw'n ddibynnol ar bobl yn ymgeisio am eFSM."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Mae awdurdodau lleol hefyd yn gweld buddion defnyddio data MALIC i asesu anfantais economaidd-gymdeithasol, gan ei fod yn rhoi mwy o wybodaeth gyd-destunol. At ei gilydd, nododd naw awdurdod lleol yn y data yn y profforma eu bod yn defnyddio data MALIC yn eu sefydliad. Roedd y defnyddiau hyn yn cynnwys:

- Llywio a datblygu polisi (2 awdurdod lleol)
- Cyfrifo a dosbarthu cyllid (3 awdurdod lleol)
- Ystadegau a monitro canlyniadau (7 awdurdod lleol)

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar eu defnydd o MALIC, dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn defnyddio'r sail dystiolaeth i gymharu lefelau amddifadedd yn eu hardal â lefelau awdurdodau lleol eraill, naill ai ar sail gyfansawdd ar draws y saith dangosydd neu fesul dangosydd unigol. Defnyddir y pwyntiau cymharu ar lefel ward neu lefel LSOA i lywio dylunio ymyriadau polisi a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.

Mae MALIC yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyfrifo a dosbarthu cyllid ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n gysylltiedig ag elfen ariannu amddifadedd yn y dyraniad fformiwla ysgolion drwy'r Cyllidebau Ysgolion Unigol (ISB) ac mae hefyd yn chwarae rhan mewn perthynas â dosbarthu cyllid ar gyfer ADY. Mae rhai awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio fel mesur amddifadedd ochr yn ochr â FSM6 ar y Proffiliau Asesu Bregusrwydd (VAP).

Soniodd awdurdodau lleol hefyd fod MALIC yn rhoi tystiolaeth ystadegol iddyn nhw a'r ysgolion yn eu hardal ynghylch darlun ehangach amddifadedd ymhlith disgyblion yn hytrach na dibynnu ar incwm yn unig. Fe'i defnyddir i roi cyd-destun i fonitro presenoldeb a chyrhaeddiad (yn enwedig canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4) ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer arweinwyr gwella ysgolion.

Yn wir, mewn perthynas â gwella ysgolion, cred awdurdodau lleol fod MALIC yn cynnig adlewyrchiad cyffredinol mwy cywir o amddifadedd, yn well na data eFSM, ac y gellir ei ddefnyddio yn sail gwell i'r math o gefnogaeth sydd ei hangen. Credwyd mai dyma oedd yr achos, yn arbennig mewn awdurdodau lleol mwy gwledig, ac yn enwedig gan arweinwyr gwella ysgolion:

> "Mae MALIC yn fwy disgrifiadol. Mae gennych saith mesur yn hytrach nag un [ar incwm], rydym yn dadansoddi hwnnw [y profiad o anfantais economaidd-gymdeithasol] yn fwy ... [ac] mae'n llywio'r math o gefnogaeth y byddai angen i ni ei rhoi."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Mae MALIC yn debygol o fod yn well i ni [o ran gwella a chefnogi ysgolion]…mae'n ystyried tlodi arfordirol a gwledig pan fyddwch yn edrych mewn ystyr ehangach ar y pethau sy'n ymwneud â chyllid, fel teneurwydd poblogaeth."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Ymhlith ysgolion, defnyddir MALIC i nodi cymdogaethau o amddifadedd yn nalgylchoedd ysgolion. Gellir defnyddio hwn fel dangosydd ategol i eFSM ar gyfer nodi amddifadedd ymhlith teuluoedd, yn enwedig pan nad yw teuluoedd yn gymwys nac yn hawlio eFSM ac felly eu bod 'ar goll' o'r data.

> "Rydym yn defnyddio codau post sy'n cysylltu â mynegai amddifadedd lluosog Cymru ... o ran ceisio cael ffordd fwy cywir o ganfod tlodi trwy ddefnyddio MALIC. Rydym yn gwybod ein bod yn defnyddio mesur anfantais a ddefnyddir yn genedlaethol."

Cyfweliad â staff ysgol

Adroddodd rhanddeiliaid eraill hefyd eu bod yn defnyddio MALIC i ddarparu gwybodaeth ychwanegol na chesglir gan eFSM. Mae Cymwysterau Cymru yn gwerthfawrogi'r cyd-destun ychwanegol y mae'n ei gynnig ar ffactorau eraill sy'n berthnasol i anfantais, ond hefyd ei fod yn cynnig graddiant nad yw eFSM yn ei ddal ar hyn o bryd gan ei fod yn fesur cymwys/anghymwys deuaidd.

> "…mantais hwnnw [MALIC] yw eich bod chi'n cael mwy o'r graddiant hwnnw, y graddiant economaidd-gymdeithasol hwnnw oherwydd bod gan yr ardal sgôr a gallwch chi rannu'r dosbarthiad hwnnw'n ddegraddau neu beth bynnag rydych chi ei eisiau ac edrych ar sut mae canlyniadau [arholiad] yn amrywio ar draws degraddau neu ryw gwintel arall [o'ch dewis]."

Cyfweliad â Cymwysterau Cymru

Felly mae'n amlwg y defnyddir data MALIC i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion data a amlinellir yn yr adroddiad hwn ynghylch anfantais economaidd-gymdeithasol. Y prif reswm y'i defnyddir gan randdeiliaid, yn hytrach nag eFSM neu ochr yn ochr ag ef, yw bod y meysydd lluosog yn MALIC a'r gwahanol ddangosyddion sy'n sail i'r rhestr yn darparu gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol ar ystod o ffactorau sy'n berthnasol i anfantais. Maent hefyd yn gwerthfawrogi ei allu i gymharu ardaloedd daearyddol ac i roi cipolwg ar raddfeydd amddifadedd.

Nododd rhai rhanddeiliaid fuddion eraill MALIC fel ffynhonnell ddata, yn bennaf yn ymwneud â'r farn ei fod yn rhwydd cael gafael arni a'i fod yn cwmpasu Cymru gyfan.

Crybwyllwyd rhai anfanteision gyda MALIC hefyd. Un pryder ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion yw ei fod wedi dyddio. Fel yr amlinellwyd yn gynharach, fodd bynnag, mae cynlluniau i ddiweddaru MALIC gyda'r disgwyliad y bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2025/dechrau 2026.

Problem arall wrth ddefnyddio MALIC yw anhawster alinio dalgylchoedd ysgolion â data ar lefel ward LSOA, gan nad yw'r rhain yn dilyn yr un ffiniau gweinyddol yn llym. Yn yr un modd, nid yw pob dysgwr yn mynychu ysgol yn eu dalgylch, sy'n golygu nad yw sgôr gyfartalog MALIC dalgylch ysgol o reidrwydd yn adlewyrchu profiad anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith eu dysgwyr. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid nad yw data dalgylch ar gael yn awtomatig ac y byddai ei gyfrifo ar lefel genedlaethol yn heriol.

> "Rydym wedi edrych ar ddefnyddio MALIC fel dewis arall, ond mae'r Ardaloedd LSOA yn fach iawn a byddai'n rhaid eu mapio yn erbyn dalgylchoedd pob un o 1,457 ysgol y wlad."

Profforma Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Nododd awdurdodau lleol hefyd heriau gyda MALIC, gan nad yw'n cynnig data ar lefel ddigon manwl ar gyfer rhai gofynion ac ni ellir ei ddefnyddio i fonitro canlyniadau ar lefel unigolion. Yn yr un modd, fel dangosydd sy'n seiliedig ar ardal, ni all nodi pocedi bach o amddifadedd o fewn ardaloedd LSOA mwy cyfoethog na nodi dysgwyr sy'n agored i niwed.

> "Nid dangosydd ar lefel disgybl ydyw, felly mae'n anodd ei ddefnyddio o ran perfformiad a phresenoldeb."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Nid yw'n rhoi digon o wybodaeth i ni oherwydd ei fod yn seiliedig ar [ardal]. Ni chredaf fod hynny'n adlewyrchiad o amddifadedd oherwydd gallech chi gael cymysgedd go iawn…yn yr [ardal] honno."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

**Y Cyfrifiad**

Cyfeiriodd rhanddeiliaid hefyd at ddangosyddion y Cyfrifiad fel dull o gael gwybodaeth i asesu lefelau anfantais economaidd-gymdeithasol ar lefel leol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Fel uchod, budd y data hwn yw'r wybodaeth gyd-destunol ychwanegol y mae'n ei darparu ar draws amrywiaeth o ddangosyddion, a allai gyda'i gilydd fod yn gynrychiolaeth well o lefelau gwirioneddol tlodi ac anfantais ymhlith plant a phobl ifanc. Yn ogystal, fel arolwg ar lefel y boblogaeth, mae'r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am boblogaeth gyfan Cymru y tu hwnt i ddysgwyr yn unig.

Defnyddir data'r Cyfrifiad gan Lywodraeth Cymru fel mesur yn seiliedig ar ardal fel rhan o brofi'r dull ar gyfer fformiwla Setliad Llywodraeth Leol. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion gwahanol, sef Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SEC), lefelau cymwysterau, cyfansoddiad aelwydydd sydd â phlant dibynnol, amddifadedd aelwydydd[27] ac ethnigrwydd.

> "Rydym yn gweithio ar y fformiwla addysg a fformiwla'r gwasanaethau cymdeithasol ac rydym yn anelu at newid neu ddefnyddio setiau data gwahanol a newid y gyfran sy'n gysylltiedig â phob un o'r setiau data hynny i weld pa rai sydd â'r berthynas cysylltiad orau [ag amddifadedd]. Fel rhan o hyn, rydym yn defnyddio 9 dangosydd cyfrifiad gwahanol."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Gan ei fod yn cael ei gasglu bob 10 mlynedd, y prif gyfyngiad ar ddata'r Cyfrifiad yw ei fod yn digwydd mor anaml. Mae oedi sylweddol hefyd (tua dwy flynedd fel arfer) rhwng casglu data'r Cyfrifiad a chyhoeddi'r ystadegau, oherwydd ei gymhlethdod a maint yr adnoddau sy'n gysylltiedig â chasglu a dadansoddi data. Felly, er bod y data a ddarperir yn fanwl, gall ddyddio'n yn gyflym.

**Data'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**

Yn Llywodraeth Cymru, defnyddir data DWP yn sail i gynnal profion ar ddulliau ar gyfer cyllido'r Setliad Llywodraeth Leol, gan gynnwys gwybodaeth am gymorth incwm, lwfans ceisio gwaith, a hawlwyr credyd pensiwn neu Gredyd Cynhwysol (heb fod mewn cyflogaeth).

Yn ogystal, defnyddiwyd ystadegau Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) yr Adran Gwaith a Phensiynau i lywio gwaith ar drechu tlodi fel prif ddangosydd lefelau tlodi. Cesglir y data hwn ar lefel yr aelwyd, ac nid yw'n datgelu manylion personol – sy'n golygu na ellir ei gysylltu ag unigolyn – a rhaid ei dalgrynnu i'r 100,000 o bobl agosaf. Er na awgrymwyd bod

[27] Mae amddifadedd aelwydydd yn cynnwys y cartrefi hynny lle, os nad oes gan neb addysg lefel 2 o leiaf yn y dimensiwn addysg ac nad oes neb rhwng 16 a 18 oed yn fyfyriwr llawn amser. Caiff aelwyd ei dosbarthu yn un ddifreintiedig yn y dimensiwn cyflogaeth os yw unrhyw aelod, nad yw'n fyfyriwr llawn amser, naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar oherwydd salwch neu anabledd hirdymor. Mae yna ddimensiynau iechyd a thai hefyd. Mae data ar gael yn gyhoeddus ar nifer y dimensiynau amddifadedd fesul aelwyd yn hytrach na natur y dimensiwn hwnnw.

hyn yn cynnig manteision dros eFSM yn y profforma, mae wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o adrodd am dlodi cenedlaethol ledled Cymru, y tu hwnt i ddysgwyr yn unig.

Nododd un awdurdod lleol hefyd eu bod yn defnyddio data budd-dal tai i wirio ymhellach pa aelwydydd a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer eFSM. Gall darparu rhestr o ddisgyblion a allai fod yn gymwys i gael prydau bwyd am ddim nad ydynt yn hawlio ar hyn o bryd gynorthwyo ymyriadau sy'n targedu a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth, gan hyrwyddo gwneud cais am brydau bwyd ysgol am ddim. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw data'r DWP ar gael ar lefel aelwydydd gan fod yn rhaid ei dalgrynnu (fel uchod) ac mae angen ymdrech sylweddol gan yr awdurdodau lleol i gael mynediad iddo.

**Data Acorn neu CACI**

Soniodd dau awdurdod lleol am ddefnyddio data Acorn i fesur dosbarthiad amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae Acorn yn defnyddio cyfuniad o Gyfrifiad 2021 a data tai (math o eiddo, nifer yr ystafelloedd, deiliadaeth, pris tŷ) i segmentu'r boblogaeth yn ôl Categori (7 segment), Grŵp (22 segment) a'r Math (65 segment). Mae'r dadansoddiad ar gael ar lefel cod post, gan gwmpasu hyd at 80 o aelwydydd, ac felly mae wedi'i dargedu'n fwy daearyddol nag ardaloedd LSOA MALIC.

> "[Fe'i defnyddir i gymharu] lefel amddifadedd yr awdurdod lleol ag awdurdodau eraill yn seiliedig ar nifer o ddangosyddion gan gynnwys cyflogaeth, addysg a thai."

Profforma Awdurdod Lleol

Ni roddodd ymatebwyr y profforma lawer o wybodaeth am ddefnyddioldeb cymharol y set ddata hon, er iddynt nodi yn eu hymatebion, fel set ddata fasnachol, fod rhai elfennau negyddol i'r costau cynhenid sy'n gysylltiedig â'i defnyddio.

**Dechrau'n Deg**

Mae Dechrau'n Deg yn ymyrraeth bolisi allweddol gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi teuluoedd sydd â phlant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Dewiswyd ardaloedd Dechrau'n Deg drwy ategu data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru gyda data eFSM, nifer y plant ag ADY, nifer y plant sy'n gymwys ar gyfer grantiau gwisg ysgol, nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol a nifer yr aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau gostyngiadau treth y cyngor (Llywodraeth Cymru, 2024). Dengys hyn sut y gellir defnyddio eFSM fel rhan o gasgliad o ddangosyddion i roi gwell golwg gyffredinol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, yn yr achos hwn i lywio ymyrraeth polisi. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn weithiau'n creu 'loteri cod post' wrth gynnig cefnogaeth.

> "Rydym hefyd yn ymwybodol o ymyriadau yn y sector Blynyddoedd Cynnar (e.e. Dechrau'n Deg) sy'n seiliedig ar ardaloedd MALIC, sydd, er ei fod yn brocsi defnyddiol, yn cyflwyno ei broblemau ei hun o ystyried y duedd i greu loteri cod post."

Profforma Llywodraeth Cymru

## Mesurau yn seiliedig ar yr unigolyn neu'r aelwyd

Yn ogystal â'r amrywiol fesurau sy'n seiliedig ar ardal a drafodwyd uchod, cyfeiriodd rhanddeiliaid at gyfres o fesurau sy'n seiliedig ar unigolion neu aelwydydd. Defnyddir deiliadaeth aelwydydd, er enghraifft, gan Lywodraeth Cymru fel ffactor perthnasol wrth fynd i'r afael â rhwystrau i gyrhaeddiad. Awgrymwyd ganddynt y dylai rhai ysgolion a phartneriaid yn y trydydd sector fonitro deiliadaeth aelwydydd, gan fod teuluoedd mewn llety rhent i'w gweld gan ysgolion fel rhai sydd mewn tlodi ac angen cymorth.

Adroddodd rhai awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr ymchwil eu bod yn defnyddio data ychwanegol i wneud iawn am sawl gwendid eFSM, yn enwedig y stigma sy'n gysylltiedig â gwneud cais am eFSM, a defnyddio'r data hwn i lywio targedu cymorth yn well. Pan oedd banc bwyd mewn ysgolion, gallai awdurdodau lleol ddadansoddi'r defnydd i'w hysbysu am angen posibl. Ar yr un pryd, cyfeiriodd rhai ysgolion hefyd at geisiadau am wisg ysgol am ddim ac adroddiadau anecdotaidd o'r gymuned.

> "Dydyn ni ddim wir yn defnyddio eFSM fel dangosydd o dlodi nawr. Rydyn ni'n defnyddio pethau eraill fel y cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd… sy'n rhoi syniad llawer gwell i ni o'r angen."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Defnyddir data arall ar ymddygiad dysgwyr hefyd wrth wella ysgolion a dyrannu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr, megis nifer cyfeiriadau cartref a gwaharddiadau. Nododd dau arweinydd gwella ysgolion fod symud ysgol sawl gwaith yn ystod y flwyddyn, yn benodol, yn brocsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol:

> "Os bydd symud ysgol yn digwydd yn aml, dair gwaith yn ystod 5 mlynedd cyntaf eu haddysg, mae hynny'n awgrymu y gallai sefyllfa tŷ neu gartref y teulu fod yn un dros dro [a bod] lefel o darfu teuluol [sy'n awgrymu anfantais economaidd-gymdeithasol]."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Dywedodd un ysgol eu bod wedi datblygu metrig cyfansawdd pwrpasol ar lefel unigolyn i nodi risg ac adnabod yn well y dysgwyr hynny a allai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd y mesur hwn yn triongli ystod o newidynnau sydd eisoes ar gael i ysgolion, megis eFSM, MALIC, a chodau post Dechrau'n Deg, a phlant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â chanlyniadau dysgwyr megis ymddygiad a phresenoldeb, i adlewyrchu natur gymhleth anfantais economaidd-gymdeithasol yn well yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar un procsi incwm.

> "Pan fyddwn ni'n edrych ar osod targedau ar gyfer y plant hynny [ac] ymyrryd, byddwn yn edrych ar eu gallu gwybyddol, ond wrth ymyl hynny rydyn ni'n edrych ar eu mesur risg [gan dynnu ar y gyfres o ddangosyddion a amlinellwyd uchod] ac rydyn ni'n adeiladu ein hymyriadau o amgylch hynny. Mae wedi bod yn rhyfeddol, ac mae wedi bod yn un o'r pethau rydyn ni wedi'i wneud sydd wedi cael mwy o effaith uniongyrchol ar blant o fesur anuniongyrchol nag unrhyw beth arall."

Cyfweliad â staff ysgol

Yn wir, ystyriwyd bod defnyddio cyfuniad o ddangosyddion yn ffordd fwy cywir o adnabod dysgwyr agored i niwed na dibynnu'n llwyr ar eFSM yng nghyd-destun UPFSM.

> "Dyw eFSM ar ei ben ei hun, yn enwedig yn y sector cynradd, ddim yn golygu llawer nawr, oherwydd mae'n lwc pur os ydyn nhw wedi gwneud cais amdano, ond drwy edrych ar ychydig o bopeth... o leiaf mae hynny'n rhoi gwell dealltwriaeth i chi... ble mae'r plant difreintiedig y dyddiau hyn."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Mae'r adran hon wedi dangos bod gwahanol randdeiliaid sy'n ymwneud â darparu addysg yn defnyddio ffynonellau data eraill sydd ar gael er mwyn diwallu eu hanghenion amrywiol. Thema gyffredin sy'n rhedeg drwyddo i gyd yw eu bod yn gwneud hynny i fynd i'r afael â chyfyngiadau eFSM fel mesur unigol, amherffaith o incwm isel ac i ddarparu mwy o wybodaeth gyd-destun am anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr a'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb mewn canlyniadau addysgol.

## 3.7. Gofynion rhanddeiliaid ac ystyriaethau eraill

Mae'r adran hon yn pwyso ar ddirnadaethau o adrannau blaenorol yr adroddiad. Mae'n crynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid ar eu gofynion ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol, naill ai er mwyn goresgyn cyfyngiadau eFSM neu i wella mesur yr anfantais yn gyffredinol i ddiwallu eu hanghenion. Mae hefyd yn ystyried y rhwystrau posibl a goblygiadau unrhyw ddulliau amgen a sut y gellid hwyluso unrhyw newid.

### Gofynion rhanddeiliaid

Nododd rhai swyddogion Llywodraeth Cymru nad oedd ganddynt unrhyw farn gref ar ddiwygiadau i eFSM nac ar gyflwyno data anfantais economaidd-gymdeithasol newydd, yn enwedig gan nad yw eu defnydd uniongyrchol yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion neu ardal leol, er enghraifft, pan nad yw'n gysylltiedig â chyllid, megis wrth fonitro canlyniadau.

Yn yr un modd, er bod cydnabyddiaeth eang ymhlith cynrychiolwyr awdurdodau lleol o gyfyngiadau eFSM, ychydig oedd â chynlluniau i gael gafael ar ddata pellach y tu hwnt i'w defnydd presennol o eFSM neu fesurau anfantais economaidd-gymdeithasol eraill a amlinellwyd mewn adrannau cynharach.

Yn hytrach, roedd ymatebion awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnal a gwella eu dulliau presennol o fesur anfantais economaidd-gymdeithasol.

> "Mae'n ymwneud â monopoleiddio ar y systemau [cyfansawdd o ddangosyddion gan gynnwys eFSM a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol] sydd gennym eisoes a sicrhau eu bod yn gadarn ac nad oes unrhyw bobl ifanc yr ydym yn methu sylwi arnynt."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Yn wir, ymhlith rhanddeiliaid sy'n defnyddio data arall ar anfantais economaidd-gymdeithasol, maent yn gyffredinol gyfarwydd â'r ffynonellau hyn, ac mae ganddynt ddulliau a thechnegau penodol i wneud y gorau o'r hyn sydd ar gael. Roedd mwyafrif y rhai a

gymerodd ran drwy'r ymchwil a ddefnyddiai data a oedd yn bodoli eisoes wedi canolbwyntio mwy ar ddefnyddiau pragmatig o'r hyn oedd ar gael iddynt yn hytrach nag ar ddyfalu ehangach ynghylch pa fathau eraill o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol.

Roedd teimlad hefyd ymhlith rhai rhanddeiliaid, gan fod eFSM yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ac wedi'i ymgorffori yn llawer o'u dulliau i fesur anfantais economaidd-gymdeithasol ers amser maith, fod graddfa'r ddibyniaeth arno a data arall sydd ar gael ar hyn o bryd yn golygu nad oedd llawer yn ymwybodol ac/neu'n gallu mynegi eu gofynion data penodol.

> "Ar lefel bersonol, dydw i ddim yn gwybod am unrhyw beth ychwanegol a fyddai'n ddefnyddiol."
>
> Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "Mewn rhai ffyrdd, mae'n gwestiwn anodd i'w ateb oherwydd byddwn yn defnyddio beth bynnag yw'r mesur diofyn a argymhellir… pa olwg bynnag sydd ar y dangosydd hwnnw, dyna'r un y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y dadansoddiad hwnnw. Felly mewn rhai ffyrdd, does dim ots beth yw'r dangosydd."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Fodd bynnag, drwy ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r profformâu a'r cyfweliadau, cafwyd rhywfaint o fewnwelediad i'r mathau o ddata a'u nodweddion penodol y mae rhanddeiliaid yn teimlo y byddent fwyaf gwerthfawr neu briodol i ymateb i'w hanghenion amrywiol a'u diwallu.

Mae manylion hyn ar gyfer pob rhanddeiliad mewn tablau yn yr Atodiad Technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn. Dylai'r darllenydd edrych ar y tablau hyn i ddeall anghenion rhanddeiliaid yn well, ond dylid hefyd nodi, gan eu bod wedi'u llunio yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yn unig, nad ydynt yn darparu darlun terfynol. Mae crynodebau o'r tablau hyn wedi'u cynnwys isod.

**Llywodraeth Cymru**

Mae Atodiad Technegol Tabl 1 yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae cytundeb cyffredinol ynghylch pa mor bwysig yw hi fod y data yn ddealladwy i gefnogi ymgysylltiad a hyder y cyhoedd yn y broses bolisi, yn ogystal â thryloywder wrth ddosbarthu cyllid. Mae hyn hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau y gall timau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid perthnasol ddadansoddi a defnyddio data yn effeithiol.

At y rhan fwyaf o ddibenion, mae data amserol, wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd, yn bwysig i swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefelau anfantais ac yn cyfateb i'r amlder y mae ei angen ar gyfer gwaith dadansoddi neu gyfrifiadau cyllid. Mae barn hefyd bod sefydlogrwydd a'r gallu i gymharu data yn bwysig, yn bennaf ar gyfer olrhain carfannau o ddysgwyr, yn enwedig wrth werthuso llwyddiant ac effaith mentrau cenedlaethol.

Mae manylder data yn cynnwys dwy elfen: y cyntaf yw gwrthrych y data, sy'n cyfeirio at bwy neu ba wybodaeth y cofnodwyd amdano. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru ledled yr

holl ddibenion mai eu dewis yw i hyn fod y dysgwr unigol, gan mai o hyn y gellir gwneud y penderfyniad mwyaf cywir ar lefel a dosbarthiad anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae ail elfen y manylder yn ymwneud â'r lefel ddaearyddol y caiff data ei agregu iddo. Yma, mae rhywfaint o amrywio yn dibynnu ar y defnydd a wneir o'r data hwnnw o fewn Llywodraeth Cymru:

- Llywio a datblygu polisi; hanfodol ar y lefel genedlaethol
- Cyfrifo a dosbarthu cyllid; hanfodol ar lefel dalgylch yr ysgol
- Ystadegau a monitro canlyniadau; hanfodol ar lefel unigolion/ysgol

Yn ogystal, mae mynediad at wybodaeth ar lefel y dysgwr unigol yn hanfodol ar gyfer cywirdeb unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys cysylltu data, boed drwy ADRU neu sefydliadau eraill. Roedd cydnabyddiaeth, er enghraifft, wrth i swyddogaeth Ystadegau Addysg Ôl-16 drosglwyddo i fod yn rhan o Medr, fod yn rhaid iddynt barhau i gael mynediad at ddata ar lefel y dysgwr unigol i alluogi eu gwaith o ddatblygu set ddata addysg gyfatebol, llunio'r LLWR ac unrhyw ddadansoddiad pellach, a monitro canlyniadau ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Ar draws pob diben, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar ddata ar incwm yn deillio o brocsi fel yr eFSM. Mae tystiolaeth hefyd bod rhai yn cael mynediad at ac/neu'n dymuno cael mesurau incwm mwy uniongyrchol, megis data budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a HBAI, i fynd i'r afael â chyfyngiadau eFSM gan nad yw hwnnw'n cynnwys pob person cymwys a'i fod yn tanamcangyfrif lefelau tlodi oherwydd ei fod yn fesur syml, deuaidd sy'n gysylltiedig â throthwyon penodol. Yn ogystal, mynegodd swyddogion sy'n bennaf gyfrifol am gyllid ddyhead i gael mwy o wybodaeth am incwm rhieni/gwarcheidwaid dros gyfnod hirach o amser, yn hytrach nag ar un adeg yn unig, er mwyn galluogi dealltwriaeth o dlodi parhaus.

Mae'n amlwg o'u myfyrdodau ar gyfyngiadau eFSM ac o'r hyn sy'n gyffredin yn eu defnydd o fathau eraill o ddata fod dyhead hefyd am fwy o wybodaeth gyd-destunol atodol i helpu swyddogion y Llywodraeth i ddeall anfantais economaidd-gymdeithasol yn well. Mae hyn yn cynnwys y ffactorau amrywiol sy'n effeithio ar ddysgu ac y dylid mynd i'r afael â nhw i ymateb i anghenion dysgwyr. Yn arbennig, mae hyn yn amlwg yn y ffordd y mae swyddogion y Llywodraeth yn defnyddio data MALIC a'r Cyfrifiad, gyda rhai'n ceisio archwilio cyfansoddion sy'n cynnwys gwahanol fathau o wybodaeth. Dywedodd un:

> "Rydyn ni'n gwneud llawer o waith yn ceisio pennu pa fath o lefelau o dlodi cymharol sydd mewn ardal, ond mae hynny'n dibynnu ar gyfrifiadau yn ymwneud â chyflogau a chostau tai, ac mae'n mynd yn gymhleth iawn yn gyflym iawn. Felly byddai rhyw fath o ddangosydd [cyfansawdd] o'r lefelau tlodi cymharol [gan ystyried gwahanol agweddau ar anfantais economaidd-gymdeithasol] mewn ardal yn fwy defnyddiol."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Amrywio y mae'r graddau y mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn pwysleisio cael gwybodaeth gyd-destunol arall, gyda'r rheiny sy'n ymwneud â datblygu polisïau, cyfrifo a dosbarthu rhai mathau o gyllid (e.e., Setliad Llywodraeth Leol), ac ystadegau a monitro yn

adrodd y diddordeb mwyaf. Yn arbennig, awgryma eu barn ar agweddau eraill ar anfantais fod angen daearyddiaethau ar lefel unigol ac ar lefel ardal.

Er nad yw wedi'i gynnwys yn y tabl, mae dilysrwydd y lluniad (*construct validity*) yn cyfeirio at ba mor gywir y mae data'n cipio'r ffenomenau y mae'n honni eu mesur (yn yr achos hwn, pa mor gywir y mae'r dangosydd yn adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr). Ystyrir bod hyn naill ai'n bwysig iawn neu'n bwysig waeth beth fo'r diben y defnyddir y data ar ei gyfer.

**Awdurdodau lleol**

Mae Atodiad Technegol Tabl 2 yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer awdurdodau lleol.

Ar draws llawer o'r dibenion y maent yn defnyddio data ar eu cyfer, nid yw awdurdodau lleol bob amser yn ystyried bod pa mor ddealladwy yw data yn nodwedd arbennig o bwysig. Mae hyn oherwydd ei fod yn aml yn cael ei ddefnyddio'n fewnol o fewn sefydliadau. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r angen i fod yn ddealladwy ac oherwydd y tryloywder yn sgil cael y cyhoedd i'w ddeall, ac i sicrhau bod data'n cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio a'i gyfleu'n briodol.

Ac eithrio mewn lleiafrif o achosion, fel llywio a datblygu polisi sydd fel arfer yn gweithredu ar gylchoedd dwy i bum mlynedd, ystyrir bod amseroldeb yn nodwedd bwysig/pwysig iawn. Yn gyffredinol, nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y dylid ei ddarparu'n flynyddol ar y lleiaf. Fodd bynnag, mae'r dyhead yn fwy cyson ymhlith awdurdodau lleol na swyddogion Llywodraeth Cymru i ddata fod ar gael yn fwy rheolaidd, gan amlaf mor aml â phob tymor neu hyd yn oed bob mis. Mae hyn yn adlewyrchu'r graddau y mae cylch gwaith cynrychiolwyr awdurdodau lleol, yn enwedig drwy wella ysgolion, yn cynnwys cyfrifoldeb am adnabod dysgwyr mewn angen ac yna ymateb drwy ddarparu cefnogaeth.

Cymysg yw'r farn ynghylch sefydlogrwydd a'r gallu i gymharu, gan yr ystyrir bod hyn yn llai pwysig at ddibenion y rhan fwyaf o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, fe'u hystyrir yn bwysig ar gyfer gwaith sy'n cynnwys monitro cynnydd dysgwyr a meincnodi canlyniadau yn erbyn awdurdodau eraill ac ysgolion yn eu hardaloedd.

Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ledled pob diben eu bod yn ffafrio manylder data ar lefel y dysgwr unigol, gan mai o hyn y gellir cyflawni'r penderfyniad mwyaf cywir o ran lefel a dosbarthiad anfantais economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, amrywio y mae lefel ddaearyddol yr agregu sy'n ofynnol ar draws y gwahanol ddibenion y mae angen y data ar eu cyfer, fel a ganlyn:

- Llywio a datblygu polisi; hanfodol ar lefel awdurdod lleol, LSOA yn ddymunol
- Cyfrifo a dosbarthu cyllid; hanfodol i ddalgylch ysgol
- Darparu cymorth wedi'i dargedu; hanfodol i ddalgylch ysgol
- Ystadegau a monitro canlyniadau; lefel unigolion

I'r arweinwyr hynny sy'n gweithio ym maes gwella ysgolion, mae data ar lefel dalgylch yr ysgol a lefel dysgwyr unigol yn hanfodol.

Yr un fath â Llywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn rhoi pwyslais mawr ar fynediad at ddata incwm drwy brocsi, fel eFSM. Ceir tystiolaeth hefyd bod rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn dymuno cael mesurau incwm mwy uniongyrchol, gan ddefnyddio data budd-daliadau DWP a HBAI, oherwydd eu bod yn teimlo bod hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r cyfyngiadau a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn ac yn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o nifer y dysgwyr sy'n profi tlodi cymharol.

Soniodd rhai am bwysigrwydd dull mwy 'haenog' yn ymwneud ag incwm er mwyn dogfennu graddfeydd neu anfantais mewn modd tebyg i MALIC, ond drwy ddefnyddio lefelau gwirioneddol yn hytrach na graddio wrth gymharu â lleoliadau eraill. Codwyd hyn gyda golwg benodol ar ddarparu gwybodaeth am bobl dlawd sy'n gweithio a chredir ei fod yn cynorthwyo i lywio a llunio polisi, yn ogystal â thargedu a theilwra cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion.

> "Mae'n debyg mai un o'n pryderon fyddai nid o reidrwydd y bobl hynny sy'n gymwys i gael pryd bwyd am ddim, ond y rheiny sy'n gweithio ond yn dal yn dlawd a sut y gallem fesur hynny rywsut."
>
> Cyfweliad ag awdurdod lleol

Nododd cyfranogwyr eraill ar draws gwahanol elfennau ar swyddogaethau awdurdodau lleol hefyd eu bod angen mwy o wybodaeth am incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar adeg benodol, er mwyn iddynt fedru deall y dysgwyr hynny yn well a'r nifer sy'n byw mewn tlodi dwfn neu barhaus ac y gellir eu hystyried fel y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Mae'n amlwg o fyfyrdodau ar gyfyngiadau data eFSM, ac o'r defnydd a wnaed ganddynt o ffurfiau eraill o ddata neu ddangosyddion sydd eisoes ar gael iddynt, fod dyhead am fwy o wybodaeth gyd-destunol atodol i helpu awdurdodau lleol i ddeall anfantais economaidd-gymdeithasol yn well. Mae hyn yn fwyaf amlwg yn eu defnydd o MALIC, ond hefyd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn defnyddio data ar dai (ACORN/CACI), NS-SEC, cymwysterau aelwydydd, ac iechyd, ac ati, a hynny mewn rhai achosion, drwy gyfansoddion. Fe'i defnyddir i archwilio ffactorau sy'n effeithio ar ganlyniadau dysgwyr ac ysgolion ac i dargedu cefnogaeth i ddysgwyr mewn ffyrdd sy'n ystyried gwahanol anghenion, gan gynnwys y rhai sy'n benodol i elfennau gwledig.

Caiff dilysrwydd y lluniad, lle mae data yn cipio neu'n disgrifio'n gywir yr hyn y mae'n honni ei fesur, ei ystyried yn bwysig neu'n bwysig iawn, waeth beth fo'r diben y caiff ei ddefnyddio ar ei gyfer.

**Ysgolion**

Mae Atodiad Technegol Tabl 3 yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer ysgolion.

At ddiben cyffredinol monitro a meincnodi canlyniadau dysgwyr, mae cynrychiolwyr ysgolion yn ystyried bod hwylustod deall data yn bwysig, gan sicrhau y gellir ei ddadansoddi a'i ddefnyddio'n briodol, yn enwedig gan fod hyn yn llywio agweddau eraill ar wella ysgolion, yn enwedig y rhai sydd â dysgwyr agored i niwed.

Cred ysgolion fod amseroldeb data yn bwysig ar gyfer monitro a meincnodi, gan nodi'r angen iddo fod yn gyfredol ac yn cyd-fynd ag amseriad data canlyniadau (e.e. asesiadau ysgol a TGAU). Ystyrir ei fod hefyd yn angenrheidiol wrth adnabod dysgwyr agored i niwed a darparu cefnogaeth, er mwyn sicrhau bod y data a ddefnyddir yn adlewyrchu'r anghenion cyfredol yn y ffordd fwyaf cywir.

Mae ysgolion o'r farn y dylid sicrhau bod data ar gael o leiaf yn flynyddol, ond, yn wahanol i grwpiau rhanddeiliaid eraill, mae mwy o bwyslais ar gael mynediad ato bob tymor neu'n fisol i gynyddu ymatebolrwydd y gefnogaeth i ddysgwyr.

Ystyrir ei bod hi'n bwysig cael data sy'n sefydlog a bod modd ei gymharu ar gyfer monitro neu olrhain cynnydd dysgwyr yn barhaus, meincnodi ystyrlon ar draws ysgolion, a chefnogi gwerthuso.

O ran manylder, cytuna cynrychiolwyr ysgolion mai'r aelwyd/dysgwr unigol ddylai fod yn destun y data yn ddelfrydol, gan mai dyma sy'n rhoi'r mesuriad cywiraf ynghylch cyfraddau a dosbarthiad anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith disgyblion. Yn yr un modd, mae consensws ar draws y dibenion gwahanol ei bod hi'n hanfodol fod data a gesglir yn y modd hwn ar gael ar lefel dalgylch yr ysgol a'r dysgwr.

Yn yr un modd â rhanddeiliaid allweddol eraill, mae ysgolion yn rhoi pwyslais mawr ar ddata sy'n seiliedig ar incwm fel mesur traddodiadol o dlodi. Gall hyn fod trwy brocsi fel eFSM, ond mae cydnabyddiaeth hefyd o werth cael mynediad at ddata ar incwm a budd-daliadau aelwydydd drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI).

Yn wir, soniodd y rhan fwyaf o ysgolion hefyd am werth posibl y data hwn, gan gynnwys gwybod am gredydau treth gwaith, neu fwy o fanylion am Gredyd Cynhwysol. Rhan o'r rhesymeg dros hyn yw edrych ar gartrefi incwm isel nad ydynt yn cael eu codi yng nghofnod eFSM, ond y gellid eu gweld hefyd fel rhai sydd o dan anfantais:

> "Rwy'n meddwl bod rhywbeth a allai fesur credydau treth gwaith i edrych ar gartrefi sydd ag incwm isel iawn oherwydd gwaith cyflog isel, sy'n dewis credydau treth plant yn hytrach na phrydau ysgol am ddim i'w plant. Sut ydyn ni'n dal y plant hynny sy'n byw mewn tlodi?"

Cyfweliad â staff ysgol

Amlygodd cyfweliadau ag ysgolion hefyd bwysigrwydd cael data sy'n galluogi dealltwriaeth o dlodi hirdymor a pharhaus fel rhan o'u gwaith gwella ysgolion wrth ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr, gan dynnu sylw at lefel uwch yr angen y bydd gan y disgyblion hyn.

> "Wrth symud ymlaen, bydd mwy o effaith ar blentyn sy'n dod o deulu nad yw erioed wedi gadael tlodi mewn tair cenhedlaeth nag ar blentyn y mae ei rieni wedi colli eu swydd yn y tymor byr. Pe baem yn gwybod am y tlodi hwnnw sydd wedi ymwreiddio, nhw fyddai'r plant y byddech chi'n ymyrryd â nhw'n amlach felly nhw fyddai'r rhai o'r grŵp FSM hwnnw fyddai â'r angen mwyaf."

Cyfweliad â staff ysgol

Yn seiliedig ar drafodaethau â chynrychiolwyr ysgolion a deall eu defnydd o ddata neu ddangosyddion eraill sydd ar gael, mae'n amlwg bod ganddynt ddiddordeb mewn gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i wella eu dealltwriaeth gyffredinol o anfantais a'r ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr. Mae MALIC, fel mesur sy'n seiliedig ar ardal, unwaith eto yn cael ei werthfawrogi am ei ddangosyddion lluosog a'i ddefnydd wrth lunio set ddata AWCDS. Er ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith â mwy ffocws wrth nodi a chefnogi dysgwyr agored i niwed, mae ysgolion hefyd yn chwilio am ystod o wybodaeth arall, rhywfaint ohoni'n ymwneud â dysgwyr unigol, gan gynnwys deiliadaeth tai, defnydd o fanciau bwyd, ceisiadau am wisg ysgol, symud ysgolion, a thystiolaeth anecdotaidd.

Mewn rhai achosion, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae ysgolion wedi datblygu mesurau cyfansawdd pwrpasol sy'n cynnwys yr holl ddata sydd ar gael, ac mae hyn yn tanlinellu awydd i gael mynediad at wybodaeth sy'n adlewyrchu natur gymhleth anfantais economaidd-gymdeithasol.

Unwaith eto, ystyrir bod dilysrwydd y lluniad, sef data sy'n cipio'n gywir yr hyn y mae'n honni ei fesur, yn ofyniad at holl ddibenion ysgolion.

**Rhanddeiliaid eraill**

Mae atodiad technegol Tabl 4 hefyd yn cyflwyno canfyddiadau ar gyfer y rhanddeiliaid sy'n weddill. O ystyried nifer ac ystod y rhanddeiliaid dan sylw, mae amrywio sylweddol yn y nodweddion gofynnol. Unwaith eto, mae'n werth sylwi bod y defnyddwyr hyn yn rhoi pwyslais ar ddata incwm, sydd mewn rhai achosion yn angenrheidiol er mwyn bod yn fwy cadarn na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Maent hefyd yn dangos diddordeb yn y wybodaeth sydd ar gael ar agweddau eraill ar anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Rhwystrau a goblygiadau dulliau gwahanol neu atodol

Wrth ystyried unrhyw newid i'r defnydd o ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol, boed hynny'n cynnwys gwelliannau i brocsi eFSM neu fesurau amgen neu atodol eraill, mae rhanddeiliaid wedi sôn am heriau ymarferol y dylid eu hystyried.

Roedd rhai rhanddeiliaid a roddai cryn werth ar eFSM yn ymwybodol y byddai heriau wrth ddod o hyd i fesur amgen neu atodol a oedd yn gallu darparu'r lefel o wybodaeth sydd ei hangen:

> "Ni ddylem danbrisio pa mor anodd fyddai hi i ddod o hyd i rywbeth yn lle FSM sy'n rhoi data inni ar yr un lefel o fanylder ac ar yr un mor aml."

Profforma Llywodraeth Cymru

Ar draws pob grŵp rhanddeiliaid, roedd pryderon ynghylch y goblygiadau o ran adnoddau o orfod mabwysiadu mesurau a dangosyddion eraill, gan y gallai hyn roi cyfrifoldebau pellach arnynt i gasglu neu brosesu data. Fodd bynnag, dylid nodi bod rhanddeiliaid wedi adfyfyrio'n bennaf ar y rhain yn seiliedig ar y dyfalu y byddai dull amgen a gwahanol yn disodli, yn hytrach nag yn ategu, eFSM.

> “Mae cydbwysedd bregus rhwng yr hyn sydd ei angen arnom a’r hyn y mae ysgolion wedi’u hariannu i’w ddarparu, nid ydyn nhw’n gasglwyr data ar gyfer Llywodraeth Cymru, addysgwyr plant ydyn nhw.”

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

> “Amser ac adnoddau fyddai’r rhwystr pennaf a fyddai gennym o ran unrhyw newidiadau oherwydd fod ein hadnoddau yn brin a’u bod yn lleihau [o ran casglu a dilysu data].”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Yn gysylltiedig, pe ceid mesurau amgen, roedd rhai rhanddeiliaid yn bryderus ynghylch cynigion i’w cyflwyno, gan nodi diffyg sgiliau dadansoddi data ymhlith defnyddwyr ledled y system addysg.

> “Nid yw’r system addysg yn wych am ddadansoddi data a phe baem yn cael mwy o ddata, rwy’n credu y byddem yn cael trafferth... Felly rwy’n credu y byddai’n rhaid i ni fod yn ofalus iawn ynghylch hyn wrth gyflwyno ffynonellau data eraill ac mae’n gwneud i mi deimlo ychydig yn nerfus.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Dylanwadodd y pryderon hyn ar natur yr ymatebion gan rai rhanddeiliaid a oedd, fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adran hon, wedi ceisio mireinio’r mesurau a’r dangosyddion presennol yr oeddent eisoes yn eu defnyddio yn hytrach na newid y cyfan:

> “Rwy’n meddwl ei fod yn ymwneud ag adeiladu ar yr hyn sydd gennym ni eisoes yn hytrach na chyflwyno systemau newydd, a chael y capasiti i wneud hynny.”

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Mae rhwystr allweddol arall a nodwyd gan randdeiliaid yn ymwneud â pherchnogaeth data. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae cael perchnogaeth ar y data yn golygu bod awdurdodau lleol yn deall cyfyngiadau a chyd-destun ei gasgliad, a hynny’n hwyluso ei ddefnyddio’n effeithiol. Mae hefyd yn eu galluogi i’w ddefnyddio mor aml ag sydd ei angen arnynt at eu hamrywiol ddibenion. Mae risg y gellid colli’r buddion hyn pe bai eu perthynas â’r data yn newid.

Dywedwyd hefyd y byddai unrhyw newid i eFSM neu ddefnyddio mesurau amgen yn peryglu cyflwyno anghysondeb yn y gwaith hydredol o fonitro canlyniadau dysgwyr, oni bai y gellir cymhwyso newidiadau yn ôl-weithredol, gan y byddai hynny’n cyflwyno heriau i randdeiliaid sy’n defnyddio tueddiadau mewn eFSM i lywio eu gwaith.

Rhybuddiodd rhanddeiliaid hefyd y gallai unrhyw ddiffyg cydlyniant neu gael nifer o ddiwygiadau i ddull gwahanol danseilio hyder, ac ystyriodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod consensws rhanddeiliaid yn rhwystr sylweddol. Pan na cheir cefnogaeth gan randdeiliaid a defnyddwyr data ynghylch defnyddioldeb mesur, mae pryder na fydd y data yn cael ei ddefnyddio’n eang neu y bydd yn cael ei ddefnyddio’n anghyson.

> "Fel defnyddiwr eilaidd, mae'n ymwneud â chael rhywbeth rydyn ni'n hyderus ynddo, sy'n cael ei dderbyn gan y prif randdeiliaid sydd am ei gasglu a'i ddefnyddio."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Y tu hwnt i hyn, nodwyd cyfyngiadau'r pŵer datganoledig sydd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ill dau fel rhwystr i wella a defnyddio mesurau eraill. Roedd hyn yn cynnwys pryderon cyffredinol ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i osod ei hagenda a rheoli ei phrosesau heb alinio yn ddiofyn â Llywodraeth y DU. Roedd hefyd yn deillio o rwystrau i ddatblygu cytundebau rhannu data gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac o ddiffyg pwerau deddfwriaethol i gyflwyno'r ddeddfwriaeth i hwyluso hyn.

Gyda'i gilydd, byddai'r heriau hyn yn gallu cyfyngu ar fynediad at ddata budd-daliadau, a hynny wedi'i nodi gan wahanol randdeiliaid yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn yn ddull allweddol ar gyfer cynyddu cywirdeb eFSM trwy alluogi cofrestru awtomatig.

## Trefnu dull arall neu ddull atodol

Gofynnwyd i randdeiliaid pa gamau gweithredu y teimlent y byddai eu hangen i gefnogi unrhyw drawsnewid i ffordd wahanol neu atodol o fesur anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig i oresgyn rhwystrau ac osgoi goblygiadau.

Soniwyd am y ffaith y byddai angen amser ac ymchwil i brofi a dangos addasrwydd mesurau neu ddulliau amgen. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn addas at y diben a bod rhanddeiliaid yn gallu eu defnyddio mewn modd cwbl wybodus, gan wybod am eu cyfyngiadau.

> "Rhaid i ni fod yn gadarn yn ein sail dystiolaeth, a rhaid iddo fod yn rhywbeth y mae gennym ddata cyson ar ei gyfer, data sydd wedi'i ddilysu ac sy'n dryloyw. Mae'n ddefnydd o arian cyhoeddus ac mae'n mynd allan drwy awdurdodau lleol, felly mae'n rhaid i [awdurdodau lleol] deimlo'n hyderus bod y cyfan yn cael ei wneud mewn modd cyson."
>
> Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

> "[Byddem eisiau] profi dibynadwyedd unrhyw wybodaeth y byddem yn cynnig ei defnyddio a sut olwg fyddai ar hynny ar gyfer beth bynnag yr ydym yn bwriadu ei defnyddio [ar ei gyfer]."
>
> Cyfweliad ag awdurdod lleol

Yn ogystal, mae rhanddeiliaid yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i hwyluso unrhyw newidiadau, gan gynnwys canllawiau, hyfforddiant ac arweinyddiaeth. Mae hyn yn tynnu sylw at rôl bwysig Llywodraeth Cymru yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori barhaus â rhanddeiliaid i benderfynu pa ddata a allai fod ar gael iddynt ar gyfer eu hanghenion. Mae hyn yn hanfodol, o ystyried y cynnydd a wnaed gan yr ymchwil hwn a'i gyfyngiadau o ran consensws ac adborth cyfranogwyr.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at y ffaith bod angen parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol unrhyw broses o'r fath er mwyn helpu i lywio drwy gymhlethdodau posibl yn ei gweithredu, yn enwedig o ystyried pryderon ynghylch yr adnoddau sydd ar gael a'r capasiti i ddefnyddio tystiolaeth ychwanegol ar anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithiol.

> "Mi gredaf ei bod hi'n wirioneddol, wirioneddol bwysig bod pobl ar lawr gwlad yn cael y cyfle hwnnw i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn mynd i siarad â phenaethiaid ysgolion, yn mynd i siarad â theuluoedd [a] siarad â phobl eraill, nid yn unig mewn addysg ac awdurdodau lleol ond hefyd â thimau budd-daliadau."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

> "… mae angen i ni ei ddeall ein hunain. Os nad ydym yn ei ddeall, yna ni allwn ei gyfleu i deuluoedd."

Cyfweliad â staff ysgol

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at yr angen am adnoddau i gefnogi'r rhai sy'n gweithredu y tu allan i'r sector cyhoeddus, gan argymell ymgysylltu'n gynnar â darparwyr systemau gwybodaeth reoli, er enghraifft. Cydnabuwyd bod datblygu meddalwedd sy'n gysylltiedig â chasglu a dadansoddi data a fyddai'n sail i fesur anfantais yn gofyn am ganllawiau clir ac amser paratoi hir, gydag unrhyw broses mudo data yn arwain at ystod o gymhlethdodau y byddai angen i awdurdodau lleol eu rheoli.

> "Byddai angen amser arnom i wneud yn siŵr bod y systemau'n gallu ymdopi ag ef. Os na all [y darparwyr systemau] ymdopi â newid gan Lywodraeth Cymru fel Amddiffyn wrth Bontio, yna mae'n dangos bod yn rhaid i chi roi amser i'r darparwyr meddalwedd addasu."

Cyfweliad ag awdurdod lleol

Roedd cydlyniant a chysondeb yn y dull hefyd yn bwysig i randdeiliaid, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â chynllunio cyllidebau a dyrannu cyllid grant. Dywedodd un rhanddeiliad yn Llywodraeth Cymru, pe bai unrhyw ddiwygiad i'w wneud, y byddent yn dadlau dros un newid unffurf yn hytrach na sawl diwygiad neu ddull graddol. Roedd hyn oherwydd y canfyddiad o 'enillwyr a chollwyr' ymhlith derbynwyr cyllid, oherwydd yr amrywioldeb ym mhob mesur neu ddull procsi.

> "Dydyn ni ddim yn gwneud diwygiadau mawr i'r [cyllid] yn aml iawn os gallwn beidio, oherwydd mae yna bob amser yr ymdeimlad hwnnw gan [dderbynwyr] bod yna enillwyr a chollwyr."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd uchod, mae angen hyn hefyd sicrhau hyder defnyddwyr yn y data a bod rhanddeiliaid yn ymrwymo i ba gyfeiriad neu ddull bynnag a gymerir.

## Prosiectau cyfredol

O fewn Llywodraeth Cymru, soniodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd am waith neu ymchwil sydd ar y gweill sy'n cyd-fynd â defnyddio data eFSM a mesur anfantais economaidd-gymdeithasol. Er i'r cyfranogwyr hyn roi rhywfaint o awgrymiadau pendant ynghylch pa ddata a'i nodweddion penodol sydd eu hangen ar gyfer y gwaith hwn, mae'n bwysig nodi y byddai llawer ohono'n defnyddio neu'n dibynnu ar unrhyw ddull diwygiedig o ymdrin â data ar anfantais economaidd-gymdeithasol a dylid cadw'r prosiectau hyn mewn cof yng nghamau ymchwil y dyfodol.

- Adolygiad mewnol o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG), gan edrych ar ffyrdd amgen o gyfrifo a dyrannu'r grant i gynnwys poblogaeth ehangach o ddisgyblion sydd dan anfantais ac yn osgoi cyfyngiadau eFSM.

- Mae gwaith yn cael ei wneud o ganlyniad i adolygu fformwlâu ariannu llywodraeth leol, gan gynnwys profi cydberthynas amrywiaeth o fesurau i ddeall pa mor ddefnyddiol ydynt fel procsi ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol yng nghyd-destun dosbarthu cyllid yn deg. Ymddengys bod y gwaith hwn ar raddfa sylweddol, yn y gobaith, drwy fod felly, y bydd yn osgoi diwygiadau pellach yn y dyfodol agos.

> "Rydym yn gweithio ar y fformiwla addysg a'r fformiwla gwasanaethau cymdeithasol, ac rydym yn anelu at newid neu ddefnyddio set ddata wahanol a newid y gyfran sy'n gysylltiedig â phob un o'r setiau data hynny i weld pa rai sydd â'r berthynas gydgysylltiedig orau…Nid ydym yn gwneud diwygiadau mawr i'r fformiwla yn aml iawn os gallwn beidio."

Rhanddeiliad Llywodraeth Cymru

- Datblygu dulliau o fonitro'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r ffordd y mae'n diwallu anghenion dysgwyr o gartrefi incwm isel.

- Gwaith sy'n gysylltiedig â Siarter Budd-daliadau Cymru a'r posibilrwydd o symleiddio'r system fudd-daliadau. Y bwriad yw gwella'r broses o gasglu data a sicrhau mai dim ond unwaith y mae'n rhaid i unigolion roi gwybodaeth, er y gellid defnyddio'r wybodaeth honno at ddibenion lluosog. Mae cam un y gwaith hwn yn ystyried sut y gellid rhannu data Prydau Ysgol Am Ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a'r Grant Hanfodion Ysgolion yn fwy effeithiol.

> "Felly mae'n symud o ddiwylliant budd-daliadau i ddiwylliant hawliau a chredu bod gennych hawl. Felly eich hawl yw cael eich cefnogi. Eich hawl yw cael gwybod pa [ddata] sydd gennym ni."

Cyfweliad â Llywodraeth Cymru

# 4. Prif ganfyddiadau a'r camau nesaf

Diben yr ymchwil hwn oedd cynnal cam cychwynnol y prosiect eFSM a Mwy, sydd am adolygu'r defnydd o ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr. Mae'n ymateb i argymhellion adroddiadau blaenorol Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymchwil yn archwiliadol ei natur. Ei nod oedd darparu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ystod o anghenion sydd gan Lywodraeth Cymru a grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill o ran data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr, o ran y dibenion y caiff y data ei ddefnyddio, a dogfennu sut maent yn defnyddio gwybodaeth am eFSM ar hyn o bryd mewn ymateb i'r rhain. Casglodd safbwyntiau ar y cyfyngiadau a'r heriau sy'n ymwneud â defnyddio data eFSM fel procsi ar gyfer anfantais, ac ar y ffyrdd yr eir i'r afael â'r rhain a'r ffyrdd y gellid mynd i'r afael â nhw. Ar ben hynny, roedd yr ymchwil wedi ystyried ffynonellau data eraill a ddefnyddir gan randdeiliaid a gofyn am eu barn ar yr hyn sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y dyfodol.

**Yr angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol**

Mae gan randdeiliaid amrywiaeth o anghenion o ran y pwrpas y maent yn defnyddio data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr fel rhan o'u nod cyffredin o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Gellir categoreiddio'r dystiolaeth hon fel a ganlyn:

- **Ar gyfer llywio datblygiad polisi** ar draws Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ar gyfer rhagolygon cyllidebau, a gweithgarwch ehangach i fonitro tlodi.
- **Ar gyfer cyfrifo a dosbarthu cyllid** i awdurdodau lleol, ysgolion, a theuluoedd mewn ffordd sy'n deg ac yn adlewyrchu angen.
- **Ar gyfer darparu cymorth wedi'i dargedu** i'r dysgwyr hynny sydd fwyaf mewn angen.
- **Ar gyfer ystadegau a monitro canlyniadau,** megis presenoldeb neu gyrhaeddiad ar lefelau cenedlaethol, lleol, ysgol ac unigolion.
- **Ar gyfer gwella ysgolion**, gan gynnwys fel ffordd o adnabod dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, a llunio a gweithredu ymyriadau cymorth wedi'u targedu.
- **Ar gyfer rheoli arlwyo ysgolion** o ran modelu lefelau'r galw am brydau bwyd a'r adnoddau cysylltiedig y dylid eu dyrannu i arlwyo.

**Y defnydd o ddata eFSM ar hyn o bryd**

Rhoddodd grwpiau ymatebwyr o blith rhanddeiliaid fanylion ynghylch eu defnydd o ddata eFSM. Dangosodd hyn fod y data'n cael ei ddefnyddio'n helaeth i lywio datblygu a gweithredu ystod o bolisïau yn genedlaethol ac yn lleol. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at gerrig milltir cenedlaethol ehangach ac asesiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(WBFGA), ond yn bennaf ar gyfer cynllunio strategol ac ariannol yn y llywodraeth ac mewn awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol a gwella canlyniadau i ddysgwyr.

Mae'r ymchwil wedi cadarnhau graddfa'r cyllid sydd wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo a ddyrannwyd ar sail eFSM gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drwy Grant Addysg Awdurdodau Lleol (LAEG), gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion (PDG) a'r Setliad Llywodraeth Leol. Dangosodd yr ymchwil hefyd y gwahaniaeth a'r amrywiaeth yn ei ddefnydd yn fformwlâu awdurdodau lleol ar gyfer Cyllideb Ysgolion Unigol (ISB) wrth ddosbarthu cyllid i ysgolion.

Manylodd awdurdodau lleol hefyd ar y graddau y'i defnyddir i roi cefnogaeth wedi'i thargedu i ddysgwyr agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys Proffiliau Asesu Bregusrwydd (VAP) i nodi dysgwyr agored i niwed fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Mae defnydd Llywodraeth Cymru o eFSM yn elfen bwysig wrth gynhyrchu ystadegau sy'n archwilio'r berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau, gan gynnwys presenoldeb a chyrhaeddiad. Defnyddir y data hefyd wrth gynhyrchu Set Ddata Graidd Cymru Gyfan (AWCDS) ac offer sydd ar gael i'r cyhoedd megis Fy Ysgol Leol.

Mae data eFSM, sydd ar gael ar lefel y dysgwr unigol neu'r aelwyd, hefyd yn bwysig i waith yr Uned Ymchwil Data Gweinyddol (ADRU) sy'n cydlynu cysylltu data trwy gronfa ddata SAIL, ac i'r rhai sy'n gweithio ag ystadegau ôl-16 trwy Medr i olrhain canlyniadau hirdymor.

Mae'r gweithgarwch gwella ysgolion a wneir gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn defnyddio data eFSM i fonitro canlyniadau ar lefel ysgolion neu unigolion ar gyfer dysgwyr dan anfantais ac i feincnodi'r canlyniadau hyn ag ysgolion tebyg trwy ddefnyddio AWCDS. Mae hyn yn galluogi cynllunio a gwerthuso blaenoriaethau. Fe'i defnyddir hefyd gan ysgolion ochr yn ochr â data arall i adnabod dysgwyr sy'n agored i effaith bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol ac i lywio'r gwaith o lunio a chyflwyno ymyriadau neu gefnogaeth, megis darparu cyllid pwrpasol neu adnoddau ychwanegol i gefnogi eu dysgu neu eu cynhwysiant ym mywyd yr ysgol.

Yn ogystal, defnyddir y data at ddibenion ymarferol sy'n ymwneud ag arlwyo, gan lywio cyllidebu a dosrannu adnoddau i ddeall a diwallu'r galw am fwyd mewn ysgolion, a bod yn sail i ystod o waith a gyflawnir trwy gyrff hyd braich sy'n cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, Gyrfa Cymru, Estyn, a Chymwysterau Cymru, mewn cysylltiad â'u swyddogaethau penodol hwy eu hunain.

Disgwylir y bydd sawl un arall yn defnyddio data eFSM y tu hwnt i'r rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwil hon, ac roedd ymwybyddiaeth yr ymatebwyr o'i ddefnydd y tu hwnt i'r system addysg gyhoeddus yn gyfyngedig ar y cyfan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyrff eraill yn y sector cyhoeddus megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru;
- Sefydliadau'r trydydd sector fel Plant yng Nghymru, Sefydliad Bevan, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, mudiad yr Urdd; a

- Rhanddeiliaid y sector preifat, fel darparwyr systemau gwybodaeth rheoli addysg a darparwyr tiliau nad yw'n derbyn arian parod.

**Cryfderau data eFSM**

Mae buddion eFSM fel dangosydd wedi'u sefydlu'n gadarn ers tro, ac mae rhanddeiliaid yn amlwg yn cydnabod gwerth data eFSM fel mesur ar lefel unigolion sy'n rhoi cipolwg ar amgylchiadau aelwyd dysgwyr. Mae hyn yn gwneud data eFSM yn hanfodol ar gyfer llywio polisi, ystadegau, a monitro canlyniadau dysgwyr dros amser; nodi pa ddysgwyr i roi cymorth wedi'i dargedu iddynt; ac fel rhan o'r broses ar gyfer rheoli gwasanaethau mewn ysgolion. Mae hefyd yn bwysig i waith cyrff cyhoeddus fel Cymwysterau Cymru wrth asesu effaith diwygio cymwysterau, Gyrfa Cymru wrth dargedu cymorth â gyrfaoedd i ddysgwyr, UCAS fel rhan o'u gwaith yn gwella mynediad i Addysg Uwch, ac i'r arolygiaeth ysgolion Estyn wrth sicrhau bod ysgolion yn diwallu anghenion eu dysgwyr difreintiedig.

Mae'n gysyniad sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac yn cael ei ddeall yn dda, gan ei wneud yn werthfawr i awdurdodau lleol sy'n gweithio â phob math o gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhieni yn ystod y broses ymgeisio i gael prydau ysgol am ddim a dosrannu gwahanol grantiau i ysgolion a lleoliadau dysgu eraill.

Cryfder arall eFSM yw pa mor aml y caiff ei gasglu a'i gyhoeddi. Mae ar gael yn gyhoeddus yn flynyddol drwy CYBLD ac, i awdurdodau lleol, yn amlach yn dibynnu ar eu prosesau a'u dulliau penodol hwy. Yn gysylltiedig, budd pwysig yw mai awdurdodau lleol yw 'perchnogion y data' (gan mai nhw sy'n casglu'r data), a hynny'n fanteisiol ar gyfer rhannu data rhwng adrannau a chyda rhanddeiliaid allanol.

Mae'r meini prawf ar gyfer cymhwystra a'r dull casglu data hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog drwy gydol y blynyddoedd, a hynny, mewn theori, yn golygu gallu cynnal dadansoddiadau yn seiliedig ar dueddiadau ynghylch y niferoedd sy'n eFSM. Yn yr un modd, mae'r dull yng Nghymru yn cyd-fynd yn fras â dulliau yng ngwledydd eraill y DU, yn enwedig Lloegr, gan alluogi cymharu ar draws ffiniau. Fodd bynnag, mae amrywiadau mewn meini prawf cymhwystra a throthwyon yn golygu y dylid bod yn ofalus wrth gymharu.

**Cyfyngiadau data eFSM**

Cynigiodd yr ymchwil ddealltwriaeth bellach i gyfyngiadau eFSM. Tynnodd sylw at sawl her dechnegol yn y broses casglu a chofnodi data a allai fod wedi tanseilio ei gywirdeb. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r amrywio yn y dulliau gweithredu ar draws awdurdodau lleol a'r posibilrwydd o gamgymeriadau wrth drin data â llaw, ac mae wedi'i waethygu ymhellach gan heriau diweddar yn ymwneud ag Amddiffyn wrth Bontio.

Nodwyd sawl her dechnegol yn y broses o gasglu a chofnodi data a allai godi peryglon yn ei gywirdeb. Mae hyn yn ymwneud â gwahaniaethau yn y dull a ddefnyddir ledled yr awdurdodau lleol a'r potensial am wallau wrth drin data â llaw a'r heriau hyn oll wedi'u dwysáu ymhellach gan y problemau diweddar sy'n gysylltiedig ag Amddiffyn wrth Bontio.

Cydnabu rhanddeiliaid y cyfyngiadau sefydledig ar ddata eFSM. Awgrymwyd ganddynt fod y data yn tanamcangyfrif nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim, gan gydnabod bod nifer o resymau pam na fyddai rhiant o bosibl yn cofrestru eu plentyn, megis problemau â'r broses ymgeisio, stigma, neu'r dewis o ran y bwyd ei hun.

Ymhellach, nid yw rhanddeiliaid yn ystyried bod eFSM yn adlewyrchiad cywir o nifer y dysgwyr sy'n byw mewn tlodi. Credir bod hyn yn bennaf oherwydd ei fod yn fesur trothwy sydd â meini prawf cymhwystra isel. Yn wir, nid yw'r meini prawf wedi newid ers 2019, er gwaethaf cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a'r gofynion enillion isafswm ar gyfer Credyd Cynhwysol, a hynny'n golygu bod nifer llai o deuluoedd yn debygol o fod yn gymwys. Mae hyn er gwaethaf pwysau chwyddiant a chostau byw, sy'n golygu, mewn termau real, nad yw eu hincwm wedi gwella a'u bod yn parhau i fod mewn tlodi cymharol. Mae pryderon hefyd ynghylch amrywiadau yn incwm teuluoedd, sy'n golygu y gallai mynediad at gymorth newid yn sylweddol yn ystod y flwyddyn a hynny o bosibl yn effeithio ar y rheiny sy'n byw mewn rhai ardaloedd penodol yn fwy nag eraill.

Mae'r cyfyngiadau hyn yn effeithio ar ba mor gywir y gall y data adlewyrchu graddfa a natur anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag incwm ac felly ei gywirdeb fel procsi ystyrlon a dibynadwy. Mae'n her benodol wrth gyfrifo a dosbarthu cyllid ar gyfer cyllidebau sefydlog sy'n cael eu harwain gan alw, gan fod potensial i gamddeall lefel yr angen, camddyrannu cyllid, a chael effaith wrth dargedu cefnogaeth i ddysgwyr.

Cydnabu rhanddeiliaid hefyd nad yw'r data, gan ei fod yn adlewyrchu incwm yn unig, yn cipio a chofnodi natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol; ystyrir ei fod yn anwybyddu ffactorau eraill sy'n berthnasol i brofiad y dysgwr a allai fod yn fwy allweddol wrth achosi anghydraddoldeb mewn canlyniadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion fel math o dŷ a deiliadaeth tai, galwedigaethau a chymwysterau eu rhieni, a mynediad at wasanaethau, etc, yn ogystal â'r ffyrdd y mae'r rhain yn croesdorri â ffactorau megis ethnigrwydd a statws ADY.

Awgrymwyd y gallai dibynnu ar ddata nad yw'n ystyried y ffactorau hyn olygu bod risg o gamgyfleu natur a chyffredinolrwydd anfantais a chyfeirio cymorth yn anghywir neu at nifer annigonol o ddysgwyr. Ymhellach, nid yw'n galluogi rhanddeiliaid i ddeall ac ymateb yn llawn i'r ystod o wahanol anghenion.

Amrywio y mae'r graddau yr effeithia'r cyfyngiadau hyn ar ddefnydd rhanddeiliaid o ddata eFSM, gyda'r effaith pennaf ar hyder defnyddwyr yn y data. Cydnabu rhai awdurdodau lleol y problemau ond maent yn parhau i ddefnyddio'r data gan mai dyma'r gorau sydd ar gael.

**Prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd**

Canfu'r ymchwil hwn fod canfyddiad ymhlith awdurdodau lleol fod cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl (UPFSM) wedi effeithio ar gofrestriadau eFSM, gyda 16 o'r 19 awdurdod a gymerodd ran yn yr ymchwil yn dweud hyn. O'r rhain, awgrymodd 10 o'r awdurdodau eu bod wedi derbyn llai o geisiadau gan rieni nag y disgwyliwyd gan briodoli hyn i gynnig pryd am ddim i bawb. Rhoddwyd sawl rheswm ganddynt i gefnogi'r farn hon.

Er bod y pryderon yn ddilys ynghylch effaith tan-adrodd am eFSM oherwydd y cynllun pryd am ddim i bob disgybl, ni ellir datgysylltu unrhyw ostyngiad yn y niferoedd oddi wrth ffactorau cymysglyd eraill. I rai awdurdodau lleol, ymddengys bod effaith dryswch ynghylch sut y cofnodir statws Amddiffyn wrth Bontio wedi achosi mwy o effaith dros dro ar ddibynadwyedd data nag UPFSM. Ymhellach, nid yw ffigurau swyddogol eto wedi dangos gostyngiad amlwg yn nifer y cofrestriadau.

Roedd barn gymysg ymhlith rhanddeiliaid o ran goblygiadau UPFSM a'r effaith bosibl y gallai ei chael ar gofrestriadau, a hyn yn gallu adlewyrchu ansicrwydd parhaus ynghylch ei effaith. Awgrymodd rhai nad oedd wedi gwneud fawr o wahaniaeth ac nad yw wedi effeithio ar eu defnydd o'r data, tra bod eraill wedi sôn amdano'n tanseilio eu hyder yn y data ymhellach ac wedi adfyfyrio ar y problemau y gallai eu hachosi, yn enwedig ar gyfer cyllid.

**Gwelliannau ac atebion**

Edrychodd yr ymchwil hefyd ar farn rhanddeiliaid ar weithgarwch a wnaed i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a'r heriau diweddar yn ymwneud â data eFSM. Ymysg yr ymdrechion hyn mae gwella prosesau dilysu, codi ymwybyddiaeth ynghylch newidiadau i bolisi, gwella'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd trwy ddefnyddio cyfartaleddau yn hytrach na ffigurau pwynt-mewn-amser, mabwysiadu 'FMS ever-6', neu gynyddu amlder casglu data eFSM er mwyn ei gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth fwy cywir o'r niferoedd sy'n gymwys dros gyfnod o amser.

Un dull allweddol a awgrymodd sawl rhanddeiliad i oresgyn cyfyngiadau eFSM yw'r posibilrwydd o gael mynediad uniongyrchol at ddata budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Byddai hyn yn rhoi modd pennu pwy sy'n eFSM a byddai'n agor y drws i fabwysiadu proses cofrestru awtomatig (sydd hefyd wedi'i dreialu mewn sawl lleoliad yn Lloegr). Byddai hyn yn lleihau'r ddibyniaeth ar geisiadau gan rieni a lleihau'r baich ar awdurdodau lleol i gasglu a dilysu data, ac yn gwella dibynadwyedd y data.

Ateb arall i fynd i'r afael ag anallu eFSM i gynnwys yn llawn pob dysgwr sy'n byw mewn tlodi fyddai cynyddu trothwy incwm Credyd Cynhwysol (UC) a gyflwynwyd yn 2019 er mwyn iddo gadw i fyny â chwyddiant. Byddai hyn yn sicrhau nad yw nifer cynyddol o ddysgwyr yn dod yn anghymwys er nad oes unrhyw welliant mewn termau real yn incwm eu cartref.

Er bod rhai rhanddeiliaid wedi dweud nad oedd ganddynt fawr o hyder yn hyfywedd eFSM yn y dyfodol, roedd y rhan fwyaf yn cefnogi, er yn amharod, ei ddefnydd parhaus, cyn belled â bod cydnabyddiaeth glir o'i gyfyngiadau a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol yng ngoleuni'r rhain, ac y gellid gwneud gwelliannau i gynyddu ei ddibynadwyedd.

**Defnyddio data arall ar anfantais economaidd-gymdeithasol**

Mae'r gwelliannau ac atebion hyn yn ddefnyddiol, ond nid ydynt yn gallu diwallu anghenion rhanddeiliaid yn llawn o ran anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys bod hyn yn dylanwadu ar lawer o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil i bwyso ar ffurfiau eraill o ddata, boed yn ddata sydd ar gael am yr ardal a data am unigolion/aelwydydd. Y rheswm amlaf dros wneud hynny oedd cael mwy o wybodaeth gyd-destunol sy'n rhoi modd iddynt ddeall yn well agweddau eraill ar anfantais yn hytrach nag incwm yn unig.

Y ffurf amlycaf i gael data ar anfantais economaidd-gymdeithasol a ddefnyddir ehangaf gan randdeiliaid yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), a defnyddir hwn naill ai yn ychwanegol at yr eFSM neu'n annibynnol arno. Fe'i defnyddir ar draws pob grŵp o randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion ac eraill, mewn perthynas â'u dibenion penodol, ond ar gyfer dulliau a chymhellion gwahanol. Fodd bynnag, mae rhai pryderon bod data MALIC yn gynyddol hen ffasiwn (er bod cynlluniau i ddiweddaru MALIC yn 2025) a hynny wedi cyfyngu ar ei ddefnyddioldeb ynghyd â lefelau ei fanylder.

Mae rhanddeiliaid hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion eraill ar lefel aelwydydd neu unigolion, gan gynnwys data'r Cyfrifiad, data Acorn/CACI, a data'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mewn rhai achosion, mae defnyddwyr wedi mynd ati i brofi cydberthnasau'r data hyn ag eFSM megis ar gyfer y Setliad Llywodraeth Leol. Yng nghyd-destun gwella ysgolion, defnyddir data ar amrywiaeth o agweddau ar anfantais economaidd-gymdeithasol o wahanol ffynonellau, weithiau mewn mesurau cyfansawdd pwrpasol i fod yn ffordd o ddyrannu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, ar gyfer arweinwyr gwella ysgolion a llawer o ysgolion, barn athrawon/ymarferwyr oedd y ffactor terfynol wrth adnabod dysgwyr sy'n agored i niwed.

**Anghenion rhanddeiliaid**

O ystyried ehangder y cyfyngiadau a'r heriau sy'n ymwneud ag eFSM, ac mewn ymateb i argymhellion o adroddiadau blaenorol, gofynnodd yr ymchwil am farn rhanddeiliaid ynghylch pa ffynonellau data atodol neu amgen fyddai'n gwella'r ffordd o fesur anfantais a'r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu dibenion a diwallu eu hanghenion.

Nid oedd gan y rhanddeiliaid ar y cyfan safbwyntiau cryf ar hyn ac nid oeddent yn gallu rhoi adborth cynhwysfawr ar fformatau data penodol yr hoffent gael gafael arno y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Yn hytrach na damcaniaethu pa ffurfiau eraill o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol, eu ffocws oedd cynnal a gwella'r data sydd ganddynt drwy gael dulliau a thechnegau pendant i wneud y gorau o'r hyn sydd ar gael.

Fodd bynnag, yn sgil dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd trwy brofformâu a chyfweliadau yn ymwneud â'r cwestiynau ymchwil yn gyffredinol, cafwyd mewnwelediad i'r mathau o ddata a'u nodweddion y cred gwahanol grwpiau o randdeiliaid sy'n fwyaf atyniadol i ddiwallu eu hanghenion, boed yn eFSM yn ei ffurf gyfredol neu wedi'i ddiwygio neu rywbeth arall. Mae hyn wedi'i nodi mewn cyfres o dablau sydd yn yr atodiad technegol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Ar y lleiaf, disgwylir y bydd y data o ansawdd uchel, y bydd wedi cael ei ddilysu i leihau gwallau a bod tryloywder yn y dulliau a ddefnyddiwyd i'w gasglu. Dylai hefyd fod ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch i'r rhanddeiliaid hynny sy'n dymuno ei ddefnyddio.

Yn seiliedig ar y dibenion y mae rhanddeiliaid yn defnyddio'r data am anfantais, nodwyd y nodweddion eraill canlynol i fod yn rhai pwysig i'w hystyried yn fanylach. Mae amrywio ymhlith ac ar draws grwpiau rhanddeiliaid o ran y graddau y maent yn rhoi pwyslais ar y rhain a'u hunion ofynion yn gysylltiedig â phob un:

- Rhwyddineb ei ddeall

- Ei amseriad
- Amlder
- Sefydlogrwydd
- Gallu i'w gymharu
- Manylder y data

Archwiliodd yr ymchwil hefyd farn rhanddeiliaid ar ddata yn ymwneud ag agweddau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol ag argymhellion adroddiadau blaenorol. Teimla pob rhanddeiliad, ar draws y gwahanol ddibenion y defnyddient y data, ei bod yn bwysig parhau i gael mynediad at wybodaeth am incwm. Maent yn rhoi gwerth uchel ar brocsi'r eFSM yn enwedig gan fod potensial ar gyfer ei wella a'i gryfhau, gan gynnwys mynediad uniongyrchol at ddata ar fudd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a HBAI. Mae awydd hefyd ymhlith rhai yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a rhanddeiliaid eraill i gael data incwm sydd ar gael mewn haenau neu raddfeydd er mwyn gallu deall gwahanol lefelau o dlodi, gan gynnwys pobl dlawd sy'n gweithio ac/neu i fod ar gael dros y tymor hwy i ddeall tlodi dwfn neu barhaus.

Drwy eu myfyrdodau ar gyfyngiadau eFSM a'u trafodaeth am eu defnydd o ddata arall, mae'n amlwg bod rhanddeiliaid sy'n gweithio ar draws y system addysg â diddordeb mewn gwybodaeth gyd-destunol ar anfantais economaidd-gymdeithasol y tu hwnt i incwm yn unig. Y rheswm am hyn yw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau addysgol a natur amrywiol anghenion dysgwyr er mwyn rhoi gwahanol fathau o gefnogaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Roedd petruster ymhlith rhanddeiliaid ynghylch cyflwyno data gwahanol neu atodol, a soniwyd am sawl rhwystr a goblygiadau. Soniwyd am derfynau pŵer datganoledig a gallu Llywodraeth Cymru i osod ei hagenda a rheoli ei phrosesau ei hun, yn enwedig ynghylch gwelliannau i brocsi eFSM. Yn benodol, mae ymwybyddiaeth bod rhwystrau rhag gallu datblygu cytundebau rhannu data gydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU sy'n cyfyngu ar fynediad at ddata budd-daliadau.

Y pryder mwyaf amlwg i randdeiliaid yw'r baich posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw newid i'r prosesau casglu a chofnodi ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae anesmwythyd hefyd ynghylch perchnogaeth ac argaeledd data a gallu rhanddeiliaid i'w ddadansoddi mor effeithiol â'r hyn a ddefnyddir ganddynt ar hyn o bryd. Pryder arall yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydlyniad a chysondeb y dulliau a ddefnyddir, a hynny'n gallu tanseilio hyder defnyddwyr.

Yn ogystal, her allweddol wrth oresgyn cyfyngiadau eFSM yw cymhlethdod yr ateb sydd ei angen oherwydd swm mawr y data, nifer y defnyddwyr a'r ystod o ddibenion y maent yn defnyddio'r data ar eu cyfer. Ar ben hynny, mae casglu a defnyddio eFSM yn cwmpasu ystod o feysydd polisi, sy'n gallu cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i addysg, tlodi, cydraddoldeb, lles, a llywodraeth leol, a gallai goblygiadau unrhyw newidiadau yn y dull gweithredu fod yn anferthol.

Er mwyn hwyluso unrhyw newid yn y defnydd o ddata, boed yn addasiadau i'r hyn maen nhw'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd neu wybodaeth ychwanegol i'w ategu, soniodd

rhanddeiliaid am yr angen i neilltuo amser ac ymchwil i brofi a dangos pa mor briodol ydyw. Maent hefyd yn galw am adnoddau wrth fynd ymlaen, gan gynnwys canllawiau, hyfforddiant ac arweinyddiaeth, yn ogystal ag ymgynghori ac ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn diwallu eu hanghenion.

## Camau nesaf

Er bod rhai rhanddeiliaid yn parhau i fod yn fodlon ar y cyfan â'r defnydd o ddata eFSM, eto mae cydnabyddiaeth glir o'i gyfyngiadau a'r heriau sy'n effeithio ar ei ddefnydd. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod problemau amlwg â'r amddiffyn wrth bontio a chyflwyno cinio ysgol am ddim i bob disgybl (UPFSM), hyd yn oed os na fesurwyd yr union effaith ar gywirdeb data a chofrestriadau. Gellid rhoi ystyriaeth bellach i ddeall oblygiadau hyn nawr ac yn y dyfodol, gan gynnwys y gwahanol fesurau dilysu a lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith. Yn yr un modd, mae angen rhoi sylw i ddeall effaith y trothwy enillion statig ar gyfer cymhwystra yn sgil pwysau chwyddiant, a'i oblygiadau ar gadernid y data dros amser a'i ddefnydd ar gyfer monitro ac ymyrryd.

Roedd yr ymchwil wedi darparu gwybodaeth am ystod o atebion parhaus a rhai a argymhellir er mwyn mynd i'r afael â diffygion data eFSM a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion rhanddeiliaid yn effeithiol. Gellid rhoi ffocws ychwanegol ar archwilio'r gwahanol opsiynau a drafodwyd, megis gwelliannau sy'n cynnwys eFSM 'Ever-6', ceisio cael mynediad uniongyrchol at ddata budd-daliadau, neu gymryd camau yn unol â datblygiadau diweddar yn Lloegr i gynyddu'r trothwy cymhwystra.

Yn gyffredinol, nid oedd rhanddeiliaid yn gallu rhoi adborth cynhwysfawr a manwl ar ffurfiau penodol eraill o ddata economaidd-gymdeithasol yr hoffent gael mynediad atynt, i helpu i ddiwallu eu hanghenion a'u pwrpas. Fodd bynnag, awgryma'r canfyddiadau fod llawer ohonynt angen data ac iddo amrywiaeth o nodweddion gwahanol, ac mae diddordeb mewn gwybodaeth fwy cyd-destunol sy'n rhoi cipolwg ar agweddau eraill ar anfantais y tu hwnt i incwm yn unig. Gellir defnyddio'r canfyddiadau sydd wedi'u mapio yn yr atodiad technegol i lywio camau nesaf yr ymchwil. Gallai unrhyw gamau nesaf yn yr ymchwil fynd ati i asesu pa mor effeithiol y mae gwahanol ddangosyddion a mesurau o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth fodloni gofynion ac anghenion y rhanddeiliaid a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, sef dangosyddion a mesurau sydd naill ai ar gael ar hyn o bryd neu y gellir eu datblygu mewn modd mwy pwrpasol trwy gysylltu data.

Yn anad dim, awgrymodd rhanddeiliaid y byddent yn elwa o arweiniad a chael bod yn rhan o waith pellach a allai arwain at newidiadau, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ac i leihau effeithiau posibl. Yn sgil hyn, wrth ymgymryd â chamau nesaf yr ymchwil ac wrth lunio unrhyw bolisi dilynol, dylid ystyried ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw. O ystyried y gofynion amrywiol a graddfa'r disgwyliadau posibl ymhlith rhanddeiliaid a allai godi yn rhan o'r broses hon, bydd angen ystyried hefyd sut y gellir darparu ar gyfer eu hanghenion data o fewn cwmpas yr adnoddau sydd ar gael i gyflawni unrhyw newid.

Yn olaf, mae nifer o brosiectau mawr a datblygiadau polisi ar y gweill y gallai ymchwil pellach effeithio arnynt; o'r herwydd, dylai'r ymchwil hwn ac unrhyw benderfyniadau a allai ddeillio ohono ystyried hyn er mwyn cael cyn lleied o aflonyddu â phosibl.

# Atodiad

**Kounali (2008)** **[The probity of free school meals as a proxy measure for disadvantage]**

Lleoliad: Y Deyrnas Unedig

Yn sgil pryderon ynghylch y mesur eFSM, ceisiodd yr erthygl gynnar hon gynnig asesiad empirig ynghylch pa mor briodol ydyw. Ar y cyfan, canfu fod eFSM yn tanamcangyfrif cyfran y plant sy'n gyson islaw'r trothwyon incwm a awgrymir gan y meini prawf cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim o tua 60%. Daw'r ymchwilwyr i'r casgliad fod hyn yn ei wneud yn fynegai annibynadwy a bras o anfantais economaidd, sydd, yn ei dro, yn arwain at amcangyfrifon rhagfarnllyd o effaith tlodi ar gyrhaeddiad academaidd. Awgrymir bod angen dangosyddion tlodi manylach, sy'n cyfuno cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim â dangosyddion eraill fel Credyd Treth Gwaith, i asesu effaith amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ar gynnydd academaidd yn fwy dibynadwy.

**Gorad (2013).** **[Who is eligible for free school meals? Characterising free school meals as a measure of disadvantage in England]**

Lleoliad: Lloegr

Defnyddia'r papur hwn set ddata genedlaethol o bob disgybl (CYBLD) ar gyfer 2007. Mae'n archwilio'r berthynas rhwng gwahanol ddangosyddion ar gefndir a chyrhaeddiad disgyblion i helpu i benderfynu pa mor ddefnyddiol yw eFSM o'i gymharu â'r dewisiadau amgen a awgrymir, sut i ymdrin â'r cwestiwn hollbwysig o ddata coll, ac yn disgrifio'n llawnach nag o'r blaen y darlun cenedlaethol o bwy sy'n gymwys ai peidio i gael prydau ysgol am ddim.

Er bod y gwahaniaeth rhwng y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth a'r cymhwystra wedi erydu, dengys y canlyniadau bod eFSM yn newidyn haenu defnyddiol a chlir ar gyfer patrymau cyrhaeddiad disgyblion yn yr ysgol, a'i fod yn gysylltiedig â math o ysgol, gorfod symud ysgol, byw mewn gofal, anghenion arbennig, iaith gyntaf, a grŵp ethnig lleiafrifol.

Mae'r disgyblion sydd ar goll o brydau ysgol am ddim yn disgyn i ddau grŵp, yn seiliedig yn bennaf ar eu math o ysgol a pha mor hir y maent wedi bod yno. Mae un grŵp yn mynychu ysgolion sy'n talu ffioedd ac yn fwyaf tebyg i ddisgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim mewn mannau eraill, a gellid eu hagregu â nhw mewn dadansoddiadau yn y dyfodol nad ydynt am eu hepgor. Mae'r disgyblion prydau ysgol am ddim eraill sydd ar goll yn ffurfio grŵp difreintiedig ac efallai grŵp hynod ddifreintiedig. Ni ddylid hepgor y rhain, na thybio eu bod fel disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn ffigurau perfformiad swyddogol ysgolion yn Lloegr, sy'n rhoi ysgolion â derbyniadau difreintiedig iawn o dan anfantais.

Os caiff y materion hyn sy'n gysylltiedig â data coll eu datrys a chyfyngiadau eraill eu derbyn, mae cael prydau ysgol am ddim yn parhau i fod yn ddangosydd gwell o statws economaidd-gymdeithasol isel na'r dewisiadau amgen cyfredol a drafodir yn y papur.

**Hobbes a Vignoles (2013). Is children's free school meal 'eligibility' a good proxy for family income?**

Lleoliad: Lloegr

Mae'r erthygl hon yn archwilio'r berthynas rhwng plant yn bod yn 'gymwys' i gael prydau bwyd am ddim ac incwm net cyfatebol yr aelwyd mewn arolwg cenedlaethol cynrychioliadol yn Lloegr (Arolwg Adnoddau Teuluol). Mae'n canfod bod plant sy'n 'gymwys' i gael prydau bwyd am ddim yn llawer mwy tebygol na phlant eraill o fod yn yr aelwydydd sydd â'r incwm isaf. Fodd bynnag, dim ond tua chwarter i hanner ohonynt oedd yn yr aelwydydd incwm isaf yn 2004/5.

**Ilie et al (2017). Revisiting free school meal eligibility as a proxy for pupil socio-economic deprivation**

Lleoliad: Lloegr

Mae'r erthygl hon yn crynhoi data ynghylch defnyddio data eFSM a'r ddadl ynghylch y problemau y mae'n eu hachosi. Ei phrif nod yw ystyried a yw'n brocsi digonol ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol disgyblion mewn cyd-destun addysgol, a gwna hynny trwy ei gymharu â mesurau eraill o anfantais economaidd-gymdeithasol disgyblion yn yr Astudiaeth Hydredol o Bobl Ifanc yn Lloegr a data gweinyddol cyfatebol. Canfuwyd bod eFSM yn cydberthyn ac yn gorgyffwrdd â'r mesurau hyn, gan gynnwys nodweddion aelwydydd ar lefel unigolion (e.e. incwm, galwedigaeth, cyflogaeth a chymwysterau rhieni, ac ati) a phrocsis lefel cymdogaeth (e.e. Mynegai Amddifadedd Incwm sy'n Effeithio ar Blant [IDACI] a chyfran yn y dosbarthiadau galwedigaethol uchaf); fodd bynnag, nid yw'n nodi pob plentyn sy'n byw mewn aelwydydd a fyddai'n cael eu hystyried yn aelwydydd difreintiedig. Canfuwyd bod rhai mesurau ar lefel unigolion nad ydynt yn llwyr gysylltiedig ag incwm yn rhagfynegwyr gwell o gyrhaeddiad addysgol, er bod yr effaith yn eithaf ymylol. Yn bwysig, fe wnaethant hefyd amcangyfrif model a oedd yn cynnwys mesurau lluosog a chanfod bod eu pŵer esboniadol cyfunol yn fwy wrth ystyried amrywiant mewn canlyniadau.

**Taylor (2018). The Reliability of Free School Meal Eligibility as a Measure of Socio-Economic Disadvantage: Evidence from the Millennium Cohort Study in Wales**

Lleoliad: Cymru

Mae'r astudiaeth hon gan academydd o Gymru unwaith eto'n crynhoi'r gwahanol ddefnydd ar ddata eFSM a nifer o'r prif fanteision ac anfanteision. Mae'r papur yn asesu dibynadwyedd y mesur eFSM mewn tair ffordd trwy gysylltu Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS) a data gweinyddol sy'n seiliedig ar addysg o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD). Yn gyntaf, mae'n canfod nad yw eFSM yn dal pob plentyn sy'n byw mewn tlodi incwm, gyda dim ond tua 50% o'r plant o'r fath wedi'u cofnodi fel rhai cymwys. Yn ail, archwilia'r berthynas rhwng eFSM a nodweddion economaidd-gymdeithasol eraill a chanfu bod y mesur yn eithrio rhai grwpiau amlwg. Yn drydydd, edrycha ar y berthynas rhwng eFSM a chanlyniadau addysgol yn 7 ac 11 oed, o'i gymharu â mesurau eraill anfantais economaidd-gymdeithasol, ac mae hynny'n datgelu canlyniadau cymhleth. Yn 7 oed, nid oedd unrhyw berthynas arwyddocaol rhwng bod yn eFSM neu fesurau tebyg eraill

sy'n gysylltiedig ag incwm, megis incwm aelwyd a grŵp galwedigaethol, a chyrhaeddiad, ac roedd ffactorau eraill, megis lefelau addysgol rhieni, i'w gweld yn bwysicach. Yn 11 oed, mae'r berthynas rhwng eFSM/mesurau incwm tebyg a chyrhaeddiad yn gryfach ac yn bwysicach na'r berthynas â lefel addysgol rhieni. Fodd bynnag, daw'r awduron i'r casgliad bod y canfyddiadau'n dal i ddangos nad yw bod yn eFSM yn cyfrif am yr holl amrywiad mewn canlyniadau ymhlith plant eraill sydd ag anfanteision economaidd-gymdeithasol penodol.